



Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Gwrandawiadau Cyhoeddus: Aberystwyth

Trawsgrifiad o'r Gwrandawriad Cyhoeddus

Aberystwyth AM

Allwedd

SP: Stephen Phillips, Comisiynydd Cynorthwyol (Cadeirydd)
SW: Shereen Williams, Ysgrifennydd i'r Comisiwn
RP: Roger Pratt, Y Blaid Geidwadol
PR: Y Cyngorydd Pete Roberts, Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol
JL: Joe Lock, Y Blaid Lafur
AMH: Aled Morgan Hughes, Plaid Cymru
TA: Tom Adams, Y Blaid Lafur
GL-D: Gwenllian Lansdowne-Davies, Comisiynydd Cynorthwyol
AM: Alan Midhar, Comisiynydd Cynorthwyol
AC: Andrew Clemes, Comisiynydd Cynorthwyol
PL: Patrick Loxdale, Ceidwadwr
HH: Havard Hughes, Ceidwadwr =


[Trawsgrifiad yn dechrau am 00:00:14]

SP: Croeso cynnes iawn ichi i gyd. Croeso i Aberystwyth. Stephen Phillips yw fy enw i, ac rwy'n un o bedwar Comisiynydd Cynorthwyol gyda'r Comisiwn Ffiniau yn gweithio ar yr arolwg hwn. Fy nghydweithwyr, ar yr ochr dde i mi, yw Gwenllian Lansdowne-Davies, ac Andrew Clemes i'r dde ohoni hi, mae Alan Midhar ar yr ochr chwith i mi, ac Ysgrifennydd y Comisiwn, Shereen Williams i'r chwith ohono fe. Fel Comisiynwyr Cynorthwyol rydym yn gyfrifol am ddadansoddi'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd, ac yna cyflwyno ein hargymhellion ni maes o law i'r Comisiwn, neu Gomisiynwyr ddylwn i ddweud, ynglŷn â ph'un a ddylai'r cynigion cychwynnol gael eu hadolygu ai peidio. Rydym yn annibynnol, nid ydym yma i ddadlau manteisio ac anfanteision y cynigion cychwynnol a gynhwysir yn y ddogfen; mae copiau o'r ddogfen ar gael ar y ddesg tu allan.

Hwn yw'r pumed gwrandawriad a'r un olaf ledled Cymru; mae'r cyfnod ymgynghori eilaidd wedi cyd-redeg â'r pum gwrandawriad, ac mae'n cau heddiw. Gellir gwneud cynrychiolaethau yn ysgrifenedig trwy Borth y Comisiwn a dulliau eraill, ond mae'n bwysig bod y cynrychiolaethau hynny'n cael eu derbyn heddiw neu fel arall ni fyddant yn cael eu hystyried. Bydd yr holl gynrychiolaethau yn Gymraeg neu yn Saesneg yn derbyn yr union un driniaeth, fel yn wir y rhai a wneir ar lafar yn y gwrandawriadau hyn.

[00:01:52:03]

Mae gennym amserlen gweddol brysur heddiw. Rwy'n bwriadu caniatáu, nid wyf yn bwriadu caniatáu croesholi, ond rwy'n ceisio cadeirio'r gwrandawriad hwn mor hyblyg ag y bo modd i alluogi pawb i gael yr un cyfle i ddweud eu dweud. Byddaf yn gofyn i'r siaradwyr ddod ymlaen at y darllenfwrdd, datgan eu henw, yr ardal y maent yn dod ohoni, nid cyfeiriad cartref, ond rhyw syniad o'r ardal yn union, a dweud p'un a ydynt yn siarad yn bersonol neu ar ran sefydliad. Cadwch at eich lwfans amser neilltuedig, neu mae risg y cewch eich stopio. Mae cydweithiwr y tu ôl acw yn rhywle a fydd yn rhoi'r rhybudd pum munud i chi, a byddem yn gofyn i chi geisio dweud wrthym pam rydych yn gwneud eich cynnig a'r sail resymegol amdano. Os ydych yn dymuno annerch y gwrandawriad yn Gymraeg neu yn Saesneg, mae hynny'n iawn. Byddai o gymorth pe byddech yn gallu datgan hynny




pan ddewch at y darllenfwrdd. Mewn ychydig funudau, byddaf yn gofyn i Shereen amlinellu ychydig o faterion eraill yn ymwneud â threfn pethau a ble'r ydym arni o ran y broses yn gyffredinol. Fel rwy'n dweud, rwyf am geisio cadeirio mor hyblyg ag y bo modd, ond ar y llaw arall, gwneud yn siŵr ein bod yn mynd drwy'r busnes mor gyflym ag y bo modd. Felly, ar sail hynny, Shereen, a ydych chi eisiau ychwanegu unrhyw beth?

SW:

Bore da. Croeso bawb. Mae trafodion heddiw yn cael eu ffrydio'n fyw ac mae recordiad ar waith at ddibenion trawsgrifio. Os ydych chi'n bwriadu Trydaru, tagiwch ni @BCommWales. Fel y soniodd Steve, mae adroddiadau a chopiau o arweiniad i'r arolygon ar gael ar y ddesg flaen, ac mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael; gwelwch y clustffonau ar eich cadeiriau. Bydd gwrandawriad heddiw yn eistedd tan 8.00pm ac fel y soniodd Steve eto, hwn yw'r olaf o'r pum gwrandawriad cyhoeddus, a hefyd y diwrnod cau ar gyfer ein cyfnod ymgynghori.

Pan lansiom ein cynigion ym mis Medi, derbyniodd dros 1,200 o gynrychiolaethau, ac roedd nifer fawr o'r rhain yn benodol i ardaloedd. Pan oedd nifer fwy, roedd y cynrychiolaethau a dderbyniodd, a oedd yn cwmpasu Cymru gyfan, gan y pleidiau gwleidyddol yn bennaf. Mae rhai o'r uchafbwyntiau yn cynnwys gwrthwynebiadau i gymuned Llangynnwr yn cael ei chynnwys yn etholaeth Llanelli, a chynnwys Ponytyclun yn etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd. Roedd nifer o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu rhannu Cwm Cynon. Roedd nifer o gynrychiolaethau eisiau i Ddinas Powys aros yn rhan o Fro Morgannwg, roedd gwrthwynebiadau i etholaeth Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd a oedd yn canolbwyntio ar gyfuno rhannau o Abertawe gyda rhannau o Gastell-nedd Port Talbot. Roedd nifer o gynrychiolaethau'n dadlau y dylai Pontardawe yn ardal Cwm Tawe Uchaf gael ei gynnwys yn etholaeth Abertawe. Roedd nifer sylweddol o gynrychiolaethau'n gwrthwynebu'r cynigion ar gyfer Aberconwy a Dwyfor Meirionnydd. Roedd y prif wrthwynebiadau i Wrecsam yn sgil cynnwys Brymbo a Mwynglawdd yn etholaeth gymdogol Alun a Glannau Dyfrdwy. Derbyniodd etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili wrthwynebiad cryf yn sgil cyfuno dwy ardal awdurdod lleol ar wahân. Fodd bynnag, roedd cefnogaeth gyffredinol i etholaethau Sir Fynwy, Torfaen a Dwyrain Casnewydd. Roedd nifer fach o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu cyfuno Blaenau Gwent gyda Rhymni yn un etholaeth, ar sail materion yn ymwneud ag amddifadedd. Fodd bynnag, ni ddarparwyd unrhyw gynnig amgen i'r Comisiwn yn y cynrychiolaethau hynny. Roedd y gwrthwynebiadau yn ymwneud â Delyn yn sgil yr enw a ffafrio Dwyrain Clwyd yn lle hynny, a derbyniodd Sir Drefaldwyn a Glyndŵr gefnogaeth gyffredinol, gyda nifer fach yn gwrthwynebu enw'r etholaeth. Fel y soniais yn gynharach, bydd y gwrandawriad olaf hwn, sef yr olaf o'n gwrandawriadau cyhoeddus a'n Porth Ymgynghori, yn cau am 11:59pm heno. Yn dilyn hynny, bydd y Comisiynwyr Cynorthwyol yn ystyried yr holl gynrychiolaethau ysgrifenedig a llafar, a chynrychiolaethau'r cyhoedd, o'r gwrandawriadau cyhoeddus, a byddant yn cyflwyno'u hargymhellion i'r Comisiwn yn ystod, ym mis Mehefin. Mae'r Comisiwn yn gobeithio cyhoeddi ein cynigion diwygiedig ym mis Hydref eleni, a bydd wedyn yn cynnal cyfnod ymgynghori o bedair wythnos a fydd yn ein cadw ni ar drywydd iawn yr amserlen ar gyfer cyhoeddi ein hargymhellion terfynol mewn pryd ar gyfer y cyntaf o Orffennaf 2023.

[00:06:29]



transcribe this

Aberystwyth AM

Diolch i chi am roi o'ch amser i mi heddiw; rwyf am drosglwyddo'n ôl i Steve, fel y gall trafodion heddiw gychwyn.

SP: Diolch Shereen. Dylwn fod wedi dweud, mewn gwirionedd, er nad ydw i'n caniatáu croesholi heddiw fel y cyfryw, byddaf yn caniatáu cwestiynau o'r llawr i'r siaradwyr ac yn wir, efallai bydd gen i a'm cydweithwyr bwyntiau o esboniad hefyd yn ystod y dydd. Felly, yn ddiymdroi, rwy'n cynnig symud at ein siaradwr cyntaf, sef Mr Roger Pratt. Chi biau'r llawr, syr.

RP: Diolch.


SW: Dyna ni. Diolch.

RP: Bore da. Diolch yn fawr iawn. Fy enw i yw Roger Pratt, ac rwy'n gyfarwyddwr yr arolwg ffiniau ar gyfer y Blaid Geidwadol. Yn flaenorol, roeddwn yn gyfarwyddwr y blaid yng Nghymru, ac rwy'n byw ger y Fenni yn Sir Fynwy. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle hwn, mae Tom a minnau wedi bod o amgylch y rhan fwyaf o'r gwrandawladau yn Lloegr. Yn anffodus, roedd Tom yn sâl gyda Covid ac ni ddaeth i ychydig ohonynt, ond rwyf wedi bod i naw ohonynt yn Lloegr, ond mae'n braf iawn yng Nghymru eich bod yn cael cyfle i grynhoi eich safbwynt yn y gwrandawriad olaf yn ogystal ag amlinellu'r safbwynt yn y gwrandawriad cyntaf. Rwy'n ddiolchgar iawn am hynny, ac yn ddiolchgar iawn am yr holl waith y mae'r Comisiwn wedi'i wneud.

Felly, mae hwn yn ategu ein cyflwyniad gwreiddiol, sydd yn amlwg yn y cynrychiolaethau. Rhif 9809 ydyw, ac rwyf wedi ei roi i ysgrifennydd y Comisiwn y bore 'ma, ac rwy'n credu ei bod hi wedi rhoi ein hymateb terfynol i'r ymgynghoriad i bob un o'r Comisiynwyr, sy'n edrych fel yna. Nawr, fe allech ddweud bod y map yn edrych yn union yr un peth â'r un gwreiddiol, os edrychwch arno'n ofalus iawn, a byddai'n rhaid i chi edrych arno'n ofalus iawn, mae pump o newidiadau wardiau o'n cynigion cychwynnol mewn gwirionedd, a byddaf yn mynd ymlaen i drafod y rheiny a gobeithio, mae'r map yn dangos y rheiny, y pum newid hynny. Felly, mae hynny gennych, ac yn amlwg mae'n ychwanegol at y cyflwyniad a wneuthum yng Nghaerdydd a'r cyflwyniad heddiw.

[00:09:53]

Felly, rydym yn cefnogi dyrannu 32 o seddi i Gymru, yn amlwg, 31 ar y tir mawr, ynghyd â sedd warchoddedig Ynys Môn, ac ni fyddaf yn sôn mwy am honno. Rydym yn mynd i, fel yn ein, yn ein cynigion cychwynnol lle'r aethom, fel y Comisiwn, drwy bob un o'r etholaethau arfaethedig yn nhrefn y wyddor yng ngwrandawriad Caerdydd, ac ar yr achlysur hwn ac yn ein cynrychiolaeth derfynol, rydym yn edrych arno yn ôl awdurdodau lleol, ac rydym wedi grwpio pum grŵp yn y bôn, sydd, yn fy marn i, yn ffordd dda iawn o wneud hynny. Mewn lleoedd eraill, maen nhw'n eu galw'n isranbarthau, a chredwn fod y rhain yn dda, maent yn cyfuno awdurdodau lleol, maent yn debygol o fod yn gydymffurfiol iawn â'r rheolau. A'r unig wahaniaeth rhwng ein hisranbarthau ni, i bob pwrpas, â rheiny gan y Comisiwn, yw bod ward Nelson, o dan gynigion y Comisiwn, wedi'i chynnwys yng Nghanol a De Morgannwg, felly i bob pwrpas byddai Gwent a Chanol a De Morgannwg wedi'u cyfuno, ac yn ein cynigion ni, nid ydynt wedi'u cyfuno. Fe wnaethom roi Nelson yng Ngwent, felly mae'r ardaloedd hynny gennym, a hefyd mae gennym Orllewin




Morgannwg a Phowys, rhan o Bowys, Dyfed a Gogledd Cymru, gan gynnwys rhan o Bowys. A dyna sut fyddai'n edrych ar bob un o'r ardaloedd hyn. Nid wyf yn bwriadu mynd trwy bopeth yn fanwl iawn gan fod ein cynrychiolaethau'n gwneud hynny, ac yn y bôn, ein cynrychiolaeth olaf, mae hyn fwy neu lai'n adeiladu ar ein cynrychiolaeth olaf, ond yn ein cynrychiolaeth olaf, rydym wedi rhoi rhifau i'r cynrychiolaethau, rhifau i bethau, cynrychiolaethau rydym yn cyfeirio atyn nhw, nid wyf yn mynd i wneud hynny bore 'ma, ond byddwn, maent yno, maen nhw i gyd yn y ddogfen derfynol honno.

Felly, rydym wedi edrych ar y ffiniau mewn perthynas â'r rheolau, y rheolau ar gyfer aiddosbarthu seddi, a dyna sut rydym wedi barnu cynigion y Comisiwn, ein cynigion ni ac unrhyw wrthgynigion. Yn benodol, mae rhywun yn edrych ar ffiniau llywodraeth leol, ffiniau etholaethau presennol a chysylltiadau lleol, ond yn amlwg, mae ystyriaethau daearyddol yn bwysig hefyd mewn rhannau o Gymru. Felly byddwn yn edrych ar bopeth mewn perthynas â hynny.

Felly, os edrychwn ar Dde Ddwyrain Cymru yn gyntaf, yng Ngwent. Felly, gan gwmpasu awdurdodau lleol Blaenau Gwent, Casnewydd, Caerffili, Sir Fynwy a Thorfaen, credwn fod cefnogaeth eang iawn i bedair sedd Blaenau Gwent a Rhymni, Sir Fynwy, Dwyrain Casnewydd a Thorfaen. Nid oes fawr ddim gwrthwynebiad i'r rheiny, mae yna un neu ddau o wrthgynigion, a dof at y rheiny nes ymlaen, ond o ran hwn.... Mae gennym Sir Fynwy yn gydffiniol; mae gennym Torfaen yn gydffiniol, ac mae'r ddau ohonynt yn gydymffurfio iawn â rheol 5.1b. Nodwn fod bob un o'r aelodau seneddol, rhai o'r blaid Lafur, un o'r blaid Geidwadol, fod bob un o'r pedwar aelodau seneddol yn cefnogi'r pedair etholaeth hynny, mae'r blaid Lafur yn cefnogi, mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cefnogi, ac mae cefnogaeth eang. Ac felly, rydym yn credu nad oes, nid wyf am ddweud nad oes unrhyw ddewis amgen, ond yn amlwg, mae cefnogaeth eang iddynt a hyderwn y bydd y pedair etholaeth hynny'n cael eu penderfynu fel cynigion gwreiddiol y Comisiwn.

[00:13:38]

Mae'n amlwg bod mwy o bryder ynghylch yr holl gwestiwn yn ymwneud â Gorllewin Casnewydd a Chaerffili ac Islwyn. Rydym yn cefnogi'r etholaethau fel, fel y'u cynigiwyd, fel y mae'r blaid Lafur yn cefnogi. Ein hunig ychwanegiad yw, y dylai ward Nelson aros o fewn Islwyn ac mae llawer o gynrychiolaethau ynglŷn â hynny, credwn ei fod yn well o lawer o dan y rheolau oherwydd, yn amlwg, ward Caerffili ydyw, mae wedi'i gwahanu oddi wrth Ystrad Mynach, y mae ganddo gysylltiadau agos ag ef. Rydym yn ei roi yn ôl gydag Ystrad Mynach yn etholaeth Islwyn, nid oes angen i chi wneud unrhyw beth arall ond bod, bod y niferoedd yn gywir, oherwydd mae Islwyn yn isel, a gyda ward Nelson wedi'i hychwanegu, yn cysylltu gydag Ystrad Mynach, mae hyn yn gwella'r sefyllfa, yn gwella cysylltiadau lleol o dan reol 1b ac mae'n gwella cysylltiadau llywodraeth leol am ei fod yn golygu bod Caerffili wedi'i leihau o ran nifer yr etholaethau y mae awdurdod lleol Caerffili ynddynt ac mae hefyd, ar yr ochr arall, yn helpu o ran cysylltiadau llywodraeth leol. Felly mae'r cysylltiadau llywodraeth leol yn well, mae'r cysylltiadau lleol yn well a chredwn fod achos cryf iawn dros i Nelson gael ei gynnwys. Nawr, o ran y gwrthgynnig, yn nhermau Gorllewin Casnewydd a Chaerffili ac Islwyn, nid yw'n effeithio ar unrhyw etholaethau eraill, ond byddem yn ei wrthod. Credwn ei bod yn well o lawer i Orllewin Casnewydd a Chaerffili fod fel, fel y cynigiodd y Comisiynwyr, ac i Islwyn




fod fel y cynigiwyd. Nodwn yn benodol fod yr Aelod Seneddol dros Islwyn, yr aelod seneddol Llafur, Chris Evans, yng ngwrandawriad cyhoeddus Caerdydd ac, ac yn ysgrifenedig, wedi gwneud achos cryf iawn dros etholaeth arfaethedig Islwyn y Comisiwn, y byddem yn amlwg yn ychwanegu Nelson ati. A chredwn, os ydych chi, os edrychw'n ar y cysylltiadau, mae'n rhaid i un etholaeth mae'n amlwg gael ei chysylltu gyda Chasnewydd, nid wyf yn credu bod unrhyw un yn amau hynny. Os edrychwch ar y cysylltiadau, credwn fod y cysylltiadau yn well o lawer rhwng Caerffili a, Caerffili a Gorllewin Casnewydd nag ydynt gyda gweddill etholaeth arfaethedig Islwyn, rannau arfaethedig y byddent yn mynd â nhw i mewn i Gasnewydd gyda, gydag Islwyn; o ran cynnig Mr David, mae'n bryderus iawn, mae Caerffili wedi'i rannu yn bedwar ac mae eisiau iddo fod wedi'i rannu yn dri, ond wrth wneud hynny, mae'n sicrhau hefyd bod Islwyn, sydd wedi'i dorri yn ddau, yn cael ei dorri yn dri, ond yn ein cynnig ni, eto, mae Caerffili wedi'i rannu yn dri, oherwydd ry'n ni'n dod â Nelson yn ôl ac mae Islwyn yn dal i mewn, mewn dwy ran.

O ran cysylltiadau Islwyn, Casnewydd, credwn fod cysylltiad cryf iawn gan Argoed a Phenmaen gyda'r Coed-duon, ac mae cysylltiadau gwael iawn rhwng y wardiau hynny a Chasnewydd, tra bod cysylltiadau cryf â'r Coed-duon a byddai'r rheiny'n cael eu torri gan y cynigion hyn, ac felly credwn, ar ôl pwysu a mesur, fod y cynnig yn well os cynhwyswch, os ydych yn cael, fel y mae'r Comisiwn wedi'i gynnig, ynghyd â'n hawgrymiadau ni ar gyfer ward Nelson.

Felly, o ran Canol a De Morgannwg, sy'n cwmpasu awdurdodau lleol Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Caerdydd a Bro Morgannwg, mae yna, rydym wedi nodi cefnogaeth gref iawn am i Aberaman gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Merthyr Tudful ac Aberdâr, mae llawer iawn, nifer fawr yn cefnogi'r ddwy ward hynny, gogledd a de Aberaman. Llawer o gefnogaeth, cefnogaeth gref, a nodir manylion hynny gennym yn ein cynigion. Ac felly byddem yn mynd â'r ddwy ward hynny i mewn, rydym yn gwybod fod yna bryderon ynglŷn â rhai eraill, torri Cwm Cynon i fyny mewn ffyrdd eraill, ond nid yw'n bosibl i Aberpennar gael ei chynnwys. Felly, byddem yn cynnwys un ward, sydd â chysylltiadau ag Aberpennar, yn etholaeth Pontypridd a byddem hefyd yn cynnwys Ffynnon Taf, ac mae dwy ward yn cael eu tynnu allan o Rhondda Cynon Taf i'w cysylltu â Chaerdydd. Credwn fod hyn, mae hyn yn anfoddfaol ac felly rydym yn gwella'r cysylltiadau llywodraeth leol, ni allwch ni, yn anffodus, ddod â ward Pontyclun a Ffynnon Taf i mewn. Byddem yn dod â ward Ffynnon Taf yn ôl a'i chynnwys mewn etholaeth Pontypridd a nodwn hefyd fod cefnogaeth gyffredinol i etholaeth Rhondda, ac rydym ni, yn wir, yn cefnogi hynny.

[00:18:46]


Felly, nodwn fod pryder ynglŷn â De Caerdydd a Phenarth, fod yr etholaeth honno'n cael ei chynnig gyda rhannau datgysylltiedig. Roedd nifer o eitemau tystiolaeth ynglŷn â hynny. Nid oes unrhyw gyswllt rhwng Y Sblot a Trowbridge; rwy'n credu eu bod yn un o'r cynrychiolaethau, wedi awgrymu y gallech chi, fel Comisiynwyr, fod eisiau cerdded, cerdded rhwng Y Sblot a Trowbridge heb wlychu, ac nid ydynt yn meddwl y gallwch wneud hynny. Rwy'n siŵr nad ydych chi'n mynd i wneud hynny, ond mae, i bob pwrpas maen nhw'n rhannau datgysylltiedig ac felly, os ychwanegwch ward Rhymni yn unig at Dde Caerdydd, a Phenarth, rydych chi'n sicrhau bod yr etholaeth, etholaethau, yr un etholaeth yng Nghymru, sydd



dros y cwota, mae'n rhaid iddi leihau o ran maint felly. Byddem yn tynnu Llanrhyddi allan, ni fyddem yn cynnwys Dinas Powys, oherwydd 'does dim angen gwneud, felly byddai ein hetholaeth ni i gyd o fewn etholaeth bresennol De Caerdydd a Phenarth, felly mae'n well o dan reol 5.1c o ran yr etholaethau presennol, ac rydych chi'n sicrhau nad oes unrhyw ran ddatgysylltiedig. Nodwn fod y Democratiaid Rhyddfrydol yn cefnogi hynny hefyd, a bod nifer o rai eraill yn cefnogi'r etholaeth De Caerdydd a Phenarth a awgrymir gennym. Nodwn hefyd fod nifer o gynigion i gyfuno Llandaf a Gogledd Llandaf. Cryn nifer o gynigion, yr ydym eto yn eu hamlinellu yn ein cynrychiolaeth fanwl, a byddem yn rhoi'r ddwy ward honno gyda'i gilydd yng Ngorllewin Caerdydd. Nodwn fod cryn bryder ynghylch hepgor Dinas Powys o Fro Morgannwg. Yr un etholaeth yng Nghymru, sydd o'r maint cywir, yw Bro Morgannwg, honno yw'r unig un sydd y maint iawn. Nid ydym yn credu, felly, bod angen ei newid, felly mae'n llawer mwy cydymffurfiol â rheol 5.1c, ac rydym yn nodi'r pryder hwnnw. Nodwn hefyd gynrychiolaethau Alun Cairns yng ngwrandawriad Abertawe a hefyd, Vince Driscoll, sydd wedi byw yn Ninas Powys gydol ei oes, yng ngwrandawriad Caerdydd. Nodwn mai hwn yw'r cynnig gan y Democratiaid Rhyddfrydol hefyd, sydd â'r etholaeth honno. Felly, rydym yn annog yn gryf fod Dinas Powys yn aros o fewn etholaeth Bro Morgannwg.

Nawr, os symudaf ymlaen at Orllewin Morgannwg a Phowys, felly Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr ac etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed. Nodwn yn glir fod pryder ynglŷn ag etholaeth arfaethedig Brycheiniog a Sir Faesyfed, ond credwn mai hwn yw'r opsiwn lleiaf gwael, a byddaf yn aml, mae'n rhaid i'r Comisiwn fynd gyda'r opsiynau lleiaf gwael, yn anffodus. Mae'n rhaid i Frycheiniog a Sir Faesyfed ehangu, nid oes unrhyw ddewis amgen, dyma sy'n rhaid iddo ddigwydd. Felly, i bob pwrpas, mae yna ddau ddewis amgen i gynnwys Cwm Tawe Uchaf, yr ardaloedd hynny o Gastell-nedd, wardiau Castell-nedd ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed, mae dau ddewis amgen. Un yw cynnwys Sir Fynwy, a byddwn i, yn wir, yn ei symud o dan rai cynigion, i mewn i Frycheiniog a Sir Faesyfed, lle nad oes gen i unrhyw beth yn erbyn Brycheiniog a Sir Faesyfed, a dweud y gwir, mae Sir Fynwy sy'n cyd-ffinio yn gydymffurfiol iawn â'r rheolau. Mae ganddi lawer o gefnogaeth ac mae'n synhwyrol iawn, yn ein barn ni. Ac mae'n golygu y byddai'r effeithiau canlyniadol yn effeithio ar Went cyfan, y cyfan o dde ddwyrain Cymru, a byddai felly, credwn y byddai'n llawer gwaeth o dan y rheolau pe bai Sir Fynwy yn cael ei dynnu allan felly, roedd Sir Fynwy wedi'i rhannu, felly ni fyddai'n cyd-ffinio mwyach, ac fel y dywedais, mae iddo lawer o gefnogaeth, gan gynnwys bob un o'r pedwar grŵp ar gyngor Sir Fynwy, cefnogaeth unfrydol gan gyngor Sir Fynwy, cefnogaeth gan y blaid Lafur, cefnogaeth gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Felly, rydym yn credu y byddai defnyddio Sir Drefaldwyn i ychwanegu at Frycheiniog a Sir Faesyfed yn anghywir, a byddai'n waeth o dan y ffactorau statudol o dan y rheolau. Nodwn mai'r gynrychiolaeth, y brif gynrychiolaeth a fyddai'n cynnwys Sir Fynwy yw cynrychiolaeth Plaid Cymru. Maent yn rhannu Sir Fynwy yn dri, sy'n waeth na'r sefyllfa bresennol hyd yn oed. Mae cynigion y Comisiwn yn ei wella, sef y sefyllfa bresennol. Byddai Plaid Cymru yn ei gwneud yn waeth fyth trwy ei rhannu yn dri. Byddai Torfaen, sydd eto'n cyd-ffinio'n ddestlus, yn rhannu, yn cael ei rhannu yn ddau. Byddent hefyd yn hollti'r awdurdodau lleol bach, Merthyr Tudful a Blaenau Gwent, a chredwn fod hynny'n anffodus iawn, ac yn groes iawn i reol 5.1b, ac felly mae effeithiau gwneud unrhyw beth gyda Sir Fynwy, yn ein barn ni, lawer yn waeth na'r cynnig i gynnwys Cwm Tawe Uchaf.

[00:24:08]



transcribe this

Aberystwyth AM

Tudalen 6

Os mai'r dewis amgen arall yw cynnwys rhan o Sir Drefaldwyn, fel bod yr etholaeth yn gyfan gwbl o fewn Powys, credwn y byddai hyn yn rhannu ardal hanesyddol Sir Drefaldwyn, a bydd Mr Williams, yn ddiau, yn siarad am hynny nes ymlaen. Byddai'n torri'r ardal hanesyddol hon, byddai'n amhoblogaidd hefyd. Y tro diwethaf, bu'n rhaid i'r Comisiwn gysylltu Brycheiniog a Sir Faesyfed gyda Sir Drefaldwyn gan nad oedd unrhyw ddewis amgen. Mae yna ddewis amgen y tro hwn, nid oedd bryd hynny, ac roedd gwrthwynebiad aruthrol iddo; niferoedd mawr iawn..., yn gwrthwynebu ac rwy'n credu, yng ngwrandawriad Wrecsam, fod Ian, Ian Harrison, a'r cyn aelodau seneddol Glyn Davies a Robert, Robert Harvey ill dau wedi siarad am gadw Sir Drefaldwyn gyda'i gilydd. Os gwnewch chi hynny, byddai hefyd yn torri cysylltiadau gyda'r Drenewydd, oherwydd byddai'n rhaid i'r Drenewydd fynd i'r de a byddai'r ardaloedd uniongyrchol i'r gogledd, sydd â chysylltiadau cryf iawn â'r Drenewydd, yn cael eu torri. Felly byddai'n waeth o dan reol 5.1b ac nid ydym yn credu y dylech rannu Sir Drefaldwyn. Un pwynt arall fydden i'n ei wneud yw, pe bai naill ai Sir Fynwy neu Sir Drefaldwyn yn cael eu cynnwys gyda Brycheiniog a Sir Faesyfed, Brycheiniog a Sir Faesyfed yw'r etholaeth fwyaf o ran arwynebedd yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'n parhau i fod, o dan y cynigion ac o dan yr un o'r cynigion hyn, y byddai hyd yn oed yn fwy na'r cynnig, sef cynnwys y wardiau o Gastell-nedd. Credwn, fodd bynnag, fod achos cryf iawn i gydnabod yr ardal yn enw'r etholaeth. Credwn ei bod yn anghywir i'w alw yn Brycheiniog a Sir Faesyfed. Mae llawer o'r gwrthwynebiadau oherwydd eu bod yn meddwl mai etholaeth wedi'i seilio ar Aberhonddu ydyw, ac Aberhonddu a Maesyfed ydyw. Felly os ydych chi'n adnabod yr ardal yn yr enw mewn gwirionedd, credwn fod hynny'n well o lawer. Rydym wedi rhoi tri dewis amgen gerbron, dewisiadau amgen posibl, sef Cwm Tawe, Pontardawe neu, Cwm Tawe Uchaf. Byddem ni'n derbyn unrhyw rai o'r rheiny, mae yna..., mae yna rai eraill sydd wedi'u hawgrymu, a chyhyd â bod yr ardal wedi'i chynnwys yn yr enw, gan y credwn fod hynny'n hollbwysig, yna rydym yn hapus.

[00:26:42]


Er y soniwn amdano fel yr opsiwn lleiaf gwael, mae iddo fanteision hefyd. Mae Ystrad, Ystradgynlais yn cysylltu'n dda gydag Ystalyfera a Phontardawe. Nid wyf yn credu bod unrhyw un yn gwadu'r cysylltiadau rhwng Ystradgynlais ac Ystalyfera, ac yn wir, mae nifer o gynrychiolaethau'n cyfeirio at hyn. Er nad ydynt efallai yn hoffi cysylltu gydag Aberhonddu, maent yn dweud, ond wrth gwrs mae'r ardal yn cysylltu gydag Ystradgynlais, felly mae llawer, mae llawer o bobl yn dweud hynny. Yn wir, mae cynrychiolaeth y Blaid Lafur yn dweud hynny. Nawr, ar hyn o bryd, mae ardal Ystradgynlais yn ffurfio 12% o etholaeth bresennol Brycheiniog a Sir Faesyfed, felly mae 12% yn Ystradgynlais. A dweud y gwir, Ystradgynlais yw'r anheddiad mwyaf, mae'n fwy nag Aberhonddu, hwn yw'r anheddiad mwyaf yn etholaeth bresennol Brycheiniog a Sir Faesyfed. A bydd yr aelod seneddol dros Frycheiniog a Sir Faesyfed yn siarad am hyn nes ymlaen. Rwy'n gobeithio y bydd hi'n cyrraedd cyn gynted ag y bo modd, ond mae'n gyrru o Lundain. Bydd yn manylu mwy ar hynny nes ymlaen heddiw. Ond yw pwynt yw, er ei fod yn 12%, yn rhan bwysig o'r etholaeth, mae'r aelod seneddol yn cynnal cymorthfeydd yno, fel y bydd yn dweud wrthyhych. Mae'n cynnal cymorthfeydd yn Ystradgynlais, mae'n mynd i Ystradgynlais er mwyn pobl Ystradgynlais. Nid yw'n disgwyl i Ystradgynlais ddod i Aberhonddu. A byddai'r un peth yn wir, hyd yn oed yn fwy gwir, pe bai wardiau Castell-nedd yn cael eu hychwanegu at Frycheiniog a Sir Faesyfed. Felly byddai



ardaloedd Cwm Tawe Uchaf yn ffurfio rhyw draean o'r etholaeth, felly traean, fwy neu lai, Ystradgynlais..., traean yng Nghwm Tawe Uchaf, traean ym Maesyfed a thraean yn Aberhonddu. Yn fras iawn iawn, y ddau draean arall, ond traean i bob pwrpas. Felly, byddai'n rhan hanfodol o etholaeth unrhyw aelod seneddol. Yn amlwg byddent yn cynnal cymorthfeydd yno, byddent yn amlwg yn mynd yno, i gyfarfod ag etholwyr yno. Ni fyddent yn disgwyl i etholwyr ddod i Aberhonddu, byddent yn..., yn mynd yno, felly'r aelod seneddol sy'n gorfod symud, nid yr etholwyr a fydd gan yr aelod seneddol. Byddwn i'n synnu'n fawr pe na bai gan aelod seneddol wedi'i ethol ar gyfer yr etholaeth honno, fel honno a gynigir, swyddfa neu is-swyddfa yn y rhan, yn rhan Cwm Tawe Uchaf o'r etholaeth. Felly rwy'n meddwl bod, fod hyn, er ein bod yn dweud yr opsiwn lleiaf gwael, mae hefyd, yn ein barn ni, yn opsiwn credadwy. Ceir cysylltiadau da rhwng Ystradgynlais ac Ystalyfera, a chredwn fod y dewisiadau eraill yn llawer gwaeth o dan y rheolau, ac rydym yn eich annog i argymhell etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed fel y'i cynigiwyd, ond rydym yn eich annog chi i newid yr enw fel bod yr ardal honno, y traean hwnnw o'r etholaeth sy'n yn dod i mewn, yn cael ei chydabod yn enw'r etholaeth.

Felly, rydym yn nodi bod pryderon sylweddol iawn ynglŷn ag etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr, yn enwedig yr holl gynrychiolaethau sy'n awgrymu bod Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei rannu. Mae torri cysylltiadau lleol yn y cynigion yn un o'r pethau mwyaf difrifol, ac rydym wedi rhoi cynnig amgen gerbron, sy'n cwmpasu'r ddwy etholaeth yn unig. Etholaeth arfaethedig Aberafan a Phorthcawl ac etholaeth arfaethedig Pen-y-bont ar Ogwr, rydym wedi awgrymu cynigion amgen y credwn eu bod yn bodloni'r etholaethau presennol yn well. Felly mae gennych etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr a hefyd, ac i bob pwrpas mae gennych Aberaf..., etholaeth Aberafan neu Bort Talbot a Maesteg. Credwn fod hynny'n well, ac mae'n sicr yn bodloni'r meini prawf o ran y rheolau, etholaethau presennol, ac mae'n well o lawer ac o ran cysylltiadau lleol, mae'n adfer y cysylltiadau lleol hynny ym Mhen-y-bont ar Ogwr sy'n cael eu torri gan y Comisiwn. Felly, credwn fod cryn deilyngdod yn ein cynnig yno.

Nodwn.... y trefniadau amgen ar gyfer tair etholaeth Abertawe. Rydym yn cefnogi'r cynigion o ran y rhain. Fodd bynnag, rydym yn nodi'r pryder sylweddol yng Nghastell-nedd ynglŷn â chysylltu ag Abertawe. Credwn, os rhowch chi Castell-nedd yn gyntaf gan mai dyna'r rhan fwyaf o bell ffordd, yn hytrach nag Abertawe yn gyntaf, byddai hynny'n helpu. Nid ydym yn dweud bod hynny'n lliniaru pethau yn llwyr, ond mae'n helpu ychydig pe bai Castell-nedd yn dod gyntaf. Credwn hefyd y dylai Gŵyr, sef y rhan fwyaf o etholaeth Gŵyr a Gorllewin Abertawe, ddod yn gyntaf yn yr enw fel y mae Cymdeithas Gŵyr wedi awgrymu. Rydym yn gwrthod y cynigion amgen, rydym yn gwrthod y cynigion amgen, yn rhannol am eu bod yn rhannu Cyngor Cymuned y Mwmbwls, ac un o fanteisio cynnig y Comisiwn yw ei fod yn uno nifer o gynghorau cymuned, gan gynnwys Cyngor Cymuned y Mwmbwls, sydd wedi'i rannu ar hyn o bryd. Maent yn ei roi gyda'i gilydd ac mae hwnnw'n bwynt cryf iawn gyda ward Mayals yn rhannol yn Abertawe ar hyn o bryd, ac mae cynigion i'w roi yn ôl yn Abertawe, gan dorri Cyngor Cymuned y Mwmbwls felly. Credwn fod hyn yn anfantais, nid ydym yn meddwl bod cefnogaeth eang yn lleol i newidiadau yn Abertawe ac fe'ch anogwn i'w derbyn, a nodwn y cynrychiolaethau gan Lindon Jones, Paxton Hood-Williams a Lyn Joyce yn y gwrandawriad yn Abertawe.




[00:32:45]

Felly, os symudwn ni i Ddyfed, y pedair etholaeth arfaethedig yng Ngheredigion, Sir Benfro, a Sir Gaerfyrddin. Nodwn fod y pedair plaid gymwys yn cefnogi'r cyfuniad hwn, a dyrannu dwy etholaeth i Sir Gaer..., Sir Gaerfyrddin a dwy i'r cyfuniad o Geredigion a Sir Benfro. A nodwn fod llawer o gefnogaeth ar gyfer etholaeth Ceredigion. Nid ydym yn nodi llawer o wrthwynebiad o'r wardiau sy'n cael eu cymryd i mewn o Sir Benfro. Mae'n ymddangos bod y prif wrthwynebiad yn ymwneud â maint yr etholaeth, ac yn amlwg, mae'n rhaid i chi gael etholaethau mawr yng Nghymru, mewn rhai ardaloedd. Felly rydych chi'n cadw Ceredigion yn gyfan, rwy'n credu bod hynny'n hanfodol, nid wyf yn meddwl bod unrhyw un yn awgrymu unrhyw beth arall, ac wedyn credwn eich bod chi, y Comisiwn, wedi ychwanegu'r wardiau cywir at Geredigion. Nodwn fod yna awgrym y dylai Maenclochog yn hytrach na Thyddewi ddod i mewn i'r etholaeth, ond nodwn, y tro diwethaf pan awgrymwyd bod Maenclochog yn cael ei gysylltu gyda Cheredigion, bod llawer o wrthwynebiadau. Credwn, yn yr un modd, y bydd gwrthwynebiadau i hyn. Rwy'n credu bod Mr Crabb wedi'i roi mewn cynrychiolaeth ysgrifenedig, ond rwy'n siŵr ei fod, y byddai'n gwrthwynebu hynny.

Nodwn fod cefnogaeth gyffredinol am i ardaloedd gael eu cyn..., eu hychwanegu at etholaeth Caerfyrddin. Rwy'n credu bod Llangynnwr yn gwbl amlwg o ran ychwanegu Llangynnwr at etholaeth Caerfyrddin. Cefnogir hynny'n gyffredinol gan y Cyngor Cymuned, gan bobl leol, gan Blaid Cymru, gan arweinydd Llafur Sir Gaerfyrddin, a gennym ninnau. Mae cefnogaeth eang i hynny. Gallech wneud hynny heb unrhyw newidiadau eraill. Nid yw'r rhifau, nid yw'r rhifau'n newid. Fodd bynnag, rwy'n credu bod rhaid i ni benderfynu p'un a ddylech wneud hynny neu beidio..., mwy na hynny. Mae cefnogaeth leol dros wneud mwy, a nodwn yn benodol, yn wardiau Llanismel..., os gallaf ynganu hyn yn gywir, Llangyndeyrn, mae cefnogaeth gref i'w cysylltiadau gyda Chaerfyrddin, a'r awgrym yw y byddai'r ddwy ward honno yn dod i mewn i Gaerfyrddin yn ogystal â Llangynnwr, ac mae hynny'n golygu'n amlwg bod rhaid i ddwy ward symud o Gaerfyrddin i Lanelli. Ac mae dau ddewis amgen sydd wedi'u cynnig o ran sut gellid gwneud hynny ac oherwydd eu bod yn mynd i Lanelli, credwn y dylech mae'n debyg dderbyn cynrychiolaeth cyngor tref Llanelli, sef bod wardiau Saron a Phenygroes yn symud. Felly, byddem yn hapus i gefnogi Llanismel a Llangyndeyrn yn mynd gyda Llangynnwr i mewn i Gaerfyrddin a wardiau Saron a Phenygroes, yn gyfatebol, yn symud i Lanelli, a byddem yn cefnogi hynny. Yn sicr, byddem yn gwrthod awgrym Plaid Cymru bod Sanclêr, eu tair ward, Sanclêr, Talacharn yn mynd i etholaeth Llanelli. Nid oes ganddynt unrhyw gysylltiadau o gwbl gyda Llanelli, ac yn wir, credwn y byddai gwrthwynebiadau cryf i'r tair ward hynny'n symud i Lanelli, ni chredwn fod ganddynt unrhyw gysylltiadau gyda Llanelli. Mae eu holl gysylltiadau â Chaerfyrddin a dylent aros yng Nghaerfyrddin, ond byddem yn cefnogi'r newid amgen hwnnw.

[00:36:37]

Felly, os symudwn ymlaen at Ogledd Cymru, i Wynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam, Sir y Fflint, ynghyd â Sir Drefaldwyn. Nodwn y gefnogaeth gyffredinol ar gyfer yr etholaeth, ar gyfer etholaeth Wrecsam, gan gynnwys Brymbo a Mwynglawdd. Fyddwn i ddim yn dweud dichter, ond pryder cyffredinol ynglŷn â'r cynnig bod y ddwy ward yn cael eu cysylltu gydag Alun a Glannau Dyfrdwy. Mae hyn yn gwneud cysylltiadau llywodraeth leol yn waeth, felly os down â Brymbo a



Mwynglawdd yn ôl i mewn i Wrecsam, nodom fod yr aelodau seneddol ar gyfer Wrecsam, Sarah Atherton a Simon Baines, a Paul Rogers, sef y cynghorydd ar gyfer Brymbo, wedi siarad am hyn yng ngwrandawriad cyhoeddus Wrecsam. Credwn fod cefnogaeth aruthrol i gynnwys Brymbo a Mwynglawdd yn Wrecsam. Mae'n amlwg bod gennych rywbeth i'w wneud wedyn yn gyfatebol i leihau nifer etholwyr etholaeth Wrecsam, a nodwn fod rhywfaint o gefnogaeth i gynnwys Pen-y-cae a Rhiwabon yn yr un etholaeth â Phant, Johnstown a Rhos, fel yr awgrymom gyda Sir Drefaldwyn, felly rydym, rydym wedi awgrymu hynny. Ac o ran Sir Drefaldwyn, os ychwanegwch y rheiny at Sir Drefaldwyn, mae'n golygu y gallwch mewn gwirionedd leihau maint etholaeth Sir Drefaldwyn, trwy dynnu dwy ward allan, dwy ward Sir Ddinbych, a'u rhoi nhw mewn etholaeth Dwyrain Clwyd. Nodwn fod rhywfaint o gefnogaeth i hynny, ond daw'r rhan fwyaf o'r gwrthwynebiadau o ochr Gogledd Cymru i Sir Drefaldwyn ac mae nifer fawr o bobl yn Sir Drefaldwyn eisiau i Sir Drefaldwyn aros yn gyfan, ond o ran yr arwynebedd a ychwanegir, mae rhywfaint o'r pryder yn ymwneud â maint yr etholaeth, felly mae ein cynigion ni mewn gwirionedd yn lleihau maint yr etholaeth. Nodwn hefyd fod rhywfaint o gefnogaeth i gynnwys Bagillt mewn etholaeth yng Nglannau Dyfrdwy. Credwn fod synnwyr yn hynny, felly rydych yn cymryd wardiau presennol Alun a Glannau Dyfrdwy ac yn ychwanegu mwy o Lannau Dyfrdwy yn hytrach na'r wardiau sy'n agos at Yr Wyddgrug, sydd â chysylltiadau â'r Wyddgrug fel y mae'r Comisiwn wedi cynnig, felly credwn fod cefnogaeth i hynny; ac rydym yn argymhell yn benodol y dystiolaeth gan James Davies, yr aelod seneddol dros Ddyffryn Clwyd, yng ngwrandawriad Wrecsam, ac rydym wedi nodi yn ein cynrychiolaeth y cynrychiolaethau eraill sy'n cefnogi hyn.

Felly, rydym yn nodi cryn bryder ynglŷn â chynnwys Bangor yn etholaeth Aberconwy; rwy'n meddwl mai hwn, mae'n debyg mai hwn sydd wedi denu'r nifer fwyaf o gynrychiolaethau yng Nghymru. Credwn fod rhywfaint o'r pryder mewn gwirionedd yn ymwneud â Bangor gydag Aberconwy, ac eto, roedd Bangor ac Aberconwy gyda'i gilydd mewn etholaeth hyd at 2010. Credwn hefyd mai rhywfaint o'r pryder yw'r ffaith fod Bangor yn cael ei rannu. Ac mae'n anffodus o ran cysylltiadau lleol i rannu, i rannu Bangor ac rydym yn deall hynny, ac rwy'n credu y gellir mynd i'r afael â hyn mewn ffordd gweddol syml heb unrhyw newidiadau yn rhywle arall, a hynny yw os yw ward Pentir.... Yn amlwg mae rhaniad Bangor yn digwydd oherwydd cynigir bod Pentir yn Nwyfor Meirionnydd yn hytrach nag yn Aberconwy, ac felly pe bai Pentir yn cael ei gynnwys a bod y niferoedd yn gywir, nid oes rhaid i chi wneud unrhyw beth arall. Mae Dwyfor Meirionnydd yn dal yn gywir, mae Ban..., Aberconwy yn dal yn gywir os rhowch ward Pentir i mewn. Ac mae hynny'n rhywbeth y credwn y gellir ei wneud. Rydym yn awgrymu hefyd fod Bangor yn cael ei gydnabod yn yr enw, fel eu bod yn sylweddoli eu bod yn rhan o'r etholaeth, felly Aberconwy a Bangor fyddai ein hawgrym ni ar gyfer enw'r etholaeth honno, a byddem yn hapus â hynny, a ward Pentir fyddai'r newid y byddem yn ei awgrymu i fynd i'r afael â'r holl gynrychiolaethau o'r ardal honno. Ac mae llawer yn, yn dod o Bentir ac yn nodi bod Pentir yn ward Bangor, ac mae wedi'i rhannu oddi wrth weddill Bangor.

Felly, yn ein dogfen derfynol, rydym wedi cymharu'r gwrthgynigion amrywiol o ran sut maent yn bodloni'r rheolau orau. Mae gennym dabl manwl ar wrthgynigion yr holl bleidiau gwleidyddol a hefyd nifer y gwrthgynigion unigol. Nid aethom drwy bob un ohonynt gan nad oedd rhai ohonynt yn bodloni'r rheolau, neu nid oeddem yn gallu eu deall yn llwyr, ond rydym wedi edrych ar nifer o'r gwrthgynigion ac wedi




dangos sut maent yn cysylltu â rheolau 5.1b a 5.1c, ac rydym wedi dangos beth, sut maen nhw o ran cysylltiadau llywodraeth leol a sut maen nhw o ran nifer yr etholwyr sy'n cael eu symud.

[00:41:48]

Nodwn yn benodol gymaint gwaeth yw Plaid Cymru a'r Blaid Werdd mewn perthynas â'r rheolau. Felly o ran rheol 5.1b, sef yr awdurdodau lleol, o ran un sedd awdurdod, dim ond cael un awdurdod o fewn, mewn un sedd, sy'n amlwg yn bwynt cryf o dan reol 5.1b, mae gan y Comisiwn 16 o'r enghreifftiau hynny, rydym ni'n cynyddu hynny i 18, a dim ond 12 sydd gan Blaid Cymru, a 10 gan y Blaid Werdd. Yn ogystal, mae gan y Blaid sedd pedwar awdurdod lleol, gwnaeth y Comisiwn ond gynnig tair sedd dau, tri awdurdod lleol; ond rydym wedi lleihau hynny i un, a chredwn fod a sedd pedwar awdurdod yn torri rheol 1b yn ddifrifol. Nodwn, yn Lloegr, bod ganddynt ddwy etholaeth â phedwar awdurdod lleol ar hyn o bryd. Mae'r ddwy, ac maent yn bwriadu bod un o'r rheiny yn mynd yn dri, dim ond tri awdurdod lleol ac mewn achos arall, yr achos arall, mae cynigion gerbron, nid gan y Comisiwn, ond mae cynigion gerbron i leihau'r etholaeth honno o bedwar i dri. Felly mae sedd pedwar awdurdod yn anarferol iawn, ac ni chredwn ei fod yn awgrym synhwyrol oni bai nad oes unrhyw gynnig amgen.

Hefyd, o ran awdurdodau lleol, gallwch edrych ar faint o etholaethau sydd ym mhob awdurdod lleol, a'r nifer leiaf yn amlwg yw'r gorau, y nifer leiaf, ac yn gyffredinol, os adiwch y cyfanswm ar gyfer Cymru gyfan, yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru, mae gan y Comisiwn 48, mae 45 gennym ni, mae 53 gan Blaid Cymru a 59 gan y Blaid Werdd. Felly eto, mae'r Blaid Werdd a Phlaid Cymru yn llawer gwaeth. Felly byddech wedi meddwl efallai eu bod wedi gwneud hyn am eu bod yn gwella'r sefyllfa o ran etholwyr sy'n cael eu symud. Felly, rydym wedi edrych ar nifer yr etholwyr sy'n cael eu cadw yng nghynllun y Comisiwn, ac mae'r Comisiwn yn cadw 69.8% o etholwyr yn eu hetholaeth bresennol, rydym ni'n cadw 70.3%, dim ond 63.5% y mae Plaid Cymru yn eu cadw, a'r Blaid Werdd yn cadw 59.6%. Felly byddem yn dadlau eu bod yn llawer gwaeth o dan y rheolau.

Felly i fynd yn ôl, rydym wedi edrych ar hyn i gyd mewn perthynas â'r rheolau, a dim ond i'ch atgoffa mai dyna sy'n bwysig, sef barnu'r holl gynigion ar sail y rheolau. Felly rydym yn cadw un etholaeth sydd eisoes yn cydymffurfio â rheol dau, heb ei newid, sef Bro Morgannwg. Rydym yn cefnogi pob un o'r chwe chynogor sydd wedi'u cynnwys yn gyfan gwbl o fewn etholaethau newydd. Rwy'n credu mai dau yn hytrach na chwech sydd gan Blaid Cymru. Mae ein cynigion ni yn gwella'r sefyllfa'n sylweddol o dan reol 5.1b, mae tri awdurdod lleol yn cynnwys un etholaeth yn llai, sef Caerffili, Rhondda Cynon Taf a Wrecsam, ac mae tair etholaeth yn cynnwys un awdurdod lleol yn llai, sef Alun a Glannau Dyfrdwy, Gogledd Caerdydd a Merthyr Tudful ac Aberdâr. Felly rydym yn well o dan reol 5.1b. O ran 5.1c, rydym yn symud 12,000 yn llai o etholwyr, mae dros 12,000 yn llai o etholwyr yn symud etholaeth. Rydym hefyd yn gwella'r sefyllfa o dan reol 5.1d. Rydym yn adfer nifer o gysylltiadau lleol, er enghraifft, rhwng Nest..., Nelson ac Ystrad Mynach, Dinas Powys a'r Barri, yng Nghaerfyrddin rhwng Aberdâr ac Abereb..., Aberafan, rhwng Brymbo a Mwynglawdd a Choedpoeth, a rhwng yr Wyddgrug a Mynydd Isa. Rydym hefyd yn adfer cysylltiadau os ydych chi'n derbyn ein, ein hawgrym ym Mangor, ym Mangor yn ogystal ag, rydym wedi sôn am Gaerfyrddin.



Felly, rydym yn awgrymu y dylech fynd gyda'n cynigion gwreiddiol, ond byddem yn gwneud rhai mân newidiadau pwysig. Yn bwysig iawn, credwn y dylai Brycheiniog a Sir Faesyfed gynnwys cyfeiriad at yr enw a ychwanegwyd at Frycheiniog a Sir Faesyfed i barchu'r traean o'r etholaeth a fydd yn dod o Gwm Tawe Uchaf. Credwn fod achos cryf dros newidiadau yng Nghaerfyrddin yn ychwanegol at ward Llangynnwr, byddem yn cymryd dwy ward i mewn ac yn rhoi dwy ward yn Llanelli, a chredwn fod achos cryf dros gynnwys ward Pentir gydag etholaeth Aberconwy a bod gan yr etholaeth honno'r enw Aberconwy a Bangor.

[00:46:36]


Felly dyna yw ein cynnig cyffredinol, mae ein dogfen wreiddiol gennym, ein dogfen rydym wedi'i chyflwyno i chi heddiw, y diwrnod olaf a'r gynrychiolaeth hon, a'r gynrychiolaeth yng Nghaerdydd. Rwy'n ddiolchgar iawn am yr holl waith y mae'r Comisiwn wedi'i wneud a'r Comisiynwyr Cynorthwyol; dymunaf yn dda i chi gyda'ch ystyriaethau, mae gennych swydd ddiddorol i wneud argymhellion i'r Comisiwn, ac edrychwn ymlaen maes o law, ym mis Hydref rwy'n credu y dywedodd yr Ysgrifennydd, at dderbyn y cynigion diwygiedig a gweld sut rydych wedi'u diwygio. Gobeithiwn y byddwch yn eu diwygio yn unol â'n hawgrymiadau ni, edrychwn ymlaen at ddarllen y cynigion diwygiedig hynny a gwneud sylwadau arnynt maes o law. Diolch yn fawr iawn i chi.

SP: Diolch yn fawr iawn i chi. A oes unrhyw gwestiynau o'r llawr? Pwyntiau o esboniad gan gydweithwyr?

Mae gen i gwpwl. Ynglŷn â Chaerffili a Chaerffili a Gorllewin Casnewydd, rydym wedi cael cynrychiolaethau cryf i'r perwyl, os rhowch i'r naill ochr am y tro, cyfansoddiad gwirioneddol etholaethau Caerffili, Islwyn a Gorllewin Casnewydd, rydym wedi cael cynrychiolaethau cryf i'r perwyl bod y cysylltiadau gyda Chaerdydd, nid Casnewydd, o ran patrymau teithio i'r gwaith, trafndiaeth ac ati. A allech chi esbonio, fe ddywedoch fod yna gyswllt rhwng Caerffili a Chasnewydd, mae hynny'n gywir, ond a allech chi...., a allech chi ddweud ychydig mwy am y sail resymegol ar gyfer eich cefnogaeth i'r cynigion cychwynnol yn seiliedig ar y gwrthwynebiadau rydym wedi'u derbyn?

RP: Gallaf, siŵr. Nid oes amheuaeth fod cysylltiadau â Chaerdydd gan Gaerffili, mae llawer o bobl.... o Gaerffili yn cysylltu, yn cysylltu â Chaerdydd, nid oes amheuaeth am hynny, ond nid wyf yn credu, bod y niferoedd yn gweithio gyda, gyda Chaerdydd ac yno...., mae'n rhaid i chi gysylltu Casnewydd gyda rhywle. Ac rwy'n credu bod cysylltiadau cryf, ac rwy'n edrych yn benodol ar y cysylltiadau trwy ward Bedwas i Drethomas, drwy'r ward honno at Gasnewydd, yn cysylltu i mewn i, i Gasnewydd, rwy'n credu bod hynny'n gryf iawn iawn. Mae'n gryf iawn, ac mae'n heol dda iawn, rwyf wedi gyrru arni, nifer o weithiau o Fedwas, Trethomas i mewn i Gasnewydd, felly mae cysylltiadau drwy hynny, ac yna mae holl gysylltiadau Casnewydd, gyda'i gilydd. Ry'n ni'n meddwl bod hynny'n well, mae'r cysylltiadau rhwng Argoed a..., a Phenmaen yn benodol yn, yn wael a dyma pam rydym, rydym yn credu hynny.

SP: Iawn. Roedd yr ail gwestiwn yn ymwneud â chanolbarth Cymru, fel Brycheiniog a Sir Faesyfed, a Sir Drefaldwyn. Rydym wedi derbyn, fel y dywedwch, lawer o gynrychiolaethau ynglŷn â sir hanesyddol Sir Drefaldwyn. Nid wyf yn gwbl glir pam




yr ystyrir ei bod yn fwy hanesyddol nag unrhyw le arall yng Nghymru, felly efallai y gallech ymhelaethu ar hynny, ac o ran Brycheiniog a Sir Faesyfed, rwy'n credu eich bod, wedi sôn am y..., y cynnig amgen o fynd tua'r gogledd fel petai, yn hytrach nag i'r de, ond rydych yn dweud yn y gynrychiolaeth y byddai hynny'n amhoblogaidd, ac y byddai'n cael effeithiau canlyniadol yng ngogledd Cymru. Mae'r cynrychiolaethau a dderbyniom yn dynodi ei fod yr un mor amhoblogaidd yng Nghwm Tawe a bod effeithiau canlyniadol yn ne Cymru, felly eto, efallai y gallech ymhelaethu ychydig mwy ynglŷn â'r sail resymegol i'ch cefnogaeth i'r cynigion cychwynnol.

[00:50:28]

RP: Ie, ie, siŵr. Nid oes unrhyw amheuaeth pa ffordd bynnag yr ewch chi, mae'n amhoblogaidd. Felly, os edrychwch ar Gwm Tawe, rwy'n credu, rwyf wedi dadlau'r achos pam rwy'n credu bod y cysylltiadau cryf gydag Ystradgynlais. Rwy'n credu bod pobl yn meddwl mai Brycheiniog a Sir Faesyfed ydyw ac yn anghofio mai Ystradgynlais ydyw hefyd, ac rwy'n credu mai dyna ble, rwy'n credu mai dyna ble mae'r cysylltiadau cryf. O ran Sir Drefaldwyn, rwy'n credu ei bod yn hanesyddol iawn; yn ddiau gall Mr Williams ddweud ychydig mwy wrthy ch am natur hanesyddol etholaeth Sir Drefaldwyn. Roedd gwrthwynebiadau eang iawn y tro diwethaf y gwnaeth y Comisiwn hynny. Mae'n torri cysylltiadau lleol hefyd; rwy'n credu fod hynny'n bwysig oherwydd yn amlwg, mae Sir Drefaldwyn wedi'i chysylltu ynghyd, felly, mae'n torri cysylltiadau lleol. Rwy'n credu y byddai'n rhaid i'r Drenwydd ddod i mewn i'r etholaeth ddeheuol, byddai'n rhaid iddi ddod i mewn i etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed, ond yn uniongyrchol i'r gogledd o'r Drenwydd, y mae'n amlwg bod eu cysylltiadau ganddynt i gyd â'r Drenwydd, ond ni fyddai wedi'i gynnwys. A hefyd, byddai ychydig yn fwy anodd i benderfynu wedyn sut fyddech chi'n fyddech chi'n trefnu'r etholaethau gogleddol oherwydd byddai'n rhaid rhoi mwy o ogledd Cymru yn Sir Drefaldwyn wedyn er mwyn addasu hynny, a byddai hynny'n achosi problemau ychwanegol yng Ngogledd Cymru. Cael mwy o ogledd Cymru ac mae rhai wedi awgrymu Meirionnydd, a sedd Meirionnydd a Sir Drefaldwyn, a fyddai'n fawr iawn, iawn yn wir, yn ymestyn mae'n siŵr o'r arfordir, arfordir Cymru, arfordir Cambria, yr holl ffordd at ffin Lloegr. Felly, credwn y byddai'n cael effeithiau niweidiol yn Sir Drefaldwyn ac effeithiau niweidiol yng ngogledd Cymru, oherwydd byddai'n rhaid ychwanego mwy o ogledd Cymru at Sir Drefaldwyn, a byddech yn torri cysylltiadau pellach wedyn; mae'n debyg y byddai'n rhaid i chi gael etholaeth hyd yn oed yn fwy, a byddai'n anodd iawn. Felly, credwn mai'r opsiwn lleiaf gwael, ac mae'n rhaid i chi fynd gyda'r opsiwn lleiaf gwael yn aml, yw bod Brycheiniog a Sir Faesyfed fel y'i cynigiwyd gan y..., y Comisiwn, er ein bod yn credu y dylai fod newid i'r enw.

SP: Iawn, diolch. Fy mhwynt olaf ac rwy'n..., mae hyn yn fwy o apêl am gymorth na phwynt o esboniad; nid wyf yn disgwyl cael ateb nawr, ond rydym wedi cael nifer o gynrychiolaethau ynglŷn ag enwi Gorllewin Abertawe a Gŵyr fel y sonioch, ond nid wyf wedi gweld unrhyw ffigurau sy'n cefnogi'r ddadl bod mwyafrif poblogaeth y Gŵyr yn dibynnu ar ble rydych chi'n pennu'r ffin ar ochr orllewinol Abertawe, gydag ardal fel Dynfant a Chilâ, os ydych chi'n deall beth rwy'n ei feddwl? Nawr, nid wyf yn gwybod a oes ffigurau o'r fath ar gael?

RP: Wel, y cyfan sydd angen i chi wneud yw adio nifer yr etholwyr sy'n dod o'r Gŵyr, etholaeth Gŵyr....



SP: Ie, ond ble.....?

RP: A nifer yr etholwyr sy'n dod o etholaeth Gorllewin Abertawe....

SP: Ie, ond mae'n dibynnu ar ble, ble, beth wnaethoch chi ei gynnwys yng Ngorllewin Abertawe neu Gŵyr, felly byddai rhai pobl yn dadlau bod Cilâ yn rhan o Orllewin Abertawe, bydd rhai pobl yn dadlau ei fod yn rhan o'r Gŵyr. Wyddoch chi, nid wyf yn dadlau ynglŷn â'r mater, ond rwy'n meddwl, mae'n bwynt dilys sydd wedi'i wneud yn y cynrychiolaethau, ond nid wyf wedi gweld unrhyw raniad o ran ystadegau.

RP: Yn y bôn, y ffordd rwyf wedi'i wneud yw, rwyf wedi cymryd nifer yr etholwyr yn etholaeth Gŵyr, felly etholwyr Gŵyr yw'r rheiny...

[00:53:59]

SP: Iawn.

RP: A nifer yr etholwyr yn etholaeth Gorllewin Abertawe, rwy'n ceisio.... rwy'n ceisio meddwl ym mha un mae Cilâ, y mae Cilâ ynddo. P'un a yw Cilâ yng Ngŵyr ar hyn o bryd neu a yw yng Ngorllewin Abertawe ar hyn o bryd, ond, rwy'n credu mai yng Ngorllewin Abertawe y mae ar hyn o bryd, o bosibl. Nid wyf.....

SP: Rwy'n credu mai yng Ngorllewin Abertawe y mae, ond mae wedi'i gymhlethu gan y ffaith fod yna gynigion eraill gerbron i fynd â rhai wardiau yn ardal Gorseinon/Llwchwr allan o'r Gŵyr...

RP: Ie, wel, byddem, byddem yn gwrthwynebu hynny oherwydd...

SP: Ocê, iawn.

RP: Ond, yn sylfaenol, nifer yr etholwyr o etholaeth bresennol y Gŵyr...


SP: Iawn, ocê...

RP: Rwy'n meddwl, o 'mhen, rwy'n meddwl mai rhyw 53% i ryw 47% sy'n dod o Abertawe...

SP: Mae hynny'n esboniad defnyddiol. Diolch yn fawr iawn.

Iawn, ein siaradwr nesaf yw'r Cynghorydd Pete Roberts. Chi biau'r llawr, syr.

PR: Diolch, Gomisiynwyr. Yn gyntaf, mae'n rhaid i mi ddechrau gydag ymddiheuriad. Fel cydweithiwr Roger, rwyf innau hefyd wedi cael Covid yn y cyfamser, ac mae hynny wedi mynd â rhyw bythefnos a hanner allan o'm dyddiadur, felly rwyf wedi cael llawer llai o amser i baratoi ar gyfer heddiw nag y byddwn fel arfer. Felly, yn hytrach na rhoi llawer o stwff ar sleidiau, mae yna lawer yr wyf yn mynd i'w lenwi i mewn ar lafar, ac a fydd yn mynd i mewn i'n cynrychiolaeth i chi, y byddwch yn ei gweld heno.




Yr hyn nad ydw i'n bwriadu ei wneud heddiw yw mynd drwy lawer o'r sylwadau a wneuthum yng ngwrandawriad cyntaf Caerdydd. Tynnais sylw yn y gwrandawriad hwnnw at nifer o ardaloedd lle'r oedd ein cynigion ni wedi'u hategu gan sylwadau eraill a oedd wedi dod i mewn, ac at ei gilydd, mae'r rheiny'n sefyll heddiw. Byddaf yn sôn am y rheiny ar lafar wrth i mi symud drwy'r cyflwyniad ar y diwedd, ond ni fydd unrhyw sleidiau ar eu cyfer.

[00:56:09]

Rwyf am ganolbwyntio ar ddau beth heddiw. Y cyntaf yw un addasiad sylweddol i'n cynigion o'r gwrandawriad rhanbarthol, ac mae ail hanner hwnnw yn gynnig amgen y gellid ei gynnig ar gyfer yr ateb i broblem ddatgysylltiedig Trowbridge. Mae hwn yn un o'r problemau mwy dyrys rwy'n credu, oherwydd bod wardiau mor fawr gan Gaerdydd, bod gwneud i rywbeth gydbwyso yn creu heriau yn rhywle arall. Felly mae ail ran hyn yn gynnig sy'n eistedd o fewn ein cynigion ehangach. Mae'n effeithio ar bump o'r etholaethau a gynigiwn, ac mae i raddau helaeth yn gynnig amgen y gallai'r Comisiwn ei ystyried, sy'n cadw ein cynigion ni o fewn strwythur sy'n dderbyniol i'r ddau, ond sydd hefyd yn mynd i'r afael ag ychydig o bryderon sydd wedi'u codi drwyddi draw. Mae'n cynnwys, un peth sydd o fewn y rheolau, ond nid wyf yn gwbl esmwyth ag ef, sef y rheswm pam rwy'n awgrymu ei fod yn mynd ochr yn ochr â'n cynigion, yn hytrach na'n wrthgynnig llwyr.

Felly, os soniaf am yr un cyntaf yr wyf yn mynd i edrych arno. Gan edrych ar etholaethau Aberafan a Phen-y-bont ar Ogwr fel y'u cynigiwn. Fe wnaethom ganolbwyntio'n drwm ar gadw etholaeth hanesyddol Pen-y-bont ar Ogwr yn ei chyfanrwydd, ac wrth wneud hynny, mae hynny'n creu heriau o ran creu'r niferoedd. Yn ein hateb gwreiddiol, fe wnaethom ymgorffori tair ward o ben uchaf y cwm sy'n cynnwys Maesteg, yn hwn, ac mae hynny'n creu'r her o dorri Maesteg i ffwrdd oddi wrth ran isaf y cwm. Codwyd hyn gan nifer o gyflwyniadau, ac yn fwyaf nodedig gan yr aelod seneddol ar gyfer Ogwr, yn ei sylwadau, a chan fod yn ystyriol o hynny ac edrych drwy'r sylwadau a wnaed gan aelodau'r cyhoedd, rydym wedi edrych ar gyfleoedd eraill yn yr ardal. Rydym yn ystyriol hefyd fod cynigion y Comisiwn yn rhannu Pen-y-bont ar Ogwr i ffwrdd oddi wrth, ei rannu yn ddau a chymryd ardal Porthcawl a'i hychwanegu at Aberafan, yn taro heriau a amlygwyd gennym mewn perthynas â rhannu cymunedau ac ymgorffori ffiniau, a oedd i bob pwrpas, a dweud y gwir, yn rhedeg drwy ystadau tai. Felly'r hyn rydym wedi edrych arno, ac wedi dod i gasgliad yn ei gylich, yw ein bod mewn gwirionedd yn meddwl bod ateb gwell yn yr ardal, trwy dderbyn nad oes modd cadw etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr gyda'i fformat presennol, a dim ond ychwanegu pethau ati, ond a dweud y gwir, er mwyn cadw'r cysylltiadau lleol, mae cynnwys Gorllewin Maesteg, Dwyrain Maesteg a Chaerau i mewn gyda Phen-y-bont ar Ogwr i greu cwm cyfan yn rhedeg i fyny o Ben-y-bont ar Ogwr i Faesteg, yn gyswllt..., yn gysylltiadau cymunedol a chlymau cymunedol cryfach o lawer. I gydbwyso hyn, mae angen i ni edrych ar wardiau Corneli a'r Pîl, sydd i'r gogledd o ardal Porthcawl, ac sydd wedi'u gwahanu eu hunain o gymunedau a phentrefi eraill, naill ai gan ddiwydiant..., neu gan gefn gwlad agored. Felly rydym yn awgrymu cyfnewid y ddwy ward hyn, sef y ddwy ward fwyaf deheuol mewn gwyrdd, gyda'r ddwy ward fwyaf gogleddol yn y porffor, rhwng yr etholaethau hynny fel y'u cynigiwn, sy'n rhoi mwy o gydlyniant cymunedol.


[01:00:35]



Os ydyn wedyn yn new..., yn troi at ardal Caerdydd, fel y soniais, sori.... Ie, sori, rwyf eisoes wedi ymdrin â hynny. Os symudwn i ardal Caerdydd ac ardal Rhondda, gwnaed sylwadau yn ein cynigion cychwynnol ynglŷn ag ymgorffori pedair ward o Rhondda Cynon Taf i Orllewin Caerdydd. Rydym wedi edrych ar hyn ac mae gennym rai awgrymiadau yno. Gwnaed sylwadau hefyd ynglŷn ag ardaloedd y Mynydd Bychan a Llanrhymni. Eto, os edrychwn ar Gaerdydd yn gyntaf, yr angen i gadw Rhymni mewn..., war..., etholaeth De Caerdydd, pe bai'n cael ei chydabod er mwyn cynnal y posibilrwydd o gerdded o un pen yr etholaeth i'r llall heb wlychu'ch traed adeg y penllanw. Yn ein cynigion gwreiddiol, roedd y Mynydd Bychan gennym, sef y ward goch. A oes pwyntydd gen i? Na, 'does gen i ddim pwyntydd. Y ward goch ydyw, i'r gogledd o ble mae'r pwyntydd yn eistedd. Fe wnaethom ymgorffori hynny i etholaeth Canol Caerdydd. Roedd aelodau lleol yn gwrthwynebu hyn, ac rydym yn tueddu cytuno gyda'r rheiny. Roeddem yn anesmwyth ynglŷn â chynnwys hon o fewn Canol Caerdydd yn ein cynigion gwreiddiol, ond fel y dywedais yn y lle cyntaf, mae ymdrin â Chaerdydd yn gêm rifau i raddau helaeth a heb rannu wardiau etholiadol, mae'n fater o roi darnau at ei gilydd fel y gallwch i raddau helaeth. Ein dewis ni fyddai cael y patrwm penodol hwn oherwydd mae'n golygu bod yr A48 yn ffin galed ar gyfer Canol Caerdydd, o ran ei gydffiniau â'r..., Mynydd Bychan a hefyd ymhellach i'r gorllewin. Felly rydym yn gwneud Gabalfa y rhan fwyaf gogleddol o hynny ac yn defnyddio'r A48 fel y ffin. I'r ochr ddwyreiniol o'r Mynydd Bychan mae'r brif reilffordd yn rhedeg o'r gogledd i'r de, ac eto, er i ni yn ein cynigion cychwynnol amlygu'r ffaith fod gan y llinell nifer o fannau croesi a gorsaf sy'n cael ei rhannu gan y Mynydd Bychan a chymunedau cyffiniol. Teimlwn fod y ffin hon yn gryfach o lawer ac yn un fwy naturiol i'w chadw.

Gan symud i mewn i Orllewin Caerdydd, yn ein cynigion cychwynnol roedd Pentyrch o fewn etholaeth Gogledd Caerdydd. Gyda'r newidiadau i'r ffin rydym yn eu cynnig ar gyfer y gorllewin, a byddaf yn siarad am hynny ar y sleid nesaf, mae bellach yn bosibl symud Pentyrch i mewn i Orllewin Caerdydd, gan ei gadw o fewn ei ethol.... etholaeth bresennol, ond gan hefyd ei gysylltu yn ôl gydag ardal Sain Ffagan yn awr, sydd, er nad yw'n ffactor perthnasol yn y cynigion hyn, yn ei gysylltu â'r ward y bydd yn rhan ohoni mewn gwirionedd pan fydd yr etholiadau llywodraeth leol wedi'u cwblhau ym mis Mai. Y gwrthgynnig i hynny yw fod Canol Caerdydd yn rhy fach yn awr, felly rydym yn cynnig dod â ward Llanrhymni i mewn i hon. Mae'n torri'r cyswllt i ardal Pontprennau, sy'n gryfder o'i gadw i'r gogledd, oherwydd mae honno'n ward gydffiniol hefyd o dan y cynigion newydd a dyma lle mae'r gwendid yn dod i mewn yn y cynnig hwn, a pham nad ydym, rydym yn ei gynnig ochr yn ochr â'n cyflwyniad ychwanegol oherwydd bod yr unig gyswllt ffisegol rhwng y ward hon a'r wardiau cydffiniol yng Nghanol Caerdydd, a dweud y gwir, ar hyd llwybr troed cyhoeddus a phont droed ar draws y Rhymni am mai'r ffiniau dwyreiniol/gorllewinol yw afon Rhymni ei hun, ac er mwyn cael mynediad i weddill yr etholaeth mewn car, mae angen i chi basio drwy ward Rhymni mewn gwirionedd. Yn wahanol i gynigion gwreiddiol y Comisiwn, nid oes angen i chi wlychu'ch traed i wneud hynny, ac nid oes angen i chi nofio ar draws yr afon am fod yna bont droed. Ond fel rwy'n dweud, mae'n fater llawer mwy o gadw ysbryd y rheolau yn hytrach na bodloni'r holl ddyheadau a allai fod gennych. Wedi dweud hynny, wrth gwrs, wrth i ni droi ein ffocws at ddulliau teithio llawer mwy cynaliadwy, mae'r ffaith y gallem fod yn ddyledus i'r car i brofi neu wrthbrofi parhad etholaeth yn rhywbeth y byddem yn dadlau yn ei gylch efallai.

[01:06:05]



transcribe this

Aberystwyth AM

I symud ymlaen, rydym yn edrych ar ardaloedd Rhondda a Phontypridd. Yn yr achos hwn, mae ychydig o waith cadw cydbwysedd, ond mae yna ddymuniaid hefyd a gefnogir gan nifer o gyflwyniadau, a byddwn yn amlygu hyn yn ein papur yn hytrach nag mewn cyflwyniad, sy'n cefnogi cynnwys rhai wardiau i'r de o Donysguboriau i mewn gyda Gorllewin Caerdydd..., ond nodwn, o ran wardiau Brynna a Llanharan, nid oes unrhyw gefnogaeth i hynny. Felly, mae ein cynlluniau ni yma yn lleihau ein cynlluniau gwreiddiol i raddau helaeth, i gynnwys tair ward i mewn gyda Gorllewin Caerdydd a'i leihau i'r ddau yn unig, sydd yr un peth â chynnig y Comisiwn o ran Pont-y-clun, ac yna'r ward gydffiniol lle mae'r pwyntydd ar hyn o bryd fel mae'n digwydd, yng Ngorllewin Caerdydd, ond gan ddychwelyd y wardiau o amgylch Brynna a Llanharan i etholaeth Ogwr. Fel gwrthgynnig i hynny, byddai hynny'n gwneud etholaeth Ogwr a Rhondda a gynigiwn yn rhy fawr, felly rydym yn awgrymu symud ward Gilfach Goch yn ôl i etholaeth Pontypridd. Mae'r rhain yn newidiadau eithaf sylweddol, ond yr hyn y maen nhw'n ei alluogi yw, cydgrynhoi Caerdydd fymryn i ôl-troed llai ac maent yn hwyluso'r newidiadau rydym wedi'u hamlygu mewn rhannau eraill o'r ardal hon.

Fe wnaeth Roger, o 'mlaen i, sôn am y materion o amgylch Nelson, am y materion yng Nghwm Cynon. Rydym ni'n mynd ychydig ymhellach na chynnig y Ceidwadwyr a dweud y gwir, gan ein bod yn ymgorffori'r tair ward ar ben uchaf Cwm Cynon mewn sedd Cynon a Merthyr, Cynon Uchaf a Merthyr, sy'n ei chydgrynhoi ychydig yn well nag yng nghynigion y Ceidwadwyr. Fel cynigion y Ceidwadwyr, rydym yn dod â ward Nelson ymlaen i sedd ardal Caerffili, gan gydgrynhoi hynny, ond rydym yn anghytuno mewn gwirionedd â'r blaid Geidwadol yn yr ardal honno ac yn cefnogi fersiwn wedi'i haddasu fymryn o'r cynigion a roddwyd gerbron gan Wayne David yn cysylltu wardiau Caerffili gyda'i gilydd a rhoi mwy o bwyslais ar y cysylltiadau rhwng Islwyn a Chasnewydd. Mae gan y ddwy ardal hynny gysylltiadau â Chasnewydd ar hyd ffyrdd, nid oes dadlau ynghylch hynny, mae'r ddwy yn ffyrdd A. Fodd bynnag, mae strwythur trefol yr ardal islaw Rhisga wedi'i integreiddio'n agosach o lawer â Chasnewydd. Mae tir agored rhwng yr olaf o'r tai, yr ystadau tai olaf yng Nghaerffili a ffin Casnewydd, ac mae'r cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus a'r cysylltiadau ardal teithio i'r gwaith yn gryfach o lawer rhwng Caerffili a Chaerdydd nag ydynt rhwng Caerffili a Chasnewydd. Felly nid yw ein cynnig ni wedi newid yn yr ardal honno o'n cynigion gwreiddiol, sy'n cadw craidd etholaeth Caerffili ac yn ehangu oddi yno yn hytrach nag ehangu o graidd etholaeth Islwyn.

Ymhellach i'r dwyrain, fel y soniwyd eisoes, rydym yn gefnogol i gynlluniau o amgylch Blaenau Gwent, Torfaen, Dwyrain Casnewydd a Sir Fynwy. Mae'r cysylltiad rhwng ffiniau cynghorau sir a ffiniau seneddol yn rhywbeth rydym yn ei gefnogi'n eithaf cryf ble bynnag y gallwn, ac mae cynigion y Comisiwn yn cryfhau newidiadau yn yr ardaloedd hynny. Lle'r rydym yn anghytuno'n eithaf cryf â'r cynigion gan y blaid Geidwadol, er yr ymddengys nawr bod gennym lawer o bethau'n gyffredin, yw'r barnau'n ymwneud ag Aberhonddu, Sir Faesyfed, Sir Drefaldwyn. A gyda'r, bod gan etholaeth hanesyddol Sir Drefaldwyn fwy o werth nag etholaeth hanesyddol Castell-nedd. Yn ein barn ni, am ei fod yn agor y posibiladau o wella cyfanrwydd ardal Castell-nedd yn ei chyd-destun ehangach, ac yn agor cyfleoedd eraill yn Abertawe, law yn llaw â'r cynrychiolaethau sydd wedi'u cyflwyno mewn niferoedd eithaf sylweddol o ardal Castell-nedd, credwn mai symud tua'r gogledd gan gadw etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed yn gyfan gwbl o fewn Powys, yw'r lleiaf o ddau ddrwg. Os symudwn tua'r gogledd, mae'r etholaeth yn cadw ei hun yn




gyfan gwbl o fewn ardal un cyngor sir, a chredaf fod hynny'n bwysig, gan gofio bod Sir Drefaldwyn eisoes yn cael ei chysylltu, yn y cynigion presennol gan y Comisiwn, gyda chynghorau ymhellach i'r gogledd. Ond mae hyn yn..., yn arwyddocaol pan edrychwn ar y de oherwydd nid yn unig y byddech yn rhychwantu'r ffin rhwng dau gyngor ar gyfer sedd Brycheiniog a Sir Faesyfed, byddech hefyd yn rhychwantu'r ffin rhwng dau ranbarth etholiadol y Senedd a dwy ardal awdurdod iechyd. Felly, yn syth, byddech yn rhoi llwyth gwaith ychwanegol sylweddol ac y gellid ei osgoi ar yr aelod seneddol a'i staff, a fyddai'n niweidiol i'w allu i gyflawni i'w etholwyr mewn gwirionedd.

[01:12:50]

Ond mae dau fater y byddem yn tynnu sylw atynt yn benodol, sy'n cryfhau'r achos dros edrych tua'r gogledd yn hytrach nag edrych tua'r de. Y cyntaf yw cysylltiadau addysg a diwylliannol. Y dyfyniad gan yr aelod seneddol ar gyfer Brycheiniog a Sir Faesyfed a ddetholwn yma yn ei gyflwyniad, yw bod cysylltiadau clir â'r wardiau newydd arfaethedig. Er enghraifft, mae llawer o blant yn ardal Pontsenni eisoes yn mynychu Ysgol Uwchradd Ystalyfera. Mae hyn yn gywir mewn gwirionedd, Ystalyfera yw'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, a'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, sy'n denu disgyblion o Ystradgynlais, ac yn denu disgyblion o Bontsenni, ond mae hefyd yn wir fod mwyafrif y disgyblion o Bontsenni, o nifer fach, yn mynychu Ysgol Uwchradd Aberhonddu ychydig filltiroedd i lawr y ffordd. Mae hefyd yn wir fod ochr y Clwb Ffermwyr Ifanc, y clwb rygbi a chriced, a pêl-droed â'u canolbwynt yn Sir Frycheiniog ac nid dros y ffin yn yr ardal honno i lawr at Gwm Tawe. Felly, mae yna'r cwestiwn, pa mor gryf yw cysylltiadau y tu allan i ardal Ystradgynlais, a byddwn i'n awgrymu, gan fod mynydd rhwng y ddwy etholaeth, bod y cysylltiadau hynny'n gymharol wan. Os edrychwch wedyn i'r gogledd o safbwynt addysg, mae gennych ddarlun gwahanol, ac rwy'n ofni bod angen i mi egluro'r map hwn ryw ychydig. Yr ardal felen i'r gogledd o'r llinell ddu yw'r..., cymunedau a wasanaethir gan Ysgol Uwchradd y Drenewydd, yr ardal mewn llwyd i'r chwith yw'r ardaloedd a wasanaethir gan Ysgol Uwchradd Llanidloes. Nawr, mae'n ymddangos ychydig yn anomalaid fod.... Ai f'un i yw hwnnw eto? [chwerthin] Ro'n i'n meddwl mod i wedi'i ddiffodd. [chwerthin] Bydd yn troi i ffwrdd ymhen pum munud, fe wnâi ei droi i ffwrdd bryd hynny.

Os edrychwn ar hwn, mae'n ymddangos bod anomaledd bod Ysgol Uwchradd y Drenewydd yn cwmpasu ardal mor fawr. Y realiti yw mai Ysgol Uwchradd y Drenewydd yw'r cyfuniad, rhyw ddeng mlynedd yn ôl, o Ysgol Uwchradd y Drenewydd ac Ysgol Uwchradd John Beddoes yn Llanandras. Felly gallwch weld, drwy symud y Drenewydd a nifer o ardaloedd eraill gyda hi, ymhellach i'r de, rydych mewn gwirionedd yn dod â'r ysgol uwchradd a'i holl ddisgyblion, ac eithrio'r rheiny o Dre..., o ardal Tregynon, Abermiwl, i mewn i un etholaeth seneddol, gydag un set o gynrychiolaeth. Yn yr un modd, mae Ysgol Uwchradd Llanidloes yn ymestyn i lawr i mewn i Bant-y-dŵr, Saint Harmon ac yn rhannu tref Rhaeadr yn 50/50 rhwng Llanidloes ac Ysgol Calon Cymru yn Llandrindod.

O ran yr ochr chwaraeon ieuencid o bethau, y pêl-droed yn yr ardal honno, Rhaeadr, Llandrindod, mae eu cystadlaethau pêl-droed yn y Drenewydd, Llanidloes. Maent yn ymestyn ymhellach i Aberriw a'r Trallwng, mae'n rhaid dweud, ond hefyd i lawer i Aberhonddu a'r Gelli Gandryll. Felly nid oes unrhyw




gysylltedd cymdeithasol rhwng yr ardaloedd i'r gogledd o ardal Bannau Brycheiniog, y Mynydd Du gyda gweddill Ystradgynlais i Ystalyfera.

[0117:00]

Mae'r agweddau diwylliannol i'w cael hefyd. Clywsom yn y cyflwyniad blaenorol fod ychwanegu'r wardiau trefol iawn hyn yn newid cyfansoddiad Ystradgynlais, a physuraf i ychwanegu ei fod yn anheddiad trefol mawr, ond mae'n cynnwys Ystradgynlais, Coelbren, Cae Hopcyn, Aber-craf, bob un ohonynt yn bentrefi unigol gyda hunaniaethau unigol, felly mae awgrymu ei fod yn fwy nag Aberhonddu, sy'n dref gydlynus, yn gywir eto, ond mae'r ffaith y gellir ei ddehongli mewn ffordd wahanol yn bryderus braidd. Os ydym ni'n sôn nawr am symud ardal drefol Cwm Tawe Uchaf o 10% o'r etholaeth i 30% o'r etholaeth, gan fod y wardiau hynny'n cynnwys trefi'r cymoedd uchaf yn bennaf, ychydig iawn o ardaloedd ffermio a geir, er eu bod yn ardaloedd eithaf mawr. Mae'r uwchdiroedd yno yn uwchdiroedd mawr. Rydych chi wir yn newid ffurfiant a chyfansoddiad yr ardal hon yn sylweddol, yn gymdeithasol ac yn economaidd. Felly mae pryder nawr bod 30% yn mynd yn ffocws blaenllaw iawn ar gyfer yr etholaeth, a bron mai'r demtasiwn fyddai, wel, os yw 30% o'r etholwyr o fewn milltir, o fewn pum milltir neu ddeg, fe wnawn ni sefydlu'r swyddfa yn y de yn hytrach nag yn y canol a'r gogledd.

A dyma ble daw yr her nesaf i mewn, oherwydd, os edrychwn nawr ar y drafnidiaeth gyhoeddus, oherwydd mae'r car, mae'r ddarpariaeth ceir yn un peth, ond un prif fater ar gyfer pandemig Covid yw bod diweithdra ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed wedi cynyddu'n eithaf sylweddol. Dyna un rheswm pam y cafodd ardal y cyngor un o'r ychwanegiadau mwyaf yn y Grant Cymorth Refeniw eleni. O ran trafniadaeth gyhoeddus, bydd y ddwy..., prif dref a fydd yn cael eu symud ar draws, sef Llanidloes a'r Drenewydd, mae gan y ddwy wasanaethau bws uniongyrchol i Landrindod. A dweud y gwir, mae gan y Drenewydd, am ei bod ar rwydwaith y Traws Cambria, wasanaeth uniongyrchol yr holl ffordd trwy Landrindod, Aberhonddu, Llanfair-ym-Muallt ac Aberhonddu, yr holl ffordd i lawr i Gaerdydd yn syth. Mewn cyferbyniad, mae Ystalyfera a Phontardawe a Brynaman yn cysylltu ag Ystradgynlais, ond mae eu gwasanaethau uniongyrchol yn dod i ben yno. Mae angen i chi newid yn Ystradgynlais i gael y bws i Aberhonddu, ac wedyn newid yn Aberhonddu i fynd ar y bws ymhellach i'r gogledd. Felly, trwy dynnu'r ardal hon i ffwrdd oddi wrth ei ffocws naturiol, sef Castell-nedd ac Abertawe, rydych chi'n symud y ddynmeg gryn dipyn er anfantais i'r unigolion hynny. A dyma ble'r ydym yn gwahaniaethu cryn dipyn oddi wrth sylwadau'r blaid Geidwadol, gan nad ydym ni o'r farn mai dyma'r opsiwn lleiaf gwael. Rydym eisoes yn gweld cysylltiadau cryf rhwng y Drenewydd ac Aberhonddu a Maesyfed o ran eu darpariaeth gwasanaethau, mae neuadd y dref ar gyfer yr ardal lle maent yn byw yn Landrindod yn etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed. Mae cysylltiadau bws, cysylltiadau cymdeithasol, maent i gyd yno, ond yn yr ardal hon mae'r cysylltiad â Chastell-nedd, gydag Abertawe. Os ydych chi'n mynd allan am noson, nid ydych chi'n gweld llawer o bobl o Bontardawe i fyny yn Aberhonddu, oni bai bod Theatr Brycheiniog yn cyflwyno rhywbeth arbennig iawn, ond rydych chi'n eu gweld nhw yng Nghastell-nedd, rydych chi'n eu gweld nhw yn Abertawe. Felly byddem yn awgrymu'n eithaf cryf fod yr ochr ddiwylliannol yn cael ei gwasanaethu'n gryf yno, mae'r weinyddiaeth wleidyddol yn yr ardal honno, yng Nghastell-nedd. Nid Aberhonddu, nid Ystradgynlais hyd yn oed, ac nid yw'r un awdurdod iechyd ychwaith yn gwasanaethu eu gofal iechyd â gweddill yr etholaeth rydych chi'n eu



rhoi gyda nhw. Felly, ar y sail honno a'r ffaith fod Sir Drefaldwyn eisoes yn cael ei huno ag ardaloedd cyngor eraill, byddem yn awgrymu'n gryf fod mynd â Sir Drefaldwyn i'r gogledd fel y gwnaeth y Comisiynwyr pan wnaeth y niferoedd eu gorfodi i wneud hynny mewn arolygon blaenorol na chyrhaeddodd y blwch pleidleisio mewn gwirionedd, yn achos cryfach na Sir Drefaldwyn a dweud y gwir. Nawr, rwy'n barod i dderbyn y ddadl bod Sir Drefaldwyn yn ardal hanesyddol. Rwy'n siŵr y clywch chi hynny eto heddiw, ond rydym ni'n edrych ar ffeithiau caled, rydym ni'n edrych ar y realiti a byddem yn dweud bod achos cryfach os ydych chi'n cadw un o'r ddwy etholaeth hanesyddol, mae Castell-nedd gyda'i gysylltiadau, o ran nodweddion ymarferol gweinyddu a bywyd yr unigolyn o ddydd i ddydd, yn un llawer cryfach i'w chadw na Sir Drefaldwyn.


Os edrychaf mewn man arall, fe godom faterion yn y sesiwn gyntaf ynglŷn â chynigion Cyngor Ceredigion ar gyfer cyfuniad math Dyffryn Teifi. Rydym wedi edrych ar y rhain yn fanylach yn y cyfamser, ac ni allwn ganfod achos i'w teilyngu ac eithrio'r pellter. Credwn fod uno ar draws dwy ffin cyngor yno pan nad oes unrhyw wardiau Sir Gaerfyrddin eisoes yn y cynnig yn faich ychwanegol ar yr aelodau seneddol a fyddai'n cael eu cynrychioli, ac am yr un rhesymau ag y cyfeiriais atynt mewn perthynas â Phowys, ni allwn eu cefnogi.

[01:25:50]

Rydym yn agnostig, er hynny, o safbwynt y newidiadau o amgylch Llanelli, a diolchaf i Roger am y gwaith y mae ef a'i blaid wedi'i wneud yn edrych yn fanylach ar hynny. Mae hon yn un ardal y byddaf yn ymddiheuro i'r Comisiynwyr yn ei chylch, oherwydd edrych ar hyn oedd y darn o waith a ddigwyddodd yn y..., yn ystod y cyfnod pan gefais bwl eithaf ysgafn o Covid, ond pwl a achosodd anghyfleustra, felly nid wyf wedi edrych arnynt ac nid yw'r blaid wedi edrych arnynt yn fanwl, felly rwy'n ddiolchgar am waith Roger ar ran y Blaid Geidwadol yn hynny o beth, a byddwn i, a'r blaid, yn parhau'n agnostig o safbwynt p'un a yw cynigion y Comisiwn yn well na'r..., na'r awgrymiadau a roddwyd gerbron, ond byddem yn eich annog i edrych arnynt.

Ymhellach i'r gogledd, nid yw ein cynigion wedi newid o hynny a rennais gyda chi yn y cyflwyniad cyntaf. Rhoesom sylw i fater Pentir yn y cynigion cyntaf a roddwyd gerbron gennym, a hefyd aethom i'r afael â mater a godwyd gan un neu ddau o bobl yn yr is-..., yn yr ardal o amgylch Llansannan, sy'n dod â dwy, dwy ward i mewn i etholaeth Gorllewin Clwyd sy'n llawer mwy cyson. Ymhellach i'r dwyrain, mae'r un materion y cyfeiriodd Roger atynt yn ei gyflwyniad yn ymwneud â chyfanrwydd Wrecsam yn rhan o'n cynigion ni, felly hefyd mater Rhosllannerchrugog, a mater Johnstown, sef cadw cyfanrwydd yr ardal honno yno, yn ein cynigion hefyd.

Rydym hefyd yn cynnwys nifer o drefi bach eraill yn ein hetholaeth Sir Drefaldwyn a De Clwyd, lle mae pobl leol wedi dynodi eu bod yn edrych mwy tuag at ardaloedd gwledig Corwen a Llangollen nag ydynt tuag at y diwyd..., y wardiau mwy diwydiannol y gwnaeth cynigion cychwynnol y Comisiwn Ffiniau eu rhoi ynddynt. Rwyf am ehangu ychydig mwy ar hynny, gan dynnu sylw'r Comisiwn at hynny yn y cynigion y byddwn yn eu cyflwyno nes ymlaen heddiw. Ond yn gyffredinol, mae ein cynigion heb eu newid, i raddau helaeth. Fel y blaid Geidwadol, rydym yn cydnabod yr heriau y mae'r Blaid Werdd a Phlaid Cymru wedi'u rhoi gerbron yn eu cynigion,



yn enwedig yn Ne Cymru, ac maent, maent yn edrych llawer iawn i mi fel ymgais i wneud rhywbeth gwahanol. Cynnig dewis amgen i'r Comisiwn, ond wrth wneud hynny, rwy'n credu eu bod yn methu'n eithaf sylweddol ar y sail sydd wedi'i rhoi gerbron fel y meini prawf y mae angen i'r Comisiwn weithio arnynt. Ac eto, diolchaf i Roger am ei ddadansoddiad manylach o'u cynigion a'u barn arwynebol i raddau helaeth; byddwn i'n cytuno'n llwyr â nhw, a dyna pam na wneuthum fwy o waith ar hynny. O ran y blaidd Lafur, nid oes gen i unrhyw feirniadaeth y naill ffordd na'r llall. Mae gennym ardaloedd lle'r ydym yn cytuno â nhw, mae gennym ardaloedd lle rydym yn gwahaniaethu, ac fe'i gadawaf iddyn nhw i roi eu cynigion gerbron, ac unrhyw newidiadau y dymunant eu gwneud, mewn ychydig funudau. Ond oni bai bod gennych unrhyw gwestiynau, dyna'r oll rwy'n dymuno rhannu gyda chi heddiw.

[01:27:52]


SP: Diolch yn fawr iawn. Unrhyw gwestiynau neu bwyntiau o esboniad o'r llawr? Nac oes. Mae gen i un, oni bai bod rhywbeth mwy gan fy nghydweithwyr i'w ychwanegu yn gyntaf? Nac oes.

Rwy'n credu eich bod wedi disgrifio'ch gweledigaeth o wardiau etholiadol yn ardal Caerdydd neu o fewn yr awdurdod lleol fel gêm o rifau, a gallaf gydymdeimlo â hynny, ond a wnaethoch chi roi unrhyw ystyriaeth i newidiadau mwy sylweddol yng Nghaerdydd efallai er mwyn negyddu'r angen i, i foltio cymunedau eraill at y brif ddinas? Rydym wedi cael nifer o gynrychiolaethau, er enghraifft, o Bont-y-clun, a'ch etholaeth Gorllewin Caerdydd chi yn arbennig; rwy'n gwybod eich bod wedi gwneud rhai diwygiadau, ond mae'n mynd yn eithaf pell y tu allan i derfynau'r ddinas. A wnaethoch chi, a wnaethoch chi ystyried aiddosbarthiad posibl o fewn Caerdydd ei hun?

PR: Fe wnes i edrych arno, ac rwy'n credu fy mod i, mae'n debyg, gyda'r ap roeddwn i'n ei ddefnyddio, rwy'n credu mod i wedi treulio rhyw ddeg awr dros y, yr adegau gwahanol amrywiol, treuliais dair awr echnos, yn edrych eto ar eich union gwestiwn. Y broblem gyda Chaerdydd yw fod gormod o wardiau yn cynnwys saith, wyth, naw, deg mil, ac er y gallwch gael rhywbeth sy'n gweithio gan mwyaf, yn y diwedd mae'n rhaid i chi ychwanegu rhywbeth o rywle. Ychwanegwyd Dinas Powys gan y Comisiwn, rydym wedi clywed yn eithaf manwl gan y blaidd Geidwadol a chynrychiolwyr lleol pam fu gymaint o wrthwynebiad i hynny. Yn wir, byddwn i'n dweud, o bosibl, bod mwy o wrthwynebiad na Phont-y-clun o ran eisiau aros o fewn ei ardal bresennol. A dweud y gwir, o ran Pont-y-clun, mae o leiaf un gynrychiolaeth yn dweud ei bod yn dda iawn ein gweld ni'n mynd i mewn gyda Chaerdydd gan fod gennym lawer mwy..., mwy yn gyson â'r ardal honno yng ngogledd Caerdydd nag sydd gennym â chwm Rhondda.

SP: lawn.

PR: Ond yr unig ffordd, y gallwn i ddod o hyd iddi, i gydgrynhoi Caerdydd o fewn ffiniau Caerdydd fyddai dechrau mynd i lawr i'r lefel dosbarth etholiadol unigol a thorri..., wardiau etholiadol i fyny o'r lefel hon. A chan mai posibilrwydd ydyw, er nad yw o angenrheidrwydd yn un gwych ym mhob agwedd, i wneud i Gaerdydd a Chymru gyfan weithio heb wneud hynny, bod yn ystyriol o'r sylwadau a wnaed yn yr arolwg



diwethaf, lle'r awgrymais raniad yn ardal Ponciau rhwng Caerdydd, rhwng Wrecsam a De Clwyd, o'ch cywerthyddion ar y pryd, pam wnaethoch chi rannu os oeddech yn gallu gwneud iddo weithio? Fe wnes i ganolbwyntio nid ar rannu ardaloedd bryd hynny, rwyf wedi siarad, wedi canolbwyntio ar gyflawni o fewn yr unedau cyfan.


SP: lawn, diolch yn fawr iawn i chi. Diolch, diolch eto. Ein siaradwr nesaf yw Mr Joe Lock.

JL: Bore da, sut mae? Fe enw i yw Joe Lock, rwy'n Ddirprwy Ysgrifennydd Cyffredinol Llafur Cymru ac rwy'n byw ar Ynys Môn; fyddwn i ddim yn poeni gormod am y sleidiau, nid oes rhyw lawer arnyn nhw, felly.... Mae fy nghydweithiwr, Tom, Tom Adams, yn ymuno â mi, ac mae ganddo fwy o feddwl technegol na mi, ac os oes unrhyw bwyntiau o esboniad, gallaf droi, fel y gwneuthum yng Nghaerdydd, at Tom.

Dylid darllen ein cynrychiolaeth bore 'ma ar y cyd â'r cyflwyniad ysgrifenedig a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol, sef cynrychiolaeth rhif 10049 a chyflwyniadau llafar y Blaid a wneuthum yng Nghaerdydd yn y gwrandawriad cyhoeddus. Mae'r Blaid Lafur wedi ystyried y cyflwyniadau a wnaed gan rai eraill yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, yn ogystal â'r cynrychiolaethau a wnaed yn y gwrandawriadau cyhoeddus..., yng Nghymru.

[01:32:37]

Mae safbwynt ffurfiol y blaid yn aros, fel yr amlinellwyd yn ein datganiad ein hunain, a byddem yn annog y Comisiwn i ystyried a derbyn y dadleuon a wnaed yno. Lle'r ydym yn cefnogi ein cynigion ein hunain, a lle'r ydym yn gwneud gwrthgynigion. Credwn eu bod yn gynigion sy'n cydbwysu'r meini prawf statudol ac yn creu patrwm cynaliadwy o etholaethau yng Nghymru a all ddarparu cynrychiolaeth effeithiol ar gyfer ei chymunedau. Rydym yn ymwybodol, fodd bynnag, bod pobl eraill wedi gwneud cynigion amgen, y credant hwythau eu bod yr un mor ddilys o ran y rheolau, a bod gorchwyl anodd gan y Comisiwn i asesu eu rhinweddau priodol, ac yna dewis rhyngddynt. Er ein bod, cyn belled ag y bo'n ymarferol, wedi ystyried bob un ohonynt, nid ydym yn cyfeirio atynt i gyd yn benodol yn y gynrychiolaeth hon. Mae llawer ohonynt yn cynnig patrymau etholaethau cwbl wahanol, ac er y gallant gynnwys agweddau y mae rhinweddau iddynt, ni fyddem yn eu cefnogi oherwydd eu cyd-destun ehangach. Yn hytrach, rydym wedi nodi beth y credwn ni yw'r materion allweddol, sydd wedi dod i'r amlwg yn y cynrychiolaethau, gwrthwynebiadau a gwrthgynigion, a safbwynt cyffredinol y Blaid Lafur y bydd y Comisiwn, yr hyderwn, yn gallu casglu barn y Blaid Lafur ohono ar gynigion gwahanol, hyd yn oed lle nad ydynt yn eu hamlinellu'n benodol. Bydd ein cynrychiolaeth, felly, yn crynhoi ein barnau ar y lluo o faterion sydd wedi'u codi, a'u cryfderau a'u gwendidau. Fe'u cyflwynir yng nghyd-destun ein dadleuon blaenorol ein hunain, a amlinellwyd gennym, ac sydd fel arall, oni ddatganwyd yn wahanol, yn aros yr un peth. Hyderwn y bydd hyn o ddefnydd i'r Comisiwn wrth asesu manteision ac anfanteision cynigion gwahanol, a pha lefel o gefnogaeth a gaiff pob un.



Rwyf am fynd drwy ardaloedd o Gymru y dymunwn wneud sylwadau arnynt, yn eu tro. Byddwn hefyd yn cyflwyno'n fanylach yn ein cyflwyniad ysgrifenedig y byddwn yn ei gyflwyno i'r Comisiwn cyn hanner nos heno.


Felly, y sleid gyntaf. Dyna ni. Rydym wedi..., rydym wedi amlinellu yn ein cynrychiolaethau blaenorol yr hyn y credwn yw'r ffactorau pennaf wrth bennu'r patrwm o'r modd y mae 31 o etholaethau wedi'u dosbarthu ar dir mawr Cymru, ac yn benodol, y seddi y mae'n rhaid i ni gyfuno rhannau ohonynt, rhannau o'r awdurdodau lleol mwy dwys eu poblogaeth yn ne Cymru a gogledd ddwyrain Cymru, ac ardaloedd prin eu poblogaeth yng nghanolbarth Cymru, a..., canolbarth Cymru a gorllewin Cymru, sy'n tueddu bod â niferoedd etholwyr isel iawn ar hyn o bryd. Rydym yn cytuno gyda chynigion y Comisiwn yn hyn o beth.

[01:35:16]

Efallai mai'r mater anoddaf o'r rhain yw ehangu Brycheiniog a Sir Faesyfed. Mae'n etholaeth wledig anferth, sy'n rhannu ffiniau gyda phob un o gymoedd de Cymru. Mae unrhyw etholaeth sy'n cynnwys rhan neu'r ddau o'r rhain yn debygol o fod yn drefniant lletchwith. Credwn mai'r fantais yng nghynnig cychwynol y Comisiwn, sef ychwanegu naw o wardiau Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, yw ei fod yn cysylltu'r ardaloedd hyn gydag un rhan o Frycheiniog a Sir Faesyfed sydd â chyswllt gyda'r cymunedau hynny yn y cymoedd. Mae Cwm Tawe Uchaf yn cysylltu'n ddi-dor ag Ystradgynlais ac Ys..., Ynyscedwyn gan yr A4067 ac mae gan Ystalyfera gysylltiadau agos ag Ystradgynlais. Mae'n resyn gennym fod y cynnig hwn yn torri'r cysylltiadau o fewn etholaeth Castell-nedd, ond nid ydym yn gallu nodi unrhyw wrthgynnig na fyddai'n creu mwy o darfu. Nodwn gynnig y Democratiaid Rhyddfrydol, er enghraifft, a fyddai'n creu sedd sy'n cyfuno rhan o Ben-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, a chredwn y byddai diffyg unrhyw gysylltiadau yn hynny.

Rydym hefyd yn cytuno gyda chynnig y Comisiwn i ehangu sedd Ceredigion drwy, unwaith eto, ychwanegu gogledd Sir Benfro. Trefniant a oedd ar waith rhwng 1983 a 1997. Credwn fod hyn yn amlwg yn rhesymegol, gan y byddai'r etholaeth gyfan o gymeriad tebyg gyda chymunedau arfordirol a gwledig yn bennaf. Rydym yn gwneud gwrthgynnig ar gyfer wardiau Tyddewi a Solfach i fod o fewn etholaeth Canol a De Sir Benfro, ac i, esgusodwch f'yinganiad Cymraeg, Maenclochog, ie, i fod o fewn sedd Cender..., Ceredigion Preseli. Ar ôl pwysu a mesur, byddem yn dadlau bod cysylltiadau Tyddewi yn gryfach gyda'r ardaloedd i'r de a chanolfan leol Hwlfordd nag ydynt gydag Abergwaun ac arfordir gogledd-orllewin Sir Benfro. Credwn fod y dadleuon mewn perthynas â Threletert yn llai eglur ac ni fyddai gennym unrhyw wrthwynebiad pe bai'r ward honno yn cael ei rhoi o fewn sedd Canol a De Sir Benfro, fel y cynigiwyd gan rai eraill yn y gwrandawliadau.

A ydw i wedi neidio sleid, ydw? Efallai bod sleid ar goll yma, ond.... Mae fy sleid nesaf i fod i gynnwys Myn..., Sir Fynwy a Thorfaen. Mae gan y ddau awdurdod, sef Sir Fynwy a Thorfaen, nifer etholwyr sydd, yn gyfleus, o fewn 5% i'r cwota etholiadol. Mae etholaeth bresennol Torfaen wedi'i chynnwys yn gyfan gwbl o fewn y fwrdeistref ac mae rhyw 59,182 o etholwyr, 88.2% o etholaeth bresennol Sir Fynwy, o fewn Sir Fynwy. Mae'r gweddill o fewn ac yn parhau yn y rhan o Dorfaen. Byddem yn dadlau bod yr achos felly bron yn amhosib ei ateb o dan y rheolau, dylai'r ddau awdurdod lleol a'r etholaethau..., dylai'r ddau..., fod yn




gydffiniol. Nid ydym yn cefnogi awgrym Plaid Cymru felly, y dylai tref Y Fenni gael ei chynnwys ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed, yn hytrach na Chwm Tawe Uchaf, a chanlyniad hynny yw y byddai etholaeth Torfaen yn cael ei rhannu gyda Chwmbrân mewn sedd gyda Threfynwy a Phont-y-pŵl gyda Blaenau Gwent.

Dyma sleid Casnewydd a Chaerffili. Gyda Sir Fynwy a Thorfaen yn cynnwys etholaethau cyfan, mae'n rhaid i etholaeth gyfan bresennol Dwyrain Casnewydd fod yn gyfan gwbl o fewn dinas a sir Casnewydd. Credwn fod y Comisiwn wedi dewis y chwe ward fwyaf addas o etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd er mwyn ei hehangu, gan gynnwys Betws, sydd â chysylltiadau hir, cryf â Malpas, ac wedi'i gwahanu oddi wrth weddill Gorllewin Casnewydd gan draffordd yr M4. Rydym yn derbyn fod yna, fod cryn ddadlau wedyn, ynghylch pa etholaeth i'w rhoi gyda gweddill y wardiau sydd o fewn Gorllewin Casnewydd ar hyn o bryd, ac mae yna ddadleuon y ddwy ffordd.

[01:40:00]

Credwn fod cynigion cychwynol y Comisiwn yn ateb ymarferol, wrth gydnabod mai ychydig o gysylltiadau a geir rhwng Casnewydd a Chaerffili a bod yr olaf yn troi tuag at Gaerdydd yn fwy o lawer. Byddai'r etholaeth arfaethedig, yn yr ystyr hwnnw, yn cynnwys dwy ran wahanol, nodedig, ond byddai cyfathrebiadau mewnol rhesymol oddi mewn iddi. Rydym yn derbyn hefyd fod yna gysylltiadau rhwng Tŷ-du a Rhisga yn nyffryn Sirhywi, a allai ei gwneud yn rhesymegol i greu etholaeth newydd yn yr ardal honno. Fodd bynnag, credwn y byddai'r gwrthgynnig sydd wedi'i wneud i'r perwyl hwnnw a chynnig y Democratiaid Rhyddfrydol, yn arwain at dorri cysylltiadau yn etholaeth Islwyn ac yn arbennig rhwng Coed-duon a Threcelyn. Tra bod y cynigion cychwynol ar gyfer Islwyn yn creu sedd gryno lle byddai 53,795, sef 95.2% o'r etholwyr yn yr etholaeth bresennol, yn aros ynddi. Nodwn y bu ychydig o wrthwynebiadau i etholaeth arfaethedig Blaenau Gwent a Rhymni, a chredwn mai dyma'r ffordd amlwg o greu sedd newydd yn yr ardal hon. Yn wir, os yw Torfaen yn mynd i fod yn un etholaeth gyfan, hi yw'r unig un i bob pwrpas. Nodwn y gallai ward Nelson..., gael ei chynnwys mewn etholaeth Islwyn a fyddai, a byddai hynny'n parchu ffiniau llywodraeth leol yn well â'i chysylltiadau gydag Ystradmynach, ond mae cynnig cyffredinol y Comisiwn ar gyfer Caerdydd yn mynnu bod hwnnw o fewn etholaeth Merthyr Tudful, Aberdâr, a byddaf yn sôn am hyn yn fanylach, yn fanylach nes ymlaen.

Nodwn fod y cynigion yn y rhan hon o Gymru yn deillio o ateb y Comisiwn i'r angen i ddiwygio etholaethau yng Nghaerdydd, lle mae gan ardal y ddinas, ynghyd â Phenarth, hawl i 3.74 o etholaethau yn unig. Felly er y gall y ddinas gadw pedair etholaeth, mae'n rhaid i ardaloedd ychwanegol o awdurdodau lleol eraill gael eu hychwanegu ati. Credwn fod cryn resymeg i benderfyniad y Comisiwn i ychwanegu ward Dinas Powys i etholaeth De Caerdydd a Phenarth, a wardiau Rhondda Cynon Taf yn Ffynnon Taf a Phont-y-clun i etholaeth Gogledd Caerdydd ac etholaeth Gorllewin Caerdydd yn y drefn honno. Credwn fod gan bob un ohonynt gysylltiadau cryf â Chaerdydd, ac mae'n yn gweithredu'n rhannol fel ardaloedd cymudo ar gyfer y ddinas. Credwn, er enghraifft, fod y ddadl na ddylai Dinas Powys gael ei chynnwys yn Ne Caerdydd a Phenarth oherwydd diffyg cysylltiadau â Phenarth, yn annilys. Gall fod yn yr etholaeth honno oherwydd bod ei chysylltiadau â Chaerdydd yn debyg i gysylltiadau Penarth, ac er ein bod yn cydnabod bod ganddi rai cysylltiadau â'r Barri yn amlwg, fel rhan o'r un awdurdod lleol, nid oes unrhyw broblem, yn ei




barn ni, iddi fod yn Ne Caerdydd a Phenarth sydd eisoes yn cynnwys llawer o Fro Morgannwg. Mantais y cynnig cychwynnol yw ei fod yn caniatáu i dair o'r pedair etholaeth i aros yn gwbl gyflawn tra bod dim ond 14,377 o etholwyr, sef 4.1% yn unig mewn dinas, yn newid seddi; credwn fod hynny'n ystadegyn hynod o ystyried graddfa'r newid sy'n angenrheidiol yng Nghymru fel cyfanrwydd. At hynny, yr unig newid i etholaeth Bro Morgannwg fyddai trosglwyddo Dinas Powys, gyda phob un etholwr yn y sedd ddiwygiedig yn rhan o'r etholaeth honno'n barod.

[01:43:56]

Byddai etholaeth Rhondda yn aros yn gyflawn hefyd ac yn gyfan gwbl o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Rydym yn derbyn bod gwrthwynebiadau dilys o fewn y rheolau i'r cynnig ar gyfer ward Nelson i fod, a wardiau amddifad Ffynnon Taf a Phont-y-clun yn gadael Rhondda Cynon Taf, i gael eu rhannu rhwng pum etholaeth wahanol. Fodd bynnag, credwn mai anomaleddau cymharol fach yw'r rhain, anomaleddau sy'n cael eu gorbwyso gan resymeg gyffredinol cynnig y Comisiwn ar gyfer yr wyth etholaeth yn y rhan hon o Gymru. Rydym yn derbyn hefyd y byddai ward Trowbridge i bob pwrpas yn rhan ddatgysylltiedig o fewn etholaeth De Caerdydd a Phenarth a bod..., yn ymarferol, ni fyddai unrhyw fynediad ffordd iddi o fewn yr etholaeth. Ni chredwn y byddai hyn yn broblem fawr gydag ardal drefol gymharol fach, ond rydym yn derbyn y gallai'r Comisiwn deimlo fod hyn yn wendid yn eu cynnig. Credwn eto bod anfantais y cynigion yn cael ei gorbwyso gan fanteision y cynigion cychwynnol fel y'u disgrifiwyd yn flaenorol. Hefyd, credwn fod gwrthgynnig y Ceidwadwyr sy'n ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn, yn cynnwys diffygion mawr. Yn hanfodol, byddai'n rhoi wardiau Llanrhyddni a Rhymni mewn etholaethau gwahanol a fyddai'n torri'r cysylltiadau cryf sydd rhyngddynt. Cynnig sydd hefyd yn nodwedd o wrthgynnig y Democratiaid Rhyddfrydol. Credwn fod yna newidiadau ôl-ddilydol sylweddol o drosglwyddo wardiau Gogledd Llandaf a Glan yr Afon o'r etholaethau y maent wedi preswyllo ynddynt am flynyddoedd lawer ac mae'r rhain ddadleuon cryf hefyd yn erbyn y cynnig.

Pe bai'r Comisiwn yn derbyn dadleuon y Ceidwadwyr mewn perthynas â Nelson, Ffynnon Taf, Pont-y-clun a Trowbridge, byddem ni, fodd bynnag, yn dadlau yn hytrach na mabwysiadu'u gwrthgynnig, y dylid ei ddiwygio i alluogi i wardiau Llanrhyddni a Rhymni i aros yn Ne Caerdydd a Phenarth, gan barchu'r cysylltiadau sydd rhyngddynt, gyda Trowbridge yn cael ei drosglwyddo i Ogledd Caerdydd. Nodwn fod gan Trowbridge gysylltiadau â Phontpennau a Phentref Llanelwyr sy'n rhai parhaus, ac mae datblygiad preswyl parhaus o fewn y rhan o Dde Llanelwyr, i'r dwyrain o'r A48. Byddai'r gwrthgynnig hwn yn mynnu hefyd bod ward Dinas Powys o fewn etholaeth De Caerdydd a Phenarth, fel y soniwyd yn gynharach, sy'n gynnig rhesymegol.

Nodwn fod cytundeb cyffredinol o fewn etholaethau presennol Aberafan, Pen-y-bont ar Ogwr ac Ogwr, bod rhaid iddynt gael eu had-drefnu i bob pwrpas yn ddwy sedd gyfan newydd, dwy sedd gyfan newydd. Mae'r Blaid Lafur yn cytuno gyda chynnig y Comisiwn ar gyfer y ddwy sedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac Aberafan Porthcawl, a chredwn ei bod yn rhesymegol i greu'r ddwy sedd gan ddefnyddio'r prif goridorau trafniadaeth, sydd yn amlwg yn adlewyrchu prif ddaearyddiaeth yr ardal. Byddem yn parchu cysylltiadau Maesteg, Cwm Llynfi a Chwm Garw yn, o fewn, gyda thref Pen-y-bont ar Ogwr, gyda Phort Talbot yn cael ei gysylltu â



Phorthcawl mewn etholaeth â ffocws ar yr M4 a chymunedau arfordirol Aber Afon Hafren. Rydym yn cydnabod y byddai hyn yn torri'r cysylltiadau rhwng Porthcawl a Phen-y-bont ar Ogwr, sydd wedi bod yn yr un etholaeth ers blynyddoedd lawer, ond teimlwn y byddai'r prif wrthgynnig a fyddai'n eu gosod yn yr un sedd, yn creu etholaeth anymarferol, yn cysylltu Aberafan a Maesteg, sy'n rhedeg yn erbyn prif gysylltiadau trafndiaeth, gyda'r ddwy ran wedi'u cysylltu'n unig gan fynediad ar hyd isffyrdd ac uwchdiroedd prin eu poblogaeth. [mae'n peswch] Esgusodwch fi.


Rydym yn derbyn fod cysylltiadau rhwng y ddwy ward Cefnglas a Llangewydd a Brynhyfryd â thref Pen-y-bont ar Ogwr lle mae'r Comisiwn o'r farn fod angen adfer y cysylltiadau hynny. Byddem yn cymeradwyo gwrthgynnig Chris Elmore a Steven Kinnock, ASau, a amlinellwyd yn eu cyflwyniadau yng ngwrandawiadau Caerdydd ac Abertawe yn y drefn honno, y byddai ward Cefn Cribau yn cael ei chynnwys yn etholaeth Aberafan Porthcawl yn lle hynny.

[01:48:45]

Castell-nedd ac Abertawe. Fel y nodwyd yn gynharach, mae'n ddrwg gennym am y newidiadau mawr i etholaeth Castell-nedd, ond credwn mai trosglwyddo Cwm Tawe uchaf i Frycheiniog a Sir Faesyfed yw'r ffordd orau sydd ar gael o gynyddu nifer etholwyr yr etholaeth honno. Mae hyn yn peri bod angen creu sedd sy'n cynnwys gweddill Castell-nedd ynghyd â thair ward Coedffranc yn Aberafan, gyda dwyrain Abertawe, gyda dwy sedd arall sy'n gyfan gwbl o fewn dinas Abertawe. Mae'r Blaid Lafur wedi gwneud gwrthgynnig ar gyfer y tair sedd hyn, ac rydym ni'n amlinellu ein dadleuon o'i blaid yn ein cynrychiolaethau llafar ac ysgrifenedig blaenorol, a gefnogwyd gan dystion eraill. Yn gyffredinol, mae cyfanswm o 136,514 o etholwyr yn aros yn eu prif etholaeth olynol, sy'n 90.8% o'r rheiny yng Ngŵyr, 69.6% o'r rheiny yng Nghastell-nedd a 69.9% o'r rheiny yng Ngorllewin Abertawe, o gymharu â 119,995 o dan y cynigion cychwynnol, ac o dan y rheiny Gorllewin Abertawe yw'r sedd sy'n cael ei diddymu yn dechnegol, a byddai etholaeth arfaethedig Gogledd a Chanol Abertawe yn cynnwys mwy o etholwyr o Ddwyrain Abertawe. Rydym yn derbyn bod y gwrthgynnig yn parhau rhan y Cyngor Cymuned y Mwmbwls rhwng y ddwy etholaeth hyn, ond trwy barchu ffiniau'r etholaeth bresennol, mae hyn yn dal, yn dal yn gyson o fewn y meini prawf statudol.

Yn Sir Gaerfyrddin, nodwn y gwrthgynnig sydd wedi'i wneud am i ward Llangynnwr fod o fewn etholaeth Caerfyrddin ac rydym yn derbyn bod ganddi gysylltiadau cryf â thref Caerfyrddin. Ni fyddai unrhyw wrthwynebiad gennym pe bai'r Comisiwn yn cynnig y diwygiad hwn i'w gynigion, i'w gynigion cychwynnol.

Gan symud ymlaen i ganolbarth a gogledd Cymru. Mae'r newid a gynigiodd y Comisiwn i sedd Brycheiniog a Sir Faesyfed yn galluogi i'r ffin o fewn Sir Drefaldwyn i aros heb newid, ac mae'r blaid Lafur yn cefnogi hynny. Byddem yn croesawu'n fawr y ffordd gynyddol yn gyffredinol y mae'r Comisiwn wedi gwneud newidiadau i seddi yng ngogledd-ddwyrain Cymru, wrth dderbyn bod rhaid i seddi presennol De Clwyd a Dyffryn Clwyd fod ymhlith y rheiny sy'n cael eu diddymu yn dechnegol. Credwn fod y Comisiwn, cynnig y Comisiwn yn cadw cyfanrwydd y prif gymunedau yn y seddi hynny, wrth leihau gymaint â phosibl nifer yr etholwyr sy'n symud seddi. Felly mae pob etholwr unigol yn seddi presennol Aberconwy, Alun a Glannau Dyfrdwy, Sir Drefaldwyn a Wrecsam yn aros yn yr un etholaeth, fel y mae 88.2% o'r




rheiny yn Delyn a 70.2% o'r rheiny yng Ngorllewin Clwyd. Credwn fod y rhain yn gryfderau sylweddol ac maent yn amlwg yn gyson â'r meini prawf statudol. Mae etholaeth arfaethedig Sir Drefaldwyn a Glyndŵr ac etholaeth Clwyd yn cynnwys etholwyr o ddwy etholaeth bresennol yn unig.

[01:52:09]

Nid ydym o'r farn fod yr anghyfleusterau cymharol fach o gynnwys dwy ward o Fwrdeistref Sirol Wrecsam yn etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy yn gorbwyso'r buddion hyn, yn enwedig os oes hanes o drefniant o'r fath yn ward Llai fel rhan o Alun a Glannau Dyfrdwy rhwng 1983 a 1997. Credwn hefyd y byddai gan wardiau Argoed, Leesward, Coed-llai a New Brighton gysylltiadau â Bwcle yn ogystal â'r Wyddgrug. Mewn cyferbyniad, mae tref Fflint a Bagillt wedi bod yn rhan o sedd etholaeth Delyn ers i'r sedd gael ei chreu ym 1983, ac mae Fflint, a Fflint yw'r dref fwyaf ynddi ar hyn o bryd. Nid ydym, felly, yn cefnogi gwrthgynnig y Ceidwadwyr sydd, er ei fod yn lleihau nifer yr etholaethau ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam o un, yn ei gyflawni trwy greu beth fyddai, byddem yn dadlau, yn sedd Delyn anghymesur ac afresymegol, nad yw'n cynnwys Fflint, ond sy'n ymestyn mor bell, mor bell i'r de â Chorwen a Llandrillo. Byddai'r cynnig yn lleihau nifer yr etholwyr yn, yn etholaeth Delyn sy'n weddill, yn y sedd honno sy'n weddill, a ailenwyd, i 42,068 o etholwyr, sydd yn 70.6, 70.9, 76, sori, pwynt naw % o'r etholwyr, a'r nifer sy'n weddill yng Nghlwyd, fel yr olynydd i Orllewin Clwyd, i 38,715, sydd ond yn 67%. Byddai etholaeth De Clwyd yn cael ei rhannu rhwng tair sedd newydd yn hytrach na dwy, gan dorri'r cysylltiadau rhwng Corwen a Llangollen. Rydym yn cefnogi'r cynnig yng ngogledd orllewin Cymru yn, gyda phob etholwyr yn Nwyfor Meirionnydd yn aros yn yr etholaeth honno. Nodwn, fodd bynnag, y bu gwrthwynebiadau i hepgor ward Pentir o Aberconwy, ac rydym yn derbyn fod gan hon gysylltiadau â dinas Bangor. Byddem, felly, yn cefnogi gwrthgynnig sy'n mynd i'r afael â hyn, o ystyried y gallai symud i ward arfaethedig Aberconwy heb unrhyw ganlyniadau ychwanegol canlyniadol.

Nid ydym yn dymuno gwneud unrhyw wrthwynebiadau i'r enwau a gynigiwyd gan y Comisiwn a byddem, yn gyffredinol, yn annog eu cadw mor gryno ag y bo modd. Er ei bod yn iawn y dylai'r Comisiwn addasu enwau etholaethau lle bu newid sylweddol, ni chredwn y dylai'r broses hon fod yn un o ddarparu disgrifiad o sedd newydd yn hytrach na theitl yn syml, sydd yn adnabod yr ardal gyffredinol yn hawdd, i drigolion ac i rai eraill y mae angen iddynt ei ddefnyddio at ba ddiben bynnag. Nodwn fod nifer o wrthgynigion wedi'u gwneud gan bobl eraill, ac yn y rhan fwyaf o achosion, ni welwn unrhyw fudd iddynt. Credwn fod sedd Sir Drefaldwyn a Glyndŵr yn enw mwy cryno o lawer na Sir Drefaldwyn a De Clwyd. Credwn fod Clwyd yn ddisgrifiad perffaith dderbyniol sy'n cydnabod ac, sy'n cydnabod y newidiadau sydd wedi'u gwneud i Orllewin Clwyd, tra bod y newid i'r enw Delyn i Ddwyrain Clwyd, yn ein barn ni, yn gwbl ddiangen os yw cynigion y Comisiwn i'w cadw. Byddem, at ei gilydd, yn dadlau dros Gŵyr a Gorllewin Abertawe yn hytrach na Gorllewin Abertawe a Gŵyr, a Chastell-nedd a Dwyrain Abertawe yn hytrach na Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd, gan gydnabod, ym mhob achos, mae dyma'r brif etholaeth gyfrannol.

Daw hynny â'n cyflwyniad i'r gwrandawriad hwn i ben. Hoffem ddiolch i'r Comisiwn eto am y cyfle i annerch y gwrandawriad hwn, y gwrandawriad bore 'ma, a'r ffordd



y maent wedi mynd ati i ymgysylltu â'r pleidiau gwleidyddol trwy gydol y broses hon. Edrychwn ymlaen at gyhoeddi'r cynigion diwygiedig yn hwyrach eleni.

SP: Diolch yn fawr iawn.

JL: Diolch.

SP: Unrhyw gwestiynau, pwyntiau o esboniad o'r llawr? Na. Fy nghydweithwyr?

Mae gen i un. Rydym wedi cael cynrychiolaeth ysgrifenedig a llafar gan aelodau seneddol Llafur a phleidiau Llafur rhai etholaethau, nad ydyn nhw'n dweud yr un peth.

JL: Ie.

[01:56:45]

SP: Rwy'n tybio bod hawl ganddynt i'w cynrychiolaethau personol eu hunain neu gynrychiolaethau sefydliadol, ond a oes unrhyw beth yr hoffech ei ychwanegu drwy, o ran egluro statws safbwynt swyddogol y blaid Lafur os gaf ei alw'n hynny, o'i gymharu â safbwynt eich cynrychiolwyr etholedig?

JL: Mae gan unigolion, aelodau unigol o'r blaid, hawl i wneud cynrychiolaethau, fel y gwelant yn dda. Bu proses fewnol o ymgynghori ac mae aelodau, aelodau seneddol a chynghorwyr, ac aelodau ledled Cymru, wedi gallu cyfrannu at hynny. Dyma safbwynt cytunedig y blaid Lafur, a dyma safbwynt swyddogol y blaid Lafur.

SP: Digon deg, diolch yn fawr iawn i chi. Unrhyw gwestiynau eraill?


JL: Diolch.

SP: Diolch.

Iawn, rwyf newydd gael gwybod nad yw ein siaradwr nesaf ar gael eto, felly rwy'n mynd i ddod â'r egwyl ymlaen hyd nes 11.15. Diolch yn fawr iawn.

Iawn, croeso 'nôl pawb. Er budd cydweithwyr sydd newydd ymuno â ni. Fel cyflwyniad, ni yw'r pedwar Comisiynydd, Comisiynwyr Cynorthwyol ddylwn i ddweud, sy'n cynnal y rhan hon o'r arolwg. I'r dde ohonof, eich chwith chi, Andrew Clemes, Gwenllian Lansdowne Davies, Steve Phillips ydw i, Alan Midhar ac Ysgrifennydd a Phrif Weithredwr y Comisiwn Ffiniau i Gymru, Shereen Williams. Mr Morgan Hughes, os gallech ddweud o ba ran, o ba ardal ydych chi'n dod, pwy, os unrhyw un, rydych chi'n ei gynrychioli, a chadwch at yr amser a ddyrannwyd; byddem yn ddiolchgar am hynny. Byddwn yn cael rhybudd, rhybudd pum munud gan fy nghydweithiwr yn y cefn, a chi biau'r llawr, syr.

AMH: Brilliant, lovely, diolch yn fawr. Wel, mae'n neis iawn gweld bod yma heddiw, diolch yn fawr iawn ichi am y gwahoddiad i fod yma. Fy enw i ydy Aled Morgan Hughes, dwi'n byw yn Aberystwyth, ond yn wreiddiol o Sir Drefaldwyn ag yma heddiw i gynrychioli Plaid Cymru ag ymateb ni. Fyddai'n rhoi y cyflwyniad yn y Saesneg, ond



wrth gwrs, mae croeso ichi rhoi unrhyw gwestiynau yn, yn y Gymraeg neu yn y Saesneg.

Bore da bawb, fy enw i yw Aled Morgan Hughes, rwy'n dod o Sir Drefaldwyn yn wreiddiol, ond rwyf bellach yn byw rhyw bum munud i lawr y ffordd yma yn Aberystwyth. Mae'n bleser cael bod yma ar ran Plaid Cymru, yn cyflwyno ein hargymhellion ar gyfer y cynigion a wnaed gan y Comisiwn Ffiniau


[01:59:24]

Felly, dechreuwn yn gyflym ar fy mocs sebon gwleidyddol. Ar y cychwyn, hoffai Plaid Cymru ailadrodd ein gwrthwynebiad i ostwng nifer yr aelodau yn senedd San Steffan sy'n cael eu hethol o Gymru. Credwn y dylai ailasesiad cyfatebol o'r setliad datganoli gyd-fynd â'r gostyngiad ac yn anffodus, nid ydym yn credu bod y diraddio hwn yn nifer yr ASau o Gymru o fudd i Gymru. Fodd bynnag, nid oes gan y Comisiwn Ffiniau, wrth gwrs, y pŵer yn y cyd-destun gwleidyddol i bennu unrhyw ran o hynny, ac mae'n rhaid iddo weithredu o fewn y canllawiau, a'r cyd-destun a gynigir gan ddeddfwriaeth. Ac yng ngoleuni hyn, hoffem eich cymeradwyo a'ch llongyfarch chi ar y gwaith a gynigiwyd yn y ddogfen gychwynnol. Credwn eu bod yn gynigion cydlynus iawn ac maent wedi'u gwneud o dan amodau heriol. Mae'r gostyngiad dramatig yn nifer yr aelodau yn torri'n naturiol ar draws llawer o gysylltiadau economaidd, cymdeithasol ac ieithyddol, a chredwn fod y Comisiwn, ar y cyfan, wedi gwneud gwaith da iawn yn mynd i'r afael â hyn, ac wedi llunio cynlluniau da i gychwyn arni.

Fodd bynnag, rydym yn dymuno gwneud rhai diwygiadau i gynigion cychwynnol y Comisiwn. Mae'r rhain yn ddiwygiadau mân iawn i nifer o etholaethau, fodd bynnag, mewn etholaethau eraill, mae'r newid yn fwy sylweddol. Trwy gydol y broses rydym wedi ceisio rhoi blaenoriaeth i ddwy brif agwedd. Yn bwysicaf oll, rhoi blaenoriaeth i bwysigrwydd cysylltiadau lleol. O, rwy'n credu bod...? O, iawn, ry'n ni nôl. Pwysigrwydd cysylltiadau lleol mewn ardaloedd sy'n cysylltu cymunedau â'i gilydd, felly, yn benodol, cysylltiadau economaidd, ieithyddol, cymdeithasol, hanesyddol; ac agwedd bwysig arall ry'n ni wedi ceisio mynd ar ei thrywydd yn ein hymateb yw sicrhau bod llais cefn gwlad a llais cymunedau gwledig yn cael ei barchu mewn unrhyw gynigion yn y dyfodol. Yr hyn ry'n ni'n ei ofni mewn rhai achosion, rydym yn gweld rhai etholaethau lle mae ardaloedd gwledig wedi'u taflu i'r un fasedd gydag ardaloedd mwy trefol, ac mae gennym bryderon y gallai'r llais gwledig nodedig gael ei foddi gan yr ardaloedd mwy poblog, ac yn amlwg wedyn, achosi rhywfaint o, rhywfaint o ddifreinio a, a diffyg llais cydlynus ar gyfer yr ardaloedd gwledig hynny wedyn. Hefyd, rydym wedi ceisio ein gorau i aros o fewn ardaloedd awdurdodau lleol a ffiniau o'r math hwnnw. Fodd bynnag, wrth gwrs, mae'r toriad yn gwneud hynny ychydig yn anoddach mewn llawer o achosion.

Felly, fe wnawn ni ddechrau drwy edrych ar ein cynigion ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd. Byddaf yn mynd drwy bob un o'r ardaloedd hyn yn unigol, ond gadewaf hynny am nawr, dim ond i chi [anhyglyw 02:02:41] am eiliad. Iawn, felly dechreuwn yn y de ddwyrain. Na, fe wnâi gael gwared ar y sleid honno a chadw at y map, gan fod hwnnw ychydig yn fwy diddorol i edrych arno.

[02:02:55]



Felly'r etholaeth gyntaf yw Sir Fynwy a Chwibrân, felly hwnnw yw un o'r newidiadau mwy sylweddol rydym yn ei gynnig, hwnnw ydyw, yn y lliw pinc yno. Mae etholaeth bresennol Sir Fynwy wedi bodoli er 1997 ac mae eisoes yn cynnwys pedair ward o ardal Cwibrân. Nawr, byddai ein cynigion ni yn uno'r ardal honno yng Nghwibrân yn y sedd unigol hon, gan gollu tiriogaethau ardal y Fenni yn y gogledd, wrth gwrs ac yna tuag i lawr, felly rhai, rhai wardiau yn ardal fwy Glan Hafren. Yn Nwyrain Casnewydd, mae ein hetholaeth arfaethedig yn uno hanner dwyreiniol Casnewydd a'i gefnwlod naturiol yn ardal Glan Hafren. Felly dyna'r ardal las yn y gwaelod. Yn amlwg, mae llawer o gysylltiadau cymdeithasol a chymunedol yn yr ardal honno, yn enwedig gyda thrafnidiaeth gyda choridor yr M4 yn rhedeg drwy'r sedd goridor honno hefyd. Rydym hefyd yn cynnig sedd Gorllewin Casnewydd; nawr, mae'r etholaeth hon yn uno gorllewin Casnewydd gydag ardal Rhisga, y credwn fod ganddi gysylltiadau cryfach â Chasnewydd na chymunedau mwy o'r cymoedd, sef Caerffili, sydd wedi'u hargymell yn gychwynnol gan y Comisiwn. Ac mae Caerffili, wrth gwrs, wedi troi mwy tuag at Forgannwg yn draddodiadol yn hytrach na'r ardal hon o Went. Rydym hefyd yn cynnig Blaenau Gwent i Bont-y-pŵl, felly ychydig iawn o newid yma. Mae hanes cyffredin gan y rhain, hanes o gysylltiadau diwylliannol agos sy'n uno'r math hyn o ardaloedd y cymoedd. Ac yna, yn olaf, mae gennym, rydym yn cynnig sedd Sirhywi sy'n cynnwys Coed-duon a'i gefnwlod sy'n edrych i'r gogledd tuag at Dredegar. Felly gadawaf hynny yno am eiliad. Byddai'n cymryd unrhyw gwestiynau neu sylwadau ar y diwedd, os yw hynny'n iawn?

Symudwn ymlaen yn gyflym yno, a dyna'r data, ar gyfer y..., fe adawaf hwnnw yno am eiliad. Ar gyfer y pum sedd yno yn y rhanbarth.

Felly symudwn ymlaen nawr at ganol Morgannwg. Nawr mae canol Morgannwg yn cynnwys tair ardal nodedig ond sy'n gysylltiedig yn ddaeryddol. Mae gennym, wrth gwrs, dinas Caerdydd ei hun, arfordir y de ac yna'r hen gymoedd glofaol ychydig mwy i'r gogledd yn y rhanbarth. Mae ein cynigion ni'n ceisio cadw'r ardaloedd hyn, yr ardaloedd nodedig hyn. Dechreuwn gydag etholaeth Rhondda. Trwy gyfuno cymoedd y Rhondda gyda Chwm Elái, gallwn gyrraedd y cwota ac mae hyn yn cyfateb â hen ardal Cyngor Bwrdeistref Rhondda, ynghyd â rhan Elái o hen Gyngor Bwrdeistref Taf-Elái. Mae cysylltiadau trafndiaeth cydgysylltiol da gan yr ardal hon, a chysylltiadau cymdeithasol a hanesyddol sy'n cysylltu'r ardal ynghyd. Rydym hefyd yn argymhell etholaeth Merthyr ac Aberdâr. Mae perthynas agos wedi bod gan y trefi hyn erioed, ac roeddent yn rhan o'r un etholaeth yn y 19^{eg} ganrif. Mae cysylltiadau trafndiaeth cryf gan y rhain yn lleol, ac fe'u gwasanaethir hefyd gan yr un ysbyty, ac maent yn rhannu cysylltiadau lleol eraill yn ogystal. Ym Mhontypridd, felly'r darn gwyrdd mwy yn y canol o'r... map. Ym Mhontypridd, rydym yn cynnig ail-uno Pontypridd gyda phen deheuol Cwm Cynon. Mae cysylltiadau agos gan y wardiau hyn â Phontypridd, ac yn ystod yr arolwg ffiniau diwethaf, roedd gwrthwynebiad cryf i symud nifer ohonynt i Gwm Cynon o Bontypridd. Rydym hefyd yn cynnig cynnwys wardiau Creigiau a Phentyrch, y ddwy ohonynt â chysylltiadau cryf ag ardal Pont-y-clun a Ffynnon Taf, ac roeddent yn rhan o etholaeth Pontypridd yn flaenorol.

Gan symud ymlaen at Gaerffili felly, rwyf wedi sôn am hyn eisoes. Byddem yn cyfuno ardal tref Caerffili gydag ardal Ystrad Mynach a'r wardiau o amgylch Nelson, gan ein bod yn credu bod hyn yn creu sedd well, a mwy rhesymegol na hynny a yngnigir yn gychwynnol yng nghynigion y Comisiwn Ffiniau.




[02:07:06]

Yng Nghaerdydd, rydym yn ceisio'n gorau i gadw Caerdydd gyda'i gilydd. Yn amlwg, y broblem gyda Chaerdydd yw bod maint y wardiau mor fawr, mae un symudiad ynddynt yn achosi llawer o anawsterau yn rhywle arall, felly rwy'n gwybod bod y Comisiwn wedi, wedi gwrthwynebu edrych ar rannu wardiau o bosibl, ac mewn egwyddor mae'n sicr yn rhywbeth na fyddem ni'n ei wrthwynebu, ond yn amlwg gall, gall fod yn rhywbeth y gallech ddymuno ei ystyried yn y dyfodol. Felly, ie, Caerdydd, Gorllewin Caerdydd, Canol a Dwyrain Caerdydd, felly mae gan bob un o'r rhain ffactorau economaidd agos, cysylltiadau trafndiaeth ac mae hunaniaethau eraill yn tueddu canolbwyntio ar lefel y ddinas gyfan. Yr hyn rydym wedi'i wneud hefyd yw, fel y gwelwch o'r map, rydym wedi mynd am sedd y Barri a De Caerdydd. Felly nid oes digon o etholwyr cofrestredig yn ninas Caerdydd i ffurfio pedair etholaeth, ac oherwydd y cysylltiadau agos sydd rhwng Caerdydd ac ardal y Barri yn rhedeg i lawr tua'r arfordir yna, Penarth a phob un ohonynt, rydym yn cynnig ymestyn hyn i lawr yna. Eto, mae cysylltiadau trafndiaeth a chysylltiadau hanesyddol ardal y dociau hefyd, yn cysylltu'r ardaloedd hynny.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae hon yn sedd sy'n cynnwys ardal uwchdir sir Pen-y-bont ar Ogwr, ynghyd â'r dref, ac yna ym Mhorthcawl a Bro Morgannwg, mae gan Fro Morgannwg lawer yn gyffredin â llawer o'r ardaloedd yn ne Pen-y-bont ar Ogwr, ac mae ganddi gysylltiadau trafndiaeth da ar y cyfan hefyd gyda'r sedd honno. Rwyf am fynd drwy'r data yn gyflym ar y rhain, arhoswch funud. Mae hynny ar gyfer Rhondda a Phontypridd, Aberdâr a Chaerffili, a'r rhain yw seddi Caerdydd, ardal Caerdydd.

Yng Ngorllewin Morgannwg, un o'r pethau ry'n ni'n ei gynnis yw uno Castell-nedd ac Aberafan. Byddai'r etholaeth arfaethedig hon yn uno tref Castell-nedd a Phort Talbot, a fyddai, gyda Chymoedd Nedd ac Afan, yn ffurfio cefnwledydd uniongyrchol y sedd. Felly, eto, cysylltiadau agos iawn o fewn yr awdurdod lleol ac yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol ac yn economaidd. Rydym hefyd yn cynnig..., seddi Lliw a Thawe. Nawr, byddai'n dod yn ôl at hyn yn fwy manwl pan fyddwn yn trafod cynigion Powys. Tra bod cynigion cychwynnol y Comisiwn yn rhannu cymoedd gorllewinol Morgannwg gyda rhai ohonynt yn dod yn rhan o Frycheiniog a Sir Faesyfed, a rhannau o Abertawe drefol yn ymuno â rhai eraill, byddai ein cynigion ni'n creu etholaeth o gymunedau tebyg yn ddiwylliannol ac yn economaidd, sydd â chysylltiadau da â'i gilydd, a'r M4. Mae'r rhan helaeth o'r etholaeth arfaethedig hon yn cynnwys hen Gyngor Dosbarth Dyffryn Lliw gyda rhai cymunedau cyfagos uniongyrchol i'r dwyrain wedi'u hychwanegu. Ein dadl ni yw bod cysylltiadau lleol cryfach sylweddol rhwng y cymunedau fel Gorseion, Pontarddulais a Phontardawe, nag yno rhwng y trefi hyn a naill ai Powys neu canol Abertawe. Yn yr ardal hon hefyd, mae gennym Ddwyrain Abertawe hefyd, nawr mae ein cynnig ni yn fwy cryno o lawer, a cheir etholaeth drefol yn unig yma, yn cwmpasu canol y ddinas a rhannau dwyreiniol o Abertawe. Yng Ngorllewin Abertawe a'r Gŵyr wedyn, mae'r rhain yn eithaf tebyg i'r hyn a gynigir gan gynigion cychwynnol y Comisiwn, mae ein cynigion ni'n uno rhan drefol orllewinol Abertawe gyda Phenrhyn Gŵyr yma, a bydd pawb yma'n amlwg yn ymwybodol o'r cysylltiadau economaidd a thwristiaidd, cysylltiadau twristiaeth, sy'n cysylltu'r ardaloedd hynny ynghyd. A dyna'r data.




Symudwn ymlaen at Ddyfed, sydd, gan ystyried ein bod yng Ngheredigion nawr, sydd bob amser yn ddiddorol. Nawr, ar y cyfan, dim ond mân ddiwygiadau i gynigion cychwynnol y Comisiwn ry'n ni'n eu cynnig. Ac mae'r rhain, unwait eto, wedi'u dylunio i adlewyrchu cysylltiadau lleol yn yr ardal yn well. Nawr gyda sedd Ceredigion Preseli a sedd Canol a De Sir Benfro, yn ein barn ni, o ran rhai o'r wardiau mwyaf deheuol yn etholaeth arfaethedig Ceredigion....

[02:11:42]

Felly rydym yn edrych i lawr at Benrhyn Dewi acw, mae ganddynt gysylltiadau lleol agosach gyda Hwlfordd ac ardaloedd Canol a De Sir Benfro nag sydd ganddynt ag ardal fwy gogleddol y Preseli o Sir Benfro. Mewn cyferbyniad, credwn fod ardal Maenclochog, sydd wedi'i chynnwys yn wardiau Canol a De Sir Benfro, yn y cynnig..., cynigion y Comisiwn, yn tueddu troi i raddau helaeth yn fwy tua'r gogledd at y Preseli. Wedi'r cyfan, mae wedi'i leoli ym mryniau'r Preseli ac yn tueddu troi mwy at ganolfannau trefol Aberteifi ac Abergwaun fel ei brif drefi. Yr hyn ry'n ni'n ei gynnig felly yw symud wardiau Treletert, Solfach a Thyddewi i mewn i sedd Canol a De Sir Benfro, ac yna symud Maenclochog i sedd arfaethedig Ceredigion Preseli. Mae'r newid hwn yn cael yr effaith hefyd o greu etholaeth fwy cryno yn ddaearyddol, a hefyd mae'n dda o ran torri amserau teithio. Felly, byddai ardal Ynyslas yng ngogledd Ceredigion i lawr i Solfach yn daith dros ddwy awr yn, yn argymhellion y Comisiwn Ffiniau, tra byddai ein hamserau teithio ni o Ynyslas i lawr i Glunderwen neu Llandysilio yn ardal fwyaf deheuol Maenclochog, yn rhyw awr, awr a hanner, awr a deugain munud, felly ry'n ni'n torri rhyw hanner awr yno mewn amserau teithio, sydd bob amser yn bwysig.

I edrych yn gyflym felly at Gaerfyrddin a Llanelli, rydym yn cynnig newidiadau bach yma eto i adlewyrchu cysylltiadau lleol yn well yn ardal Caerfyrddin. Yn hanfodol, rydym am sicrhau bod ardal Llangynnwr wedi'i chynnwys yn y sedd ogleddol neu yn sedd Caerfyrddin, oherwydd y cysylltiadau lleol cryf sy'n amlwg rhwng ardal Llangynnwr a thref Caerfyrddin. Byddem hefyd wedyn yn edrych i greu sedd Gogledd Caerfyrddin, De Caerfyrddin bron, gan edrych wedyn i ychwanegu ardaloedd Talacharn a Llansteffan at sedd ddeheuol Llanelli. Byddem hefyd yn cynnig symud Saron i mewn i sedd Caerfyrddin. Felly, fe wnâi roi'r data i chi yno. Felly dyna Ceredigion yna, yn cynnwys ardal Maenclochog wedyn a chanol a de Sir Benfro. Mae'n werth nodi hefyd, wrth gwrs, gyda Maenclochog, mae'r ffactor ieithyddol i'w ystyried hefyd, mae Maenclochog yn dal yn ardal lle siaredir Cymraeg yn bennaf, o gymharu â rhai o'r pwyntiau mwy deheuol, mwy o Sir Benfro, a gynigiwyd yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn Ffiniau. A dyna gyfansymiau Caerfyrddin, Dinefwr a Llanelli.

I symud ymlaen nawr at Ganolbarth Cymru. Felly, gyda Maldwyn a Glyndŵr, mae hyn yn eithaf tebyg yn ei hanfod i'r hyn y mae cynigion cychwynnol y Comisiwn yn ei gynnig. Rydym, fodd bynnag, yn edrych i symud Dyffryn Dyfi, sef yr ardal fwyaf ar wahân yn ddaearyddol o Sir Drefaldwyn, o'r sedd honno. A Chorwen hefyd, tynnu hwnnw o'r sedd, ac yn hytrach dod ag ardal fwy Rhosllannerchrugog i fyny yn Wrecsam, gan ddod â hyn i mewn i un etholaeth, yn hytrach na'i rannu yn ddwy sedd, fel y gwneir ar hyn o bryd gydag argymhellion y Comisiwn Ffiniau. Felly o ran sedd ogleddol Sir Drefaldwyn, dyna'r prif newid, ac eithrio colli Dyffryn Dyfi, y byddai ardal Sir Drefaldwyn yn aros fel, fel uned.




[02:15:34]

Nawr, i edrych ar dde Powys, teimlwn yn siŵr y bydd y Comisiwn yn derbyn llawer o gynrychiolaethau ynglŷn â'i gynigion cychwynnol i gynnwys Cwm Tawe gydag etholaethau Brycheiniog a Sir Faesyfed. Rydym yn cydnabod, wrth gwrs, fod yna ardaloedd tebyg tuag at dde Powys, gan edrych at Ystradgynlais ac ati, ac ati, ac wrth gwrs, rydym yn gwerthfawrogi'r anawsterau daearyddol heriol a'r effaith ganlyniadol a gaiff newid rhywle fel Powys ar y map arfaethedig ehangach. Fodd bynnag, yr hyn ry'n ni'n ei gynnig yn hytrach, yw uno de Powys ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed gydag ardal Y Fenni. Nawr, mae hwn yn welliant sylweddol yn ein barn ni o ran cysylltiadau lleol; a nawr y brif ardal ar gyfer ardal Y Fenni, y prif ysbyty, sori, ar gyfer ardal Y Fenni, ac Aberhonddu a Maesyfed, yw Neville Hall yn, yn Y Fenni, ac mae gan yr etholaeth gyfan gymeriad amaethyddol gwledig a theimlad economaidd tebyg hefyd. Ac yn sicr, teimlwn fod y cynnig hwn yn well na'r hyn sy'n cael ei gynnig, yn well na'r cynigion presennol, sy'n gweld ardaloedd Pontardawe ac ati yn cael eu cynnwys ym Mhowys. Ac eto, dyma rifau Maldwyn a Glyndŵr. Felly mae Maldwyn a Glyndŵr yn colli Dyffryn Dyfi ac yn cymryd ychydig mwy i mewn o ardal Wrecsam Rhosllannerchrugog, ac y Fenni ac Aberhonddu, wrth gwrs, yn cymryd ardal Trefynwy i mewn.

Nawr, fe awn ni i'r gogledd orllewin. Yn yr ardal hon, rydym yn cynnig trefniant sylweddol wahanol i'r cynigion cychwynnol. Yr hyn ry'n ni'n ei ddadlau yma yw fod llawer o'r trefi marchnad yn ardal gogledd Cymru, fel Dinbych, Rhuthun, Llanrwst, Corwen a'r Bala yn ffurfio rhwydwaith cydlynus o gymunedau, sydd â chysylltiadau lleol cryf â'i gilydd. Os edrychwn o ran yr economi, y gymdeithas, iaith, diwylliant a, a phopeth. Ac er ei bod, yn amlwg, yn ardal fawr yn ddaearyddol, credwn fod y cynnig hwn yn cynnig rhwydwaith mwy, ie, mwy cydlynus na hynny sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd, yn enwedig trwy wahanu ardal fwy gogleddol Conwy, felly ardal arfordirol Conwy, gwahanu honno oddi wrth yr ardaloedd mwy trefol. Rydym, rydym yn credu, er enghraifft, fod gan ardaloedd fel Llanrwst fwy yn gyffredin â'r Bala a Chorwen nag sydd ganddynt â rhai o'r trefi arfordirol. Felly, ac un peth arall yma yw, er ei fod yn edrych yn fawr ar bapur, mae'n eithaf cryno o ran amserau teithio. Felly, er enghraifft, pe baech yn teithio ar hyn o bryd o Aberdar..., Aberdyfi i Aberdaron yn sedd bresennol Dwyfor Meirionnydd, byddai hynny'n cymryd dros ddwy awr i chi, tra byddai ein cynigion ni o'r pwynt pellaf i'r de i'r pwynt mwyaf gogleddol yn cymryd rhyw awr a deugain munud, sy'n sylweddol yn llai, wrth gwrs. Nawr, mae'r ardaloedd hyn wedi'u cydblethu'n eithaf da hefyd gyda chysylltiadau trafniadaeth leol, felly yn amlwg mae'r pedwar gennym, yr A470, A5, A494 yn rhedeg drwy fan hyn ac eto, mae cysylltiadau amaethyddol yn parhau'n bwysig, ym mhob un o'r ardaloedd hyn. Yn hanesyddol, mae rhywfaint o gynsail o uno'r rhain fel bod Meirionnydd, er enghraifft, yn cynnwys ardal Edeirnion o amgylch Corwen, ac roedd y rhain yn rhan o'r un etholaeth hyd nes 1983, tra bod dyffryn Conwy a Meirionnydd yn yr un etholaeth o 1983 i 1997, sef sedd Nant Conwy, wrth gwrs. Felly, at yr ardaloedd hyn, hoffem gynnig hefyd cynnwys dyffryn Clwyd a, a dyffryn Dyfi yn ogystal, felly Dyffryn Dyfi a Machynlleth yn cysylltu i mewn gyda'r math hwnnw o rwydwaith o drefi marchnad bach yng Ngogledd Cymru.

Ym Menai wedyn, felly'r un ar y chwith. Mae hon yn etholaeth sy'n seiliedig ar yr hen sir, Sir Gaernarfon [Caernarfonshire], byddai'r etholaeth hon yn gydlynus yn ddaearyddol ac yn ddiwylliannol, yn cynnwys trefi Caernarfon a Bangor a



cefnwledydd naturiol. Mae'r ardal hefyd yn cynnwys ardal Dwyfor, Arfon a, a'r ardal arfordirol i'r dwyrain o Fangor, ac mae ganddi wedyn ffiniau naturiol afon Conwy a mynyddoedd y Carneddau ar hyd yr ochr ddwyreiniol. Felly mae hynny'n newid eithaf sylweddol i'r ardal honno i hynny a oedd yn cael ei gynnig gan y Comisiwn yn gychwynnol. Ac o ran y data, felly dyna'r data ar gyfer sedd Menai, ond yn amlwg rydym ni'n cynnig uno Bangor a Chaernarfon gyda'i gilydd ac yna sedd fwy.... mae cryn dipyn o ddŵr... sedd Meirionnydd, Gogledd Conwy a Dinbych, ac yn amlwg er gwaethaf, prinder y boblogaeth, credwn y byddai hyn yn darparu llais gwledig cryf i'r cymunedau hynny ac yn sicrhau bod y llais nodedig hwnnw'n parhau i gael ei glywed.

[02:21:18]

Symudwn ymlaen yn gyflym nawr at arfordir y gogledd. Ar arfordir y gogledd, felly, ar gyfer sedd Delyn, rydym yn cynnig tynnu'r rhan wledig o'r etholaeth arfaethedig yn ogystal â thref y Fflint, ac yn hytrach ychwanegu tref y Rhyl. Trwy hynny, mae hyn yn uno canolfannau twristiaeth cyfagos y Rhyl a Phrestatyn yn un sedd unigol. Yr hyn fydden ni'n ei wneud hefyd yw edrych i greu sedd Llandudno a Cholwyn. Nawr, mae hon yn etholaeth arfordirol, yn eithaf cryno gyda chysylltiadau lleol cryf iawn, o ran yr economi a hefyd wedyn gyda chysylltiadau trafnidiaeth cryf, gyda rheilffordd gogledd Cymru'n rhedeg ar hyd y ffordd, a hefyd cyswllt trafnidiaeth yr A55, wrth gwrs. Gyda hyn, mae sedd Llandudno a Cholwyn hefyd yn uno ardaloedd Llandrillo-yn-Rhos a Bae Colwyn, ac nid yw'r cynigion cychwynnol yn gwneud hyn, ac i ni, mae hynny'n gwneud synnwyr oherwydd y cysylltiadau agos iawn rhwng y ddwy ardal. Felly yn gyflym, dyna'r cyfansymiau ar gyfer y ddwy sedd.


A symudwn ymlaen yn olaf nawr at y gogledd ddwyrain. Felly eto, Wrecsam, mae hwn eto yn eithaf tebyg i gynigion cychwynnol y Comisiwn ar gyfer yr ardal. Fodd bynnag, fel y soniais yn flaenorol, mae hyn yn gweld rhywfaint o ardal Rhosllannerchrugog yn cael ei dynnu o'r sedd ac ychwanegu hwnnw, yn hytrach, gyda sedd Gogledd Powys Glyndŵr, ac wedyn mae'r ardal hon yn gweld, er mwyn gwneud yn iawn am hynny, ychwanegu nifer fach o wardiau o Wrecsam, ffin Sir y Fflint, a chredwn fod ganddynt ddigon o gysylltiadau agos a chysylltiadau cymdeithasol.

Symudwn ymlaen yn olaf wedyn at sedd Alun a Glannau Dyfrdwy. Mae hon eto yn eithaf tebyg i gynigion y Comisiwn, ond mae'n etholaeth ychydig yn fwy cryno a threfol, sy'n tynnu rhai o'r wardiau mwyaf gorllewinol ac yn ychwanegu tref y Fflint i mewn i'r ardal hon. Fe wnâi ddangos y data i chi, a dyna bopeth o'n safbwynt ni. Felly rwy'n gobeithio yr oedd hynny o ddiddordeb i chi. Diolch i chi eto, y Comisiwn am eich gwaith rhagorol yn mynd i'r afael â hyn, ac rwy'n hapus iawn i gymryd cwestiynau hefyd. Rwy'n credu yr awn ni'n ôl at y map o Gymru os yw hynny'n gwneud pethau'n haws.

SP: Diolch yn fawr iawn. Unrhyw gwestiynau neu bwyntiau o esboniad o'r llawr? Ie, syr.

RP: Diolch yn fawr iawn i chi. Roger Pratt o'r blaidd Geidwadol. Mae gen i ddau bwynt o esboniad. Yn gyntaf, rwy'n credu eich bod wedi dweud y byddech yn symud Saron...

AMH: Ie.



RP: O'r, i mewn i Gaerfyrddin.

AMH: Ie.

RP: Roeddwn i'n meddwl bod y Comisiwn Ffiniau wedi cynnig ei fod yng Nghaerfyrddin?

AMH: Ocê, byddai hynny, gadewch i fi wirio hynny eto. Gallaf wirio hynny nawr, efallai bod hwnnw'n anghywir gen i. Rhowch ddwy eiliad i mi, ai dyma...

SP: Y ddau hyn yn y fan yma.

[02:24:47]

AMH: Dyna ni, felly byddai hynny'n rhoi Saron, felly mae Saron yno yng Nghaerfyrddin, felly rydym ni'n cynnig, ie, iddo gael ei gynnwys yn sedd Caerfyrddin a Dinefwr.

RP: Ond nid yw hynny'n newid, nac ydy?

AMH: Ocê, mae'n flin gen i, rwy'n, na, ond efallai nad yw mewn gwirionedd, rwy'n [anhyglyw 02:25:07] i chi, efallai nad ydyw.

SP: Nid ydych chi'n cynnig ei symud i mewn i sedd Llanelli?

AMH: Na, nid wyf yn cynnig ei newid, nac ydw.

SP: Ocê, iawn.

RP: Rwy'n credu mai Gorslas ry'ch chi'n newid.


AMH: Ie, ie, Gorslas ie.

RP: Nid Saron. Iawn. Fy ail gwestiwn o esboniad yw, yn y crynodeb o'r cynigion yn y llyfryn gan y Comisiwn, mae'r Comisiwn yn dweud, o dan y cynnig, byddai 6 phrif gyngor wedi'u cynnwys yn gyfan gwbl o fewn etholaethau newydd, ac maent yn mynd ymlaen i'w rhestru. 'Sgwn i a allech chi ddweud wrthyf, o dan eich cynigion chi, a allech chi egluro faint fyddai wedi'u cynnwys yn gyfan gwbl o fewn etholaethau newydd?

AMH: Fe wnâi..., nid yw'r wybodaeth honno gen i o'm cof. Mae'n rhaid 'mod i..., rwy'n ymddiheuro, ond gallaf wneud ychydig o ymholiadau a dod yn ôl atoch chi ynglŷn â hynny, os yw hynny'n iawn. Ond rydym wedi gwneud ein gorau i gadw hynny mewn cof, yn sicr.

RP: Er y cofnod felly, y chwech yw Blaenau Gwent, Ceredigion, Ynys Môn, Merthyr Tudful, Sir Fynwy a Thorfaen. Rwy'n credu fy mod i'n iawn i ddweud mai'r unig ddau ry'ch chi'n eu cadw yw Ynys Môn a Cheredigion.

AMH: Ie rwy'n credu, rwy'n credu o edrych ar y map, byddai hynny, yn sicr yn edrych yn gywir, byddai.



RP: Diolch yn fawr iawn.

SP: Iawn. Ie syr.

TA: Helo, Tom Adams o'r blaid Lafur, fel y gwyddoch efallai, mae gennym gynnig tebyg iawn o ran Sir Benfro i'ch un chi. Rwy'n credu ein bod ni'n fwy amwys o ran cynnwys Treletert yn hynny. 'Sgwn i a allwch chi ymhelaethu ychydig ar b'un..., beth yw'r rhesymeg dros gynnwys Treletert yn eich cynnig chi, tra'n bod ni yn ei chadw lle cynigiwyd iddi fod ar hyn o bryd?

[02:26:44]

AMH: Ie, roedd yn, rwyf am fod yn onest, cael a chael oedd hi. Mae llawer o'r ardaloedd yn y de, yr ardal ddeheuol honno, rydym yn cydnabod bod yna gysylltiadau eithaf cryf â'i gilydd a, a gallent yn eithaf hawdd gael eu cydweddu â'i gilydd, a'u newid, a'u cyfnewid yno, felly, dyna sut wnaethon ni, roedd yn benderfyniad 50/50 ar ddiwedd y dydd a dyna sut wnaethom benderfynu ar hynny. Fel rwy'n dweud, rydym yn credu bod Maenclochog yn sicr yn ffitio'n well gyda, gydag ymdeimlad Ceredigion, a wyddoch chi, mewn cynlluniau yn y dyfodol, mewn egwyddor, gallem edrych eto, adolygu hynny eto, ond ie, fe gawsom ddadl ddiddorol ynglŷn â'r testun hwnnw.

SP: Iawn. Unrhyw gwestiynau eraill o'r llawr? Na. Fy nghydweithwyr? Gwenllian.

SW: Mae cwestiwn gan y gŵr bonheddig hwn.

SP: O mae'n ddrwg gen i, y gŵr bonheddig acw.

SW: Un eiliad, a gai basio'r meicroffon i chi.


Siaradwr 1: Ymddiheuriadau, gan i mi ddod i mewn rhan o'r ffordd drwy eich cyflwyniad, ond sut, sut ydych chi'n trefnu i gynnwys Talacharn, Sanclêr a Llansteffan, sydd yn amlwg ar draws yr aber yn rhanbarth Llanelli, oherwydd rwy'n credu bod hwnnw'n destun hynod ddadleuol yn lleol yn yr ardaloedd hynny.

AMH: Na, rwy'n gwerthfawrogi fod yna gwestiynau ynglŷn â'r rheiny, ac fel y dywedoch, yn amlwg gyda'r aber rhyngddynt, beth ry'n ni wedi'i benderfynu, yn ei hanfod yw, fel y soniais yn flaenorol, sedd gogledd Sir Gaerfyrddin, de Sir Gaerfyrddin, ac rydym yn gwerthfawrogi mater yr aber, ond dyna, yn ei hanfod, ry'n ni wedi mynd amdano yno. Ond, gan ystyried hynny wrth gwrs.

SP: Iawn, unrhyw gwestiynau pellach o'r llawr? Na, Gwenllian.

GL-D: Diolch yn fawr iawn. Dwi'n bwriadu, dwi'n bwriadu holi'r cwestiwn drwy'r Gymraeg. Mewn nifer o gyfarfodydd blaenorol, ac yn wir heddiw, 'dan ni wedi clywed tipyn am natur hanesyddol etholaeth Sir Drefaldwyn a'r angen i barchu ffiniau presennol yr etholaeth honno. Sut fyddech chi'n ymateb i hynny o ystyried eich bod wedi ychwanegu Dyffryn Dyfi i etholaeth amgen?

[02:28:53]



AMH: la, wel yn gyntaf oll, ga' i ddatgan diddordeb fel rhywun o Sir Drefaldwyn. [chwerthin] Ond, na, dwi, dwi'n cytuno bod y cynlluniau unwaith eto yn ddadleuol o ran hynny. Ond 'dan ni yn, yn gadarn yn ein, yn ein, yn ein cred ni wrth roi Dyffryn Dyfi mewn yn yr ardal fwy ogleddol honna o, o Meirionydd a, a Dinbych. Bod Machynlleth yn clymu mewn gyda y trefi yna, 'da chi'n gwybod, pan 'da chi'n teithio o Machynll..., o Fachynlleth i weddill Sir Drefaldwyn, yn, yn aml mae o'n teimlo i fod o 'chydig bach pellach a dydy'r cysylltiadau yn yr un fodd a fyse teithio o'r Foel i'r Trallwng. 'Da chi'n gwybod, dydy o ddim cweit mor naturiol teithio o'r Foel i Fachynlleth er enghraifft, mae'n teimlo 'chydig bach.... dydy'r cysylltiadau naturiol yna ddim yno, so 'da ni'n cydnabod, wrth gwrs, y ffactor hanesyddol o, o Sir Drefaldwyn fel uned, ond 'da ni o gred bod yna lot o gysylltiadau sy'n parhau i gysylltu Machynlleth gyda'r gogledd yna, 'da chi'n gwybod? 'Da ni'n meddwl hefyd am gysylltiadau trafniadaeth, yn mynd fyny ar hyd y Cambrian Coast wedyn wrth gwrs i, i, ar hyd, hyd y trefi ar yr arfordir a rheina'n gysylltiedig hefo Machynlleth. Ag y cyswllt ieithyddol hefyd, bod Machynlleth yn, bod y Gymraeg yn parhau. Be, be 'da ni hefyd yn, yn ad..., ymwybodol ohoni, bod y pwysicrwydd trin y tair sydd yno o Fachynlleth, Dyffryn Dyfi ac Abermair gyda'i gilydd fel un uned. Yn sicr, faswn ni byth yn meddwl am wahanu Machynlleth o'r ddwy yno, ond wrth roi y dair yna gyda'n, gyda'i gilydd, 'dan ni'n parhau gyda'n gorau wedyn i, i gadw yr uned yna o Sir Drefaldwyn gyda'i gilydd.

GL-D: Diolch.

SP: lawn.

AM: Dim ond i....

SP: Alan?

AM: Sori, pwynt bach yw hwn, dwi'n amau, ond fe ddefnyddioch chi dadl o ran de Powys bod Ysbyty Neuadd Nevill yn rhyw fath o gyfle i etholwyr, ac ati. Mae'r Faenor hefyd yn Llanfrechfa, sydd newydd gael ei greu. Ydych chi'n credu bod hynny'n ychwanegu pwys at eich dadl, o ystyried bod ysbyty mawr arall?


AMH: Ydw, dwi'n credu, ie ac, fel rydyn ni wedi'i weld yma, gyda chysylltiadau fel yna, wrth i ysbytai a phopeth ddod yn fwyfwy pwysig, y prif beth i ni oedd y ffaith, yn ein barn ni, na allai sedd De Powys a Chwm Tawe barhau, felly roedd rhaid i ni newid hynny rywsut ac i ni, gan edrych i'r dwyrain tuag at ardal y Fenni a'r cysylltiadau presennol yno.

AM: Ie.

AMH: Roedd yn bwysig bryd hynny ac rydym yn parhau i gredu hynny, ond rydym yn gwybod nad yw'n boblogaidd gyda llawer yn yr ardal, o bosibl. Ond rydym yn credu bod cynnwys y Fenni yn gwneud mwy o synnwyr na chynnwys Cwm Tawe, er enghraifft.

SP: lawn, diolch.

AMH: Diolch.



SP: Andrew?

AC: Ga'i ofyn i chi fynd â ni trwy etholaeth Lliwen Tawe rydych chi'n ei chynnig eto, oherwydd bod hynny, wel rwy'n credu....

AMH: Ydych chi ei heisiau'n fanwl neu, neu?

AC: Eich cynigion, mewn gwirionedd. Dim ond, y sail resymegol iddynt, fel petai. Mae'n weledigaeth wahanol o Abertawe i'r holl bleidiau eraill.

[02:32:08]

AMH: Ie, gadewch i mi ddod o hyd iddo, dyna fe, fe adawa i'r un mwy yno a dod o hyd iddo yn fy nodiadau. Ie, ie, felly roedd cynigion cychwynnol y Comisiwn yn rhannu'r cwm gorllewinol hwn o Forgannwg, gyda rhan ohono'n dod yn rhan o Frycheiniog a Maesyfed a rhannau eraill yn cael eu huno â rhannau o Abertawe. Byddai ein cynigion ni'n creu etholaeth o gymunedau sy'n debyg yn ddiwylliannol ac yn economaidd, gyda'r holl gysylltiadau cryf eraill yma ar hyd yr M4. Felly, mae hynny wedi bod yn bwysig. Ac rydym hefyd yn edrych yn ôl yn hanesyddol at Gyngor Dosbarth Dyffryn Lliw, gan ddefnyddio hynny fel cysail hefyd, gan ychwanegu rhai cymunedau cyfagos yn union i'r dwyrain. Ie, felly dyna'r brif gysail hanesyddol rydym wedi'i defnyddio, y cysylltiad o fewn hen sedd Cyngor Dosbarth Dyffryn Lliw...

AC: Beth yw ei phwynt mwyaf gogleddol? Dydw i ddim yn gallu darllen y print ar eich....

AMH: Rhowch ddwy eiliad i mi, fe ddof i o hyd iddo nawr. Ble, ym mha un? Byddai'n dod o dan Orllewin Morgannwg, oni fyddai? Fe ddof i o hyd iddo nawr.

AC: Mmm hmm. Rwy'n credu eich bod wedi'i galw'n Orllewin Morgannwg, ie.

AMH: Ie, dyma ni. Felly, Lliw a Thawe, dyna ni. Felly,

SP: Etholaeth Islwyn.

AMH: Felly, mae hynny'n mynd i fyny i'r... ac Ystalyfera yno, wrth gwrs.

SP: Ie, pen uchaf Cwm Dulais, pen uchaf Cwm Tawe.


AC: Iawn. Mae Ystradgynlais yn rhan..... Ym Mhowys.

MG: Byddai Ystradgynlais yn aros ym Mhowys, felly, ar hyn o bryd oherwydd, wel mae yn y sedd honno ar hyn o bryd, ond efallai gellid ystyried ei bod....

AC: Diolch yn fawr.

AMH: Ie.

SP: Iawn?



AC: Ie, diolch.

SP: Un cwestiwn yn unig gennyf i. Ar ddechrau eich cyflwyniad, fe grybwylloch bryderon ynglŷn â cholli llais gwledig. Ga'i ofyn i chi ymhelaethu ar hynny yn yr ystyr pa ffordd bynnag y bydd yr etholaethau'n cael eu trefnu yn y pen draw, rydym yn wynebu'r realiti o ddwysedd etholwyr mewn ardaloedd trefol a theneurwydd mewn ardaloedd gwledig, felly mae'n anochel i raddau, a hoffwn archwilio'r pryderon gwledig ychydig.

[02:34:18]

AMH: Iawn, ac rwy'n credu bod hynny'n fwyaf amlwg, er enghraifft, pan edrychwn ar sedd fawr Meirionnydd, a'i hymestyn. Felly, un o'r prif flaenoriaethau yno oedd cynnwys y trefi mwy gwledig gyda'i gilydd ac yna eithrio'r trefi mwy trefol ar yr arfordir. Ar arfordir gogledd Cymru. Nid ydym yn credu bod, credwn, wyddoch chi, fod gan leoedd fel Dinbych a Chorwen a'r Bala a'r rheiny i gyd fwy yn gyffredin trwy eu huno na thrwy eu cynnwys gyda Llandudno a'r rheiny i gyd i fyny yn y gogledd. Felly, yn y sedd honno'n benodol, roedd hynny'n bwysig. Ie, yn y sedd honno yn fwy nag unrhyw un arall, mewn gwirionedd.

SP: Ac mae sail resymegol debyg, er enghraifft, i'r hyn oeddech wedi'i disgrifio fel Gogledd a De Sir Gaerfyrddin. A fyddai'n deg nodweddu'r mater yn yr un ffordd yno, neu'n debyg?

AMH: Byddai, ar y cyfan, dwi'n credu. Fel y crybwyllais, roedd y prif newidiadau a wnaethom yn Sir Gaerfyrddin yn ymwneud ag ardal Llangynor hefyd a phwysigrwydd hynny.

SP: Iawn.

AMH: Edrych yn naturiol tuag at Gaerfyrddin, fel petai. Ond ar y cyfan, na, rwy'n credu ei fod, mae'n bwynt teg, ac rwy'n credu bod ein cyflwyniad yn cadw'r llais unigryw hwnnw'n eithaf cadarn.

SP: Diolch. Unrhyw gwestiynau eraill? Na. Diolch yn fawr, diolch yn fawr iawn.


AMH: Diolch yn fawr.

SP: Nawr, rwy'n credu bod ein dau siaradwr nesaf, y Meistri Loxdale a Hughes, yma. Nid ydych wedi'ch trefnu i siarad tan ar ôl cinio, ond rwy'n hapus i fwrw ymlaen os hoffech. Chi piau'r dewis yn llwyr.

PL: Hapus iawn, Mr Gadeirydd.

HH: Man a man.

SP: Ie, iawn. Wel, yn yr achos hwnnw, fe fwrwn ni ymlaen ac fe dorrwn ni'n ddiweddarach ar gyfer cinio. Felly, ein siaradwr nesaf yw Mr Patrick Loxdale. Os gallech esbonio pwy ydych pan ddewch chi i'r ddarllenfa, yr ardal o ble rydych yn dod a phwy, os o gwbl, rydych yn ei gynrychioli neu os ydych yn siarad yn bersonol. Byddai hynny'n ddefnyddiol i ni.



[02:36:25]

PL: Diolch yn fawr, Mr Gadeirydd, diolch am adael i mi siarad. Patrick Loxdale ydw i, ac rwy'n Gadeirydd Cymdeithas Ceidwadwyr Ceredigion. Mae fy nghyflwyniad yn fyr iawn, ond rwy'n ei wneud mewn gwirionedd i gefnogi, ar ran fy nghymdeithas, y cynigion ar gyfer ffiniau fel rydych wedi'u cyflwyno. Rwy'n credu'n gryf mewn democratiaeth ac yn credu y bu angen y newidiadau hyn i ffiniau ers tro, i fantoli'r llyfrau yng Nghymru, felly rwy'n credu bod y broses hon yn bwysig iawn ac mae'n ymddangos i mi fod y cynigion a luniwyd gan y Comisiwn Ffiniau yn gwneud synnwyr perffaith ac, mewn gwirionedd, rwy'n credu, er bod hynny cyn i mi symud yn ôl adref i'r etholaeth, eu bod yn dilyn ffiniau etholaethau blaenorol, sef cynnwys wardiau Sir Benfro. Felly, o safbwynt Cymdeithas Ceidwadwyr Ceredigion, rydym yn cefnogi'r cynigion y mae'r Comisiwn Ffiniau wedi'u gwneud yn gryf.

SP: Iawn. Diolch yn fawr. Unrhyw gwestiynau neu sylwadau? Ie, syr?

AMH: Onid ydych chi'n ofni y byddai ymestyn sedd Ceredigion, Gogledd Sir Benfro yr holl ffordd i lawr i Benrhyn Tyddewi, fel petai, a Solfach, y rheiny i gyd yn ei gwneud yn rhy hir yn ddaeryddol? A yw hynny'n bryder rydych wedi'i ystyried ac, er enghraifft, petaech chi'n ychwanegu ardaloedd o Sir Benfro fel Maenclochog, a allai'n rhwydd, fel petai, a allai gydweddu'n rhwydd â demograffeg y sedd honno. A fyddai hynny'n ddewis amgen y byddech yn ei gefnogi?

PL: Rwy'n credu os edrychwch chi ar deithio, mae'n fater o chwech o un a hanner dwsin o'r llall, felly, hynny yw, rwy'n credu pa ffordd bynnag y deuwch ato, i gael yr etholaeth gyda'r nifer iawn o bobl, fe ddaw'n etholaeth wledig fawr gyda materion teithio. Ond, nid wyf yn siŵr bod eich cynigion chi'n newid hynny mewn gwirionedd un ffordd neu'r llall. Hynny yw, rwy'n credu ei fod yn fater mawr pa ffordd bynnag y deawn ato, ond dyna'r ffordd y mae'r rhifau'n gweithio.


SP: Iawn. Unrhyw sylwadau eraill o'r llawr.

PR: Pete Rowlands, Democrataid Rhyddfrydol. Rydych yn crybwyll hen etholaeth Ceredigion a Gogledd Penfro, nad oedd yn mynd mor bell â Thyddewi mewn gwirionedd, mae'r cyngor sir wedi awgrymu eu bod yn symud llawer mwy i'r ffin honno ond gan ychwanegu rhai o'r trefi marchnad ar ochr arall yr afon o amgylch Llanbedr Pont Steffan. A allech chi esbonio pam yr ydych yn anghytuno â'r cynnig hwnnw a rhoi llais ychwanegol o'r gymuned leol ynglŷn â pham y gallai fod yn dderbyniol neu beidio?

PL: Rwy'n credu eich bod chi'n ymyrryd wedyn ag un o etholaethau sefydledig Caerfyrddin, ac nid wyf yn siŵr bod unrhyw beth i'w ennill trwy wneud hynny.

SP: Iawn, diolch am hynny. Unrhyw gwestiynau neu sylwadau gan gydweithwyr? Na.

Ga'i fod yn hollol glir ynglŷn ag un pwynt. Rwy'n credu fy mod yn iawn i ddweud bod y Blaid Geidwadol, yn genedlaethol, yn cefnogi'r cynnig i drosglwyddo ward Maenclochog i Geredigion a'r addasiad i wneud iawn y ffordd arall. Ai dyna safbwynt eich cymdeithas chi hefyd?



PL: Ie.

SP: Iawn.

PL: Sori, arhoswch eiliad. Maenclochog, na nid yw honno ynddi, on'd yw?

RP: Maenclochog, rydym yn cefnogi cynigion y Comisiwn y dylai fod yn sedd canol a de Sir Benfro.

[02:39:53]

SP: O, roeddwn yn meddwl fy mod wedi gweld rhywbeth a awgrymodd eich bod yn cefnogi ei throsglwyddo i Geredigion. Na? Efallai 'mod i'n anghywir ynglŷn â hynny, felly. Na, sori.

RP: Na, dyna beth mae'r Blaid Lafur a Phlaid Cymru yn ei wneud, ond nid ydym ni a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn gwneud hynny.

SP: Iawn.

PL: Ie, felly, byddem ni'n cefnogi'r map fel y mae ar dudalen 50.

SP: Iawn, gan adael Maenclochog yng nghanol a de Sir Benfro?

PL: Ie, rwy'n credu petaem ni'n cynnwys Maenclochog, yna byddai'r etholaeth yn rhy fawr, oni fyddai?

SP: Ie.

PL: Oherwydd rydym dros y niferoedd ychydig bach, ond o fewn, o fewn yr hyn a ganiateir....

SP: Ie, dyna pam y crybwyllais yr addasiadau i wneud iawn y ffordd arall. Efallai 'mod i wedi camddeall, roeddwn i wedi meddwl, wel, rwyf wedi camddeall, yn amlwg. Iawn.

PL: Na, mae ein safbwynt yr un fath, yn lleol ac yn genedlaethol.

SP: Iawn.


PL: Rwy'n deall, i gadarnhau.

SP: Iawn, mae hynny'n ddefnyddiol. Unrhyw sylwadau neu gwestiynau eraill. Iawn, diolch yn fawr.

PL: Diolch yn fawr, Mr Gadeirydd.

SP: Mr Hughes.

HH: Wel, diolch yn fawr a diolch Mr Gadeirydd am fy ngwahodd i siarad heddiw. Hoffwn gyfyngu fy sylwadau i Sir Gaerfyrddin yn bennaf, oherwydd dyna sir fy mebyd a'r




hyn sydd flaenaf yn fy meddwl. Yn fy marn i, mae'r cynigion hyn yn rhannu'n bethau da, sef y cynigion y mae'r Comisiwn wedi'u llunio, rwy'n credu eu bod yn wych i Gaerfyrddin ac i gynrychiolaeth wledig a'r cymunedau lleol, yn bethau drwg, sy'n rhyfedd iawn i mi, cynigion yn dod o Geredigion ac, yn anffodus, yn bethau hyll, sef cynigion Plaid Cymru, a allai ymddangos yn graff ar yr wyneb, ond petaech chi'n edrych ar yr hyn maen nhw'n ei wneud ar lawr gwlad yng Nghaerfyrddin, maen nhw'n drychinebus i gynrychiolaeth pobl, fel y soniaf amdano mewn munud.

[02:41:48]

Felly, gadewch i ni ddechrau gyda'r pethau da. Rwy'n credu bod y Comisiwn wedi llunio cynigion gwyb, gan gynhyrchu set o ffiniau credadwy a rhesymegol. Rwyf wedi siarad â llawer o bobl leol ac maen nhw'n teimlo bod y trefniant newydd hwn yn well, mewn gwirionedd, na threfniant presennol Gorllewin Caerfyrddin, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, ac rwy'n credu y dylid canmol y Comisiwn am hynny. O ran y ffordd y mae'n gweithredu yn unig, o ran y ffordd y mae'r rhwydwaith ffyrdd yn gweithio, o ran y cyfleusterau cymunedol fel yr ysbyty cyffredinol yng Nglangwili. O ran yr effaith ar y seddau cymdogol, hyd y gwelaf i, mae hefyd, mae'n ysgogi llawer o frwdfrydedd gan y bobl leol rwyf wedi siarad â nhw yn yr ardaloedd hynny. Ac fe allwch weld hyn yn yr ymatebion gan y cyhoedd, oherwydd rwyf wedi mynd trwy'r ymatebion yn y cyfrolau amrywiol ac mae cryn gefnogaeth i'r hyn y mae'r Comisiwn wedi'i wneud, felly mae'n allweddol i'r gamp fawr ac yn well na'r gwaith a wnaed yn flaenorol yn yr etholaethau hyn. Nawr, mae dau beth wedi dod i'r amlwg, yr hoffwn sôn amdanynt. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, er enghraifft, wedi codi mater Llangynor, sy'n anghyson yn sicr oherwydd ei bod yn etholaeth Llanelli ac nid yw wir yn effeithio ar y niferoedd yn gyffredinol, oherwydd bod Llangynor ym mhen deheuol tref Caerfyrddin mewn gwirionedd. Ac fel rydych wedi clywed, rwy'n siŵr, mae'n cynnwys y Swyddfa Bost, yr orsaf drenau ac, yn amlwg, yr Ysgol Gyfun Gymraeg hollbwysig ym Mro Myrddin. Ac felly, wyddoch chi, mae'r rhain yn nodweddion annatod o dref Caerfyrddin, felly byddai'n rhyfedd iawn petai Llangynor, fel ward, yn yr etholaeth gymdogol. Y peth arall diddorol a ddarllenais yn y cynigion oedd cynnig Cyngor Tref Llanelli, i gyfnewid wardiau, oherwydd eu bod yn teimlo bod cysylltiad agosach rhwng Llanelli a wardiau fel Saron a Phenygroes, sy'n drefol eu cymeriad, mae ganddynt ddatblygiad trefol parhaus, llawer o waith adeiladu newydd, ac mae ganddynt hanes diwydiannol hefyd, yn wahanol i Langordae, sydd yn etholaeth Llanelli ar hyn o bryd. Maen nhw'n cynnig cyfnewid yn eu cyflwyniad, nad yw'n effeithio gormod ar y niferoedd unwaith eto, felly credaf y gallai hynny fod yn welliant synhwyrol, o bosibl. Ond, a dweud y gwir, rwy'n credu bod y Comisiwn wedi gwneud gwaith gwyb.

[02:43:58]

Nawr, o ran y pethau drwg, mae'r llanast sydd wedi dod yn ôl o Geredigion yn rhyfeddol i feddwl rhywun a anwyd ac a fagwyd yn Sir Gaerfyrddin. Oherwydd Cwm Tawe a Dyffryn Teifi, dyma'r torbwyntiau naturiol, rhaniadau naturiol ein hardal, a does dim byd casach yn Sir Gaerfyrddin na'r hen Ddyfed. A'r cyfan y mae hyn yn ei wneud yw codi bwganod y bydd Dyfed yn cael ei gwthio ar bobl. Nawr, pan oeddwn i yn yr ysgol, roedd anghytgord diwylliannol cryf rhwng Ceredigion lle, wyddoch chi, roedd Ceredigion yn cael ei hystyried yn fwy fel yr Alban, wyddoch chi, y hwnt i Ddyffryn Teifi a oedd fel Wal Hadrian, ac mae gennych chi'r cyfeiriad at Gardis a bod y darn arian 50 ceiniog wedi cael ei greu fel y gallech ei gael allan o law Cardi



gyda sbaner. Wyddoch chi [chwerthin], dyna'r math o wahaniaeth diwylliannol sydd rhwng y ddwy sir. Nawr, efallai na fyddai hynny'n amlwg i rywun sydd â thaenlen Excel, ond mae'n sicr yn amlwg i'r bobl yn lleol. Petaech chi'n siarad â phobl yn [anghlywadwy 02:45:01], maen nhw wedi'u siomi'n llwyr â'r syniad y gallent gael eu trosglwyddo ar draws Dyffryn Teifi i Geredigion, oherwydd bod eu cysylltiadau â thref Caerfyrddin, trefi cymdogol eraill Sir Gaerfyrddin. Ie, mae pobl yn mynd i Geredigion, yn sicr, mae pobl o Geredigion yn dod i [anghlywadwy 02:45:13], ond nid oes cysylltiad naturiol. Mae'r gwasanaethau iechyd, y ffyrdd, y drafnidiaeth, mae'r cyfan yn canolbwyntio ar Gaerfyrddin oherwydd bod gennych chi'r rhwystrau daearyddol enfawr, ac mae'r Comisiwn yn deall hyn. Y rhwystrau daearyddol yw'r sylfaen i'r gwaith, ac mae gennych chi afon. Ac mae hyn, felly, wyddoch chi, i dorri stori hir yn fyr, o ran y pethau drwg, rwy'n credu fy mod wedi dweud fy nweud, ac fe af i at y pethau hyll. Oherwydd, os edrychwch chi ar gynnig Plaid Cymru, mae gennych ddelta afon enfawr, mae gennych Fae Caerfyrddin ei hun, ac maen nhw'n cynnig croesi Bae Caerfyrddin. A phetaech chi'n siarad â phobl yn y rhan honno o'r byd a gofyn beth maen nhw'n meddwl am gael eu cynnwys mewn sedd de Sir Gaerfyrddin gyda de diwydiannol Llanelli, â'i gwaith tunplat, a lle mae ei chyfleusterau peirianegol mawr yn bodoli o hyd, ac maen nhw'n credu bod hyn yn gasbeth, oherwydd bod ganddynt economi wledig. Mae ganddyn nhw, wyddoch chi, mae ganddyn nhw drefi marchnad gwledig, maen nhw'n gysylltiedig â Chaerfyrddin, does ganddyn nhw ddim mymryn o gysylltiad â Llanelli, heblaw eu bod yn yr un sir. Felly, maen nhw'n credu bod hyn yn hollol wirion, ac rwyf innau'n credu ei fod yn hollol wirion, ond, unwaith eto, mae'n deillio o'r rhifau oherwydd dyna sydd wedi dod o'r daenlen Excel. Sut ydych chi felly'n rhannu Caerfyrddin, sut ydych chi'n cael y rhifau? Wel, fe ddywedaf wrthy ch sut i rannu Caerfyrddin, yn union fel y'i gwnaethoch yn y lle cyntaf. Mae'r canlyniad cychwynnol, yn fy marn i, yn gynnig da iawn i'r sedd hon. Mae'n gwarchod y llais gwledig hwnnw, mae'n gwarchod ei chysylltiadau cymunedol ag Ysbyty Glangwili, mae'n adlewyrchu'r rhwydwaith ffyrdd presennol a'r rhwydweithiau cyswllt trafndiaeth hynny sy'n golygu bod modd i rywun gynrychioli'r seddi hyn. Ac felly, dyna'r cyfan sydd gennyf i'w ddweud wrthy ch heddiw. Rwy'n credu eich bod wedi gwneud gwaith da iawn ar y cynnig cychwynnol, rwy'n credu bod dau mân newid y gellid eu gwneud iddo, ond rwy'n credu eich bod wedi gwneud cyfiawnder mawr i gynrychiolaeth y bobl yn Sir Gaerfyrddin. Diolch.

SP: Diolch yn fawr. Unrhyw gwestiynau o'r llawr? Na. Cydweithwyr?


AM: Dim ond...

SP: Alan?

AM: Dim ond dau bwynt, dim ond, nid i'ch herio, ond mae'r ymgais hwnnw i wneud jôc am y Cardi a'r darn arian 50c, mae'n amhriodol, chi'n gwybod? Mae braidd yn hen ffasiwn, iawn? Fy nghwestiwn yw, fe sonioch chi dipyn eich bod wedi siarad â llawer o bobl.

HH: Ie.

AM: Fe'i defnyddir yn aml o safbwynt gwleidydd, rwyf wedi siarad â llawer o bobl. A allwch chi, ga'i archwilio, wyddoch chi, faint o bobl y siaradoch â nhw, ym mha



ardaloedd, ac ati. Un neu ddau, ugain, pum deg, cant, a oeddent ar draws y sbectrwm gwleidyddol, ac ati?

HH: Beth os yw ar draws y sbectrwm yn gwestiwn da, oherwydd rwy'n siarad â llawer o bobl, rwy'n cnocio ar lawer o ddrysau...

[02:47:48]

AH: Ie, wel, pan fydd pobl yn dweud cnocio ar lawer o ddrysau, wyddoch chi, faint? Deg, ugain, pum deg, oherwydd, wyddoch chi, i roi sylwedd.

HH: O, cannoedd, yn ôl pob tebyg.

AH: Iawn, ac ydyn nhw i gyd yn dweud yr un peth?

HH: Oherwydd rydw i hefyd, hynny yw, rydw i'n ymwneud â gwleidyddiaeth, hynny yw, rwy'n gyn ymgeisydd seneddol, fel y byddwch wedi casglu, yn ôl pob tebyg..

AH: Wel, dyna beth mae'n ei ddweud yma, ie, ie.

HH: Rwyf hefyd yn gadeirydd Cymdeithas Ceidwadwyr Sir Gaerfyrddin leol, felly, wyddoch chi, rwy'n cynnal stondinau stryd rheolaidd, rwy'n treulio llawer o amser yng nghanol tref Caerfyrddin yn siarad â phobl, aelodau'r cyhoedd a'r bobl leol. A'r farn gyffredinol ymhlith pobl Sir Gaerfyrddin yw eu bod yn hoffi eu sir ac yn caru eu sir a'u bod yn teimlo'n rhan annatod ohoni. A phan edrychwch chi ar y rhwystrau naturiol yn y sir, y rhwydwaith afonydd ac ati, nid yw'r rhain yn bethau dibwys, wyddoch chi. Hynny yw, nid yw trafndiaeth ffyrdd yng ngorllewin Cymru cystal ag y dylai fod, efallai, ac rydych yn cael gwir ymdeimlad o gymuned felly o fewn y strwythurau presennol hynny. Ac os edrychwch chi ar yr hyn y mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi'i wneud o ran ward newydd Cil y Cwm, dyweder, maen nhw wedi cyfuno [anghlywadwy 02:48:48] i Gil y Cwm. Felly, o dan gynnig Ceredigion, byddech fel petai'n gwahanu....

AH: Ie, rwy'n deall hynny i gyd, oherwydd rydych wedi'i esbonio...

HH: Rydych yn deall, wel, gan fynd yn ôl i ateb eich cwestiwn, ie, hynny yw, rwyf wedi siarad â channoedd o bobl am hyn a...


AH: Iawn.

HH: A'r farn gyffredinol yw eu bod yn gefnogol iawn. Rwy'n credu, nid wyf yn credu bod llawer o ymwybyddiaeth o'n gwrthgynigion, oherwydd rwy'n credu bod y cynigion mor annadleuol, o ran Caerfyrddin, ac rwy'n deall y gallai hynny gael ei weld yn wahanol mewn rhannau eraill o orllewin Cymru, ond o ran Caerfyrddin, nid yw'r cynigion yn ddadleuol iawn.

AH: Ie, iawn, mae hynny'n iawn. Diolch.

SP: Iawn. Diolch yn fawr. Unrhyw gwestiynau eraill? Na. Felly, diolch yn fawr.

[02:49:26]



Ga'i fynd yn ôl er mwyn osgoi amheuaeth yn llwyr, ac rwy'n cyfeirio at Mr Pratt, rwy'n credu, ar dudalen 33 y cynnig gwreiddiol a ddosbarthoch yng ngwrandawriad Caerdydd. Mae'n dweud hyn, bod y pedair plaid gymwys yn cefnogi creu dwy etholaeth yn Sir Gaerfyrddin a dwy o Geredigion a Sir Benfro, er y gallent symud rhai o wardiau gogledd Sir Benfro rhwng y ddwy etholaeth. Nid yw hynny'n golygu eich bod yn cefnogi Maenclochog, iawn?

RP: Na, i fod yn gwbl glir, yn amlwg mae'r Blaid Lafur a Phlaid Cymru, yr oeddem yn cyfeirio atynt yno, yn symud Maenclochog.

SP: Ac rydych chi'n dweud y pedair, sy'n eich cynnwys chi.

RP: Ie, mae'r pedair yn cefnogi'r cysyniad.


SP: Iawn.

RP: Y cysyniad o Sir Gaerfyrddin mewn dwy a Cheredigion a Sir Benfro yn cael eu huno, ond awgrymodd rhai ohonynt ddewis amgen. Nid ydym, rydym yn cefnogi'r ddwy, o ran Ceredigion a gogledd Sir Benfro, rydym yn cefnogi cynigion y Comisiwn.

SP: Iawn. Mae hynny'n ddefnyddiol, roeddwn eisiau bod yn hollol glir. Iawn, diolch yn fawr am hynny.

Rydym wedi gorffen yn gynnar, ac yn disgwyl ein siaradwr nesaf am hanner awr wedi un, felly rwy'n cynnig torri yn awr tan bum munud ar hugain wedi. Diolch yn fawr.

[Diwedd y Trawsgrifiad 02:50:55



Aberystwyth – Prynhawn

Allwedd

SP: Stephen Phillips, Comisiynydd Cynorthwyol
EG: Elen ap Gwyn, Cynghorydd
CW: Craig Williams, Aelod Seneddol
CE: Charlie Evans
DR: Dennis Roberts
AC: Andrew Clemes, Comisiynydd Cynorthwyol
HH: Harry Hayfield, Plaid Werdd Cymru
NG: Nia Griffith, Aelod Seneddol


[Trawsgrifiad yn dechrau ar 00:00:00]

SP: Prynhawn da, a chroeso cynnes i'r rhai ohonoch sydd wedi ymuno â ni ers cinio. Fy enw i yw Steve Phillips, ac rwy'n un o bedwar Comisiynydd Cynorthwyol sy'n cynnal y rhan hon o'r arolwg. Fy nghydweithwyr ar fy ochr dde, y pen pellaf, yw Andrew Clemes, Gwenllian Lansdowne-Davies ac Alan Midhar ar fy ochr chwith a Shereen Williams, Ysgrifennydd a Phrif Weithredwr y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Mae gennym restr o siaradwyr ar gyfer y prynhawn 'ma. Rwy'n mynd i gadeirio mor hyblyg ag y gallaf, fel bod pawb yn cael y cyfle mwyaf i wneud eu cynrychiolaethau, y byddant i gyd yn cael eu trin yn gyfartal, yn Gymraeg neu Saesneg. Dyma'r pumed gwrandawriad cyhoeddus ledled Cymru, a'r un olaf. Mae'r ail gyfnod ymgynghori wedi bod yn cael ei gynnal ar yr un pryd â'r gwrandawriadau hynny ac mae'n dod i ben heddiw, felly bydd gennych tan 11:59 heno, rwy'n credu, i ddefnyddio porth y Comisiwn i gyflwyno cynrychiolaethau. Ni fyddant yn cael eu hystyried ar ôl hynny.

Byddaf yn gwahodd y siaradwyr i ddefnyddio'r ddarllenfa ar fy ochr chwith, i ddatgan eu henw, yr ardal o ble maen nhw'n dod, nid cyfeiriad cartref ond yn llythrennol o ble maen nhw'n dod. Ac i ddweud ym mha rinwedd maen nhw'n siarad, naill ai'n bersonol neu ar ran sefydliad. Ein siaradwr cyntaf y prynhawn 'ma yw'r Cynghorydd Elen ap Gwyn, felly fe'i gwahoddaf i ddechrau areithio. Nid wyf yn mynd i ganiatáu croesholi fel y cyfryw, ond bydd cyfle i'r llawr neu fy nghydweithwyr yma ofyn pwyntiau eglurhad. Felly, drosodd i chi, Gynghorydd.

[00:01:56]

EG: Diolch yn fawr, noswaith dda. Braff eich gweld chi eto. Esgusodwch fi am eiliad, mae'n rhaid i mi gael dŵr. P'nawn da i chi i gyd, a dwi am roi gwaith i Delyth heddiw, dwi'n deall nad yw hi wedi cael llawer o waith bore 'ma. Felly, gan ein bod ni yng nghanol Ceredigion, un o'r siroedd lle mae'r Gymraeg yn bwysig ac un o'r rhesymau hefyd, dwi'n credu, am fod y Cyngor Sir, a dwi yma heddiw fel arweinydd y Cyngor Sir. A barn y Cyngor Sir yw hyn, mae o 'di cael ei drafod yn helaeth ganddyn ni ac yn groesbleidiol, wedi cytuno mai dyma byddai'r ffordd orau y'n ni'n ei weld i bobl canol..., wel, Ceredigion a Dyffryn Teifi, fela y'n ni'n gweld yr etholaeth yma yn gweithio orau, oherwydd bod y cymunedau sydd yr ochr draw i'r Teifi mor agos i'r cymunedau sy' ar ochr Ceredigion o'r Teifi. Ac yn yr un modd yn Sir Benfro. Er enghraifft, roedd Llandudoch yn rhan o Geredigion ar un adeg. Erbyn hyn, mae o'n rhan o Sir Benfro oherwydd bod 'na deimlad ar y pryd yn lleol eu bod nhw, achos




eu bod nhw'n talu llai o dreth yn Sir Benfro, eu bod nhw am fod yn aelod, yn rhan o Sir Benfro. Fe gawson nhw gyfle i ddangos eu hochr, a dyna oedd y penderfyniad. Ond, dwi di clywed hefyd bod 'na rai o'r wardiau neu'r cymunedau ochr draw i'r Teifi, pen arall y Teifi, bydde'n hoffi falle ymuno â Cheredigion, dyw hynna ddim wedi digwydd eto, ond mae'n dangos pa mor agos yw'r cymunedau ar hyd yr afon.

I fi, sydd yn cynrychioli ward fwyaf gogleddol Ceredigion, dwi'n ffinio â Phowys, mae o'n cymryd dwy awr a hanner i gyrraedd Tyddewi, beth sy'n cael ei gynnig gennych chi ar hyn o bryd. Mae'r ardal mor, mor eang, dyw e ddim yn gwneud synnwyr i fi. Mae e'n tynnu gwasanaeth aelod seneddol oddi wrth y bobl yn lleol, yn eu gwahardd nhw rhag cael mynediad at ei wasanaethau fo. Y fo dwi'n dweud nawr achos dyna beth yw'r sefyllfa yma ar hyn o bryd. Ac mae beth ydyn ni wedi cytun..., wedi'i gynnig i chi fel ffordd amgen o ffurfio etholaeth fwy cynhwysol a mwy cryno yn ddaearyddol, yw ein bod ni'n defnyddio Sir Geredigion fel craidd, ond yn hytrach na mynd yr holl ffordd lawr i waelod Sir Benfro, ein bod ni'n defnyddio'r wardiau sydd yn ffinio, fel rwy' wedi'i ddweud, o'r unai ym Mhenfro neu yn Sir Gaerfyrddin. Mae 'na bedair ward yn Sir Benfro, mae 'na bump yn Sir Gâr, bydde yn tynnu, fydde, fydde'n creu uned etholaeth o 72,823 o etholwyr, bydde o fewn y rhychwant sydd yn cael ei gynnig yn y ddeddf.

Fel dwi 'di dweud yn barod, mae nodweddion tebyg iawn. Nodweddion ieithyddol, y'ch chi'n colli pan y'ch chi'n mynd i'r de o Breseli neu'r wardiau gogleddol Sir, Sir Benfro sydd yn Gymreig ac yn Gymraeg iawn, fel mae'r wardiau yng Ngogledd Sir Gâr. Felly mae'n rhoi yr unoliaeth y..., ieithyddol 'na i chi, yr unoliaeth ddiwylliannol yna hefyd o ran y, y natur y, y Gymraeg yna. Mae hynna'n cael ei ddangos achos mae 'na gymaint, mae'n ysgolion ni ar hyd y Teifi, er enghraifft, Ysgol Bro Pedr, Ysgol Bro Teifi ac Ysgol Aberteifi ei hunan, maen nhw'n ysgolion, wel mae dwy ohonyn nhw'n ysgolion cyfrwng Cymraeg i bob pwrpas, a'r drydedd yn symud felly, yr ysgolion uwchradd hynny ydy. Ac mae 'na lot fawr o blant a phobl ifanc yn s..., croesi'r ffin. Mae 'na 581 o ddisgyblion o Sir Gaerfyrddin, ac mae 'na rai ysgolion yng Ngheredigion o 219 o ddisgyblion o Sir Benfro, felly mae'r symud yna, trawsffiniol, yn digwydd yn barod. Mae pobl yn teimlo eu bod nhw'n perthyn. Un uned, un gymuned ydy hi ar hyd y Teifi er eu bod nhw, yd..., yr w..., yr, y siroedd o nhw yn wahanol. Ac mae rhai o'n hysgol..., disgyblion ninnau hefyd yn, yn mynd dros y ffin i Ysgol Preseli oherwydd bod y ddarpariaeth yn Gymraeg ddim ar gael yn Aberteifi. Roedd rhai o blant Aberteifi yn mynd lawr i Breseli ond mae rhai o'r plant oedd eisiau darpariaeth Saesneg yn gallu croesi i Ysgol Gyfun Emlyn yng Nghastellnewydd Emlyn. Felly mae'r, mae'r, mae o'n gweithio yn barod, mae'n ddarpariaeth hamdden ni er enghraifft, yn Llanbed, yn Llandysul ac yn Aberteifi ar gael y ddwy ochr i'r ffin ac mae'r, mae'r gymuned yn gweithio fel un. Mae'r un peth yn wir am lyfrgelloedd, am wasanaeth meddygol, mae'r ganolfan integredig iechyd newydd yn Aberteifi yn darparu ar gyfer Gogledd Penfro yn ogystal ag ar hyd y Teifi ac i mewn i Geredigion.

[00:07:55]

Bydde, bydde'r, pe bydde ni'n derbyn Ceredigion Dyffryn Teifi fel enw ar yr, yr uned newydd 'ma, bydde fe'n gwneud llawer iawn mwy o synnwyr o ran teithio, rhaid i ni arbed carbon y dyddie 'ma. Mae gofyn i bobl deithio 85 o filltiroedd o hanner ffordd lawr Cymru reit lawr i dde..., pen deheuol yn gofyn gormod, dwi'n teimlo, a bydde fe'n llawer gwell cael uned fwy cryno. Mae'r unigolyn sy'n cael, fydde'n cael



ei ethol yn gallu darparu gwasanaeth llawer rhatach, llawer symlach a, a llawer llai o deithio ac yn gwneud yn siŵr bod yna fynediad rhwyddach i'r boblogaeth i gynna..., i gael gafael ar eu haelod lleol. Wedyn dyna'r achos fydden ni'n hoffi ei wneud i chi. Mae'n rhaid i ni gofio, 'dy'n ni ddim am weld pobl yn gorfod teithio'n bell. 'Dy'r gwasanaethau bysus ddim ar gael iddyn nhw, a'r bobl fwya' anghenus sy' wir angen help aelod seneddol. Ac mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr eu bod nhw ar gael wrth law yn weddol rwydd iddyn nhw, ac o fewn cyrraedd.

Felly dyna'n, dyna farn..., dwi'n rhoi y farn yna ar ran y Cyngor Sir fel dwi'n dweud. Yn economaidd hefyd, os ga'i fynd yn ôl, pan oedd y Gweinidog Edwina Hart yn Weinidog yr Economi, roedd hi wedi, wedi derbyn Dyffryn Teifi fel uned i ddatblygu yn ec..., yn economaidd. Ar hyn o bryd, 'da ni'm yn gallu gweithio felly oherwydd y rhanbartholi sydd wedi digwydd. Ond mi fydde'n gwneud mwy o synnwyr pe byddai modd i, i grynhoi'r ddwy elfen, y ddwy ochr o'r afon Teifi. Felly, fe wna' i adael hwnne i chi benderfynu ond dwi yn gwasgu arnoch chi i gymryd i ystyriaeth y pwyntiau dwi wedi eu gwneud i chi bore 'ma, neu b'nawn 'ma yn hytrach. Diolch yn fawr i chi.

SP: Diolch yn fawr. Cwestiynau o'r llawr? Ie, syr.

Cyfranogwr 1: Diolch. Faint o amser bydd rhywun o rywle fel Cynwyl Gaeo yn Sir Gâr yn ei deithio i fynd i swyddfa aelod seneddol yn Aberystwyth? Achos ar y funud, mae pobl o lefydd fel Cynwyl Gaeo yn teithio i'r ysbyty yn Glangwili achos mae Glangwili yn agosach na Bronglais.

EG: Mae Cynwyl Gaeo, dwi'n credu, ochr draw i'r afon o Lanbed a Llanybydder, mae'r aelod presennol â swyddfa yn Llanbed, felly bydde fe dros yr afon, bydde fe ddim yn cymryd amser i, i, i deithio.


Cyfranogwr 1: Ond roedd y ddadl roeddech chi'n ei gwneud bod dim ond un swyddfa ac felly roedd angen cael rhyw fath o gronfa o'r, o'r sedd. Ond os gall aelod seneddol gael mwy nag un swyddfa, beth yw'r broblem gyda chynnig y Commission sydd wedi cael ei wneud?

EG: Wel, mae gen i brofiad o fod mewn etholaeth Ceredigion a Gogledd Penfro, pan etholwyd Cynon Dafis yn 1992, ro'n i'n rhan o'r tîm ymgyrchu ac ro'n i'n gorfod gweithio yr holl ffordd lawr o le dwi'n byw yn Nhalybont yn y gogledd, lawr i, i Abergwaun. Doedd o ddim yn rhwydd gweithio ar yr ôl troed yna. Ffeindiwyd hynna allan ac mi newidiwyd e yn ôl i Geredigion a Phenfro, wel y ddwy ochr o Benfro. Dyna sydd yn gweithio orau a dwi ddim yn gwybod pam mae angen newid hynny, ond os oes rhaid newid, fi'n credu dylen ni wneud yn siŵr bod yr etholaeth newydd yn fwy hylaw, yn fwy hawdd i unrhyw unigolyn sy'n cael ei ethol i'w gwasanaethu.

SP: Iawn, diolch. Dŵr i'r blaen.

RP: Roger Pratt o Blaid Geidwadol Cymru. Mae'n flin gennyf, bydd rhaid i fy nghwestiwn fod yn Saesneg. [Chwerthin]

EG: Mae hynny'n iawn. Dywedwch chi rywbeth wrtha i.




[00:12:12]

- RP: Atebwch yn Gymraeg neu yn Saesneg fel y mynnwch. O dan gynigion y Comisiwn, os cymerwch chi'r pedair etholaeth. Mae tair mewn un awdurdod ac mae un mewn dau awdurdod, sef Ceredigion Gogledd Sir Benfro. Tybed a allech chi egluro o dan eich gwrthgynigion, beth fyddai'r sefyllfa o ran awdurdodau lleol?
- EG: Byddai'n rhannu awdurdodau lleol rhwng tri. Byddai gennych awdurdod lleol Penfro ar gyfer pedair o'r wardiau, fel y crybwyllais yn gynharach, a byddai'r lleill yn awdurdod lleol Caerfyrddin ac mae'r rhan fwyaf ohonynt, wrth gwrs, fel y maen nhw nawr, o fewn Ceredigion.
- RP: A beth am yr etholaethau eraill, oherwydd, yn amlwg, mae'r ôl-ffaith ar yr etholaethau eraill?
- EG: Ie, rwy'n credu mai'r ôl-ffaith yw Caerfyrddin, wel, byddent yn rhannu rhwng Caerfyrddin a Phenfro yn y bôn, byddent wedi'u rhannu rhwng y tri awdurdod fel y maen nhw nawr, ond byddai rhaniad y wardiau maen nhw'n eu cynrychioli yn wahanol.
- RP: Felly, ydw i'n iawn i ddweud y byddai un etholaeth â thri awdurdod, un etholaeth â dau awdurdod a dwy gydag un?
- EG: Yn fwyaf tebygol, ie, ie.
- RP: Diolch yn fawr iawn.
- SP: Iawn. Oes rhagor o gwestiynau o'r llawr? Na? Gan gydweithwyr?
- AC: Na.
- SP: Na? Os na, diolch yn fawr.
- EG: Diolch.
- SP: Iawn, ein siaradwr nesaf yw Craig Williams, Aelod Seneddol. Chi piau'r llawr, syr.

[00:13:48]

- CW: Diolch Mr Phillips, diolch Gomisiynwyr Cynorthwyol. Nid wyf yn credu y byddaf, gobeithiaf beidio â bod yn rhy ddadleuol heddiw oherwydd fy rheswm dros ddod yma'n bennaf yw diolch i chi am wneud tasg anodd a chefnogi'ch cynigion cychwynnol, y byddaf wedi'i wneud yn ysgrifenedig, wrth gwrs, ond meddyliais y byddai'n werth dod yma i fynd i'r afael ag ambell bwynt nawr fy mod wedi gweld y gwrthbwyntiau. A chredaf o'r cychwyn, wyddoch chi, yn amlwg roedd gennych chi dasg eithriadol o anodd i'w gwneud o ystyried y gwahaniaethau rhwng y poblogaethau ac oherwydd, maen nhw'n dweud, bod unrhyw newid mewn un man yn golygu bod angen newid yn rhywle arall, felly rwy'n eich canmol. A hefyd, mae'n werth myfyrio ar gyd-destun y Comisiwn Ffiniau diwethaf, a fyddai wedi bod yn llawer haws i AS Sir Drefaldwyn drefnu pobl o Sir Drefaldwyn oherwydd yn yr un diwethaf yn 2010 fe gynigoch chi rannu'r sedd, a oedd yn amlwg yn llai na ffafriol




yn ein barn ni. A sylwaf o sesiynau holi ac ateb eraill fod natur hanesyddol Sir Drefaldwyn wedi cael ei herio, ac fe es i i lyfrgell Tŷ'r Cyffredin a meddyliais y byddai'n fuddiol dweud bod Sir Drefaldwyn wedi cael ei chreu, wrth gwrs, yn ystod Deddf Seneddol y Gyfraith yng Nghymru gan y Brenin Harri'r VIII ym 1542 ac nid yw'r un dosbarth etholiadol wedi newid ers hynny. Felly, byddwn yn awgrymu wrth y Comisiwn Ffiniau petaech chi'n agor thesawrws ac yn chwilio am y gair hanesyddol, byddech yn gweld darlun hyfryd o Sir Drefaldwyn yn syllu'n ôl arnoch. A byddaf yn gwneud rhai pwyntiau eraill, ond credaf ei bod yn werth i'r Comisiwn Ffiniau hwn, fel yr ydych chi wedi'i wneud, fyfyrion ar natur hanesyddol yr etholaeth honno a'i hamddiffyn yn ei chyfanrwydd. Gyda rhai ychwanegiadau, wrth gwrs, i fodloni'r meini prawf. Ac mae hyn yn arwyddocaol yn wleidyddol i'r etholaeth rwyf yn ei chynrychioli a'r bobl sydd wedi fy ethol i ddod yma heddiw a dadlau o'u plaid.

Felly, rhoddaf yr ochr hanesyddol o'r neilltu, ond rwyf eisiau myfyrion ar rwydwaith trafndiaeth Sir Drefaldwyn ac yna, wrth gwrs, y pwynt ehangach rydych yn ei ychwanegu. Ond mae llinell Cambria yn un amlwg. Byddwn wedi hoffi defnyddio llinell Cambria heddiw, ond yn anffodus, oherwydd llifogydd, a byddaf yn sôn am Goridor Hafren mewn munud. Mae llinell Cambria yn amlwg yn mynd o, wel llinell Amwythig i Aberystwyth ydyw, felly, fe allwch weld, yn syth trwy ganol Sir Drefaldwyn. Mae'n cysylltu Machynlleth, mae'n cysylltu Caersws ac, yn bwysig yn fy marn i, mae'n cysylltu'r Drenewydd a'r Trallwng. Dwy dref fawr Sir Drefaldwyn, dwy sy'n gydgyssylltiedig o ran y farchnad lafur, o ran cysylltiadau cymunedol, ac rwyf i'n byw, Mr Gadeirydd, yng nghanol Sir Drefaldwyn yn Llanfair Caereinion, a allai fod yn adnabyddus i rai Comisiynwyr Cynorthwyol eraill, ac mae fy neintydd yn y Drenewydd. Mae'r ganolfan iechyd integredig newydd yn darparu gwasanaethau ymgynghorydd ac rydych yn mynd iddi o'r Trallwng, rydych yn mynd iddi o Lanfair Caereinion, rydych yn mynd iddi o bellach i ffwrdd ac mae'n sicr yn ganolfan i'r gymuned ac i ofal iechyd.

Ond mae hynny, yn ogystal â llinell Cambria o ran y cysylltiad hwnnw, yn cysylltu'r holl brif ganolfannau sydd yn Sir Drefaldwyn ar hyn o bryd, mae gennych goridor Hafren. Nawr mae Partneriaeth Coridor Afon Hafren yn dod yn fwyfwy pwysig i awdurdodau lleol, i reoli llifogydd, i adfywio, i gynllunio, ac mae'n cael ei defnyddio fwyfwy gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a, gobeithiaf yn fuan, gan Lywodraeth Cymru i drefnu ei hun o ran ble y rhoddir cyllid. Mae Afon Hafren, ac rwy'n siŵr, wyddoch chi, rwy'n siŵr fy mod yn dweud wrthy ch bopeth rydych eisoes yn ei wybod, ond dyma fy neng munud i gyfnerthu eich bod yn iawn. Mae Afon Hafren yn dechrau yn llyn Clywedog, mae'n cael ei rheoli yno, afon hiraf Prydain Fawr ydyw, ond mae'n mynd, i bob pwrpas, o Lanidloes yn syth trwy ganol Sir Drefaldwyn i Loegr, gan gysylltu'r Drenewydd a'r Trallwng unwaith eto. Mae'r coridor afon hwnnw, o ran yr holl bethau rwyf wedi'u hamlinellu, ond o ran llywodraethu, yn allweddol wrth symud ymlaen ac awgrymaf wrth y Comisiwn Ffiniau ei fod, unwaith eto, yn cysylltu'r holl gymunedau hyn rydych wedi'u cadw gyda'i gilydd yn rhyfeddol o dda.

[00:18:11]

Nodaf hefyd o dystiolaeth arall i'r panel hwn, yr honnwyd bod cysylltiad rhwng Ysgol Uwchradd y Drenewydd a champws John Beddoes yn Llanandras, a ga'i roi gwybod i'r Comisiwn nad yw'n gysylltiad dalgyloch; nid oes unrhyw ddisgyblion bron yn mynd rhyngddynt. Gwnaed y cysylltiad hwnnw i helpu arweinyddiaeth John




Beddoes ac Ysgol Llanandras. Y rheswm pam na wnaethant ei chysylltu â Llanidloes oedd oherwydd bod problem arweinyddiaeth yn yr ysgol honno hefyd, felly byddwn yn awgrymu mai mater o rannu pennaeth ac uwch reolwyr yw hyn, ac nid cysylltiad cymunedol, sydd unwaith eto'n atgyfnerthu rhai o'r pwyntiau eilaidd y byddaf yn eu gwneud am gyflwyniadau pleidiau eraill i ddatgysylltu'r hyn rydych wedi'i wneud.

Byddaf yn sôn am yr ardaloedd rydych yn eu dwyn ynghyd i mewn i Sir Drefaldwyn o Dde Clwyd a chredaf ei bod yn werth myfyrio eu bod yn cyfuno'n bennaf o amgylch tref farchnad Croesoswallt. Nawr fe allaf weld bod Croesoswallt yn Lloegr ac nid ydych yn awgrymu ei bod yn dod i mewn i'r etholaeth hon, ond beth mae'n ei wneud, yn fy marn i, yw cydnabod bod Llansanffraid, Llangollen, Llanymynech a'r holl ardaloedd presennol o amgylch yr hen dref farchnad wedi'u cysylltu'n ddiwylliannol a'u bod yn gysylltiedig o ran ieuchyd. Oherwydd rydych yn delio fan hyn ag etholaeth sy'n drawsffiniol ei natur. Mae Coleg Amaethyddol Walford yng Nghroesoswallt ac mae hwnnw'n gwasanaethu rhan fawr o ardal De Clwyd a Sir Drefaldwyn, gan ein dwyn ynghyd o ran y cysylltiad amaethyddol hwnnw. A chredaf ei bod yn werth myfyrio ar y rhwydwaith ffyrdd hefyd, yr A483, sef Machynlleth i'r Drenewydd, a'r A489 hefyd. Mae'r holl ffyrdd hyn yn cysylltu'r ddwy farchnad lafur bwysig hyn â'i gilydd, o'r Drenewydd a'r Trallwng, a gobeithiaf erbyn hyn eich bod yn gweld fy mod yn cysylltu'r Drenewydd a'r Trallwng â'i gilydd yn eithaf cryf.

Byddwn hefyd yn gwrthwynebu colli Machynlleth a'r wardiau amgylchynol i unrhyw sedd newydd yng Ngheredigion. Mae mynyddoedd Cambria yn ffin naturiol a gydnabyddir yn gryf a dyna beth fyddai, yn fy marn i, yn dal gorllewin Sir Drefaldwyn ynghyd, petaech chi ddim, am ryw reswm anhysbys, yn derbyn natur hanesyddol y gymuned honno ers 1524. Credaf fod mynyddoedd Cambria yn atgyfnerthu'r ffaith eich bod wedi gwneud y peth iawn trwy gadw'r cymunedau hynny gyda'i gilydd.

[00:00:20:38]

Rwyf hefyd eisiau egluro, unwaith eto, seddau cymunedau Abermiwl a Thregynon yng nghynnig y Democratiaid Rhyddfrydol a oedd yn rhannu Sir Drefaldwyn yn ei hanner unwaith eto. Mae Tregynon ac Abermiwl yn edrych tuag at y Drenewydd, does dim dwywaith amdani, maen nhw'n edrych gyda'i gilydd o ran eu cysylltiadau addysgol, eu cysylltiadau ieuchyd; unwaith eto, y cysylltiadau marchnad lafur ac maen nhw'n amlwg yn cael eu hystyried yn endidau o'r Drenewydd, y brif dref. Felly, byddai hynny'n golled gymunedol enfawr o ran datgysylltu'r rhai sy'n mynd tua'r gogledd i'r hyn a fyddai'n [etholaeth] eithaf mawr..., a sylwaf fod y gwestai blaenorol wedi sôn am ba mor fawr yw'r etholaethau hyn. Wel, rydym eisoes yn delio ag etholaethau eithriadol o fawr, mae Sir Drefaldwyn yn fwy na Llundain Fwyaf, ond mae'r poblogaethau'n wahanol, yn amlwg. Ond byddwn yn awgrymu i chi y bydd y ddadl honno'n cael ei chyflwyno i chi mewn perthynas ag unrhyw gynnig a wnewch yng Nghymru, oherwydd natur wledig y wlad rydym yn byw ynddi. Rydym yn cael mynediad at wasanaethau mewn ffordd wahanol i amgylchedd trefol ac rydym yn gyfarwydd â, ac rwy'n credu ar hyn o bryd ac unwaith eto, i atgyfnerthu, rwy'n cefnogi cynnig y Comisiwn ar gyfer Sir Drefaldwyn a Glyndŵr er fy mod yn credu y byddai'n werth myfyrio ar yr enw, a chredaf y byddai colli De Clwyd, felly efallai Sir Drefaldwyn a De Clwyd yw ein cynnig ffurfiol yn sicr. Gallaf weld arwydd dwy funud yn cael ei godi, felly credaf fy mod wedi



manyly ar y prif bwyntiau yr oeddwn eisiau eu gwneud i'r panel, ond i atgyfnerthu, i grynhoi, mae'r farchnad lafur yma'n mynd yn bendant o'r dwyrain i'r gorllewin, mae'r rhwydwaith trafndiaeth gyda llinell Cambria yn cysylltu'r holl brif gymunedau hyn â'i gilydd, mae'r coridor afon, sy'n eithriadol o bwysig i'r etholaeth hon, yn cysylltu Llanidloes yr holl ffordd i fyny a chredaf fod rhwystrau daearyddol trafndiaeth naturiol sy'n cefnogi cynigion cychwynnol y Comisiwn, a diolchaf i chi ac rwyf wedi dod yma i siarad o'u plaid.

SP: Diolch yn fawr iawn. A oes unrhyw gwestiynau o'r llawr? Oes.

RP: Roger Pratt o'r Blaid Geidwadol. Fe sonioch chi am ddau le penodol y dywedoch fod ganddynt gysylltiadau cryf iawn â'r Drenewydd. Nid wyf, tybed a allech chi ddweud pa leoedd ydynt yn union o ran enwau'r wardiau presennol?

MW: Diolch, Roger. Dolforwyn a Rhiwcynon ydynt ar hwn. Wardiau newydd yw'r rhain oherwydd ein bod newydd fynd trwy arolwg ffiniau lleol, ond yn lleol, byddent yn cael eu galw'n gymunedau Tregynon ac Abermiwl a'r ardal ehangach, ond maen nhw wedi'u diffinio'n glir, wardiau 1,724 a 1,652 ac mae hefyd wedi fy ngalluogi, oherwydd roeddwn wedi anghofio am Drefaldwyn, byddai Trefaldwyn, wrth gwrs, yn edrych tuag at y Drenewydd o ran addysg, yn ogystal â chysylltiadau'r farchnad lafur a chysylltiadau cymunedol eraill.

RP: Diolch.

SP: Diolch. Oes unrhyw gwestiynau eraill o'r llawr? Cydweithwyr? Na?

Dim ond un, pwynt eglurhad. Rwy'n credu y dywedoch eich bod yn cefnogi'r cynigion cychwynnol yn eu cyfanrwydd, gan gynnwys yr ychwanegiadau i etholaeth bresennol Trefaldwyn, o leoedd fel Rhiwabon, y Waun, Penycae ac ati. Y rheswm rwy'n ceisio eglurhad yw bod safbwyntiau croes wedi cael eu mynegi i ni o'r cymunedau hynny sy'n teimlo bod ganddynt fwy o gysylltiad â Wrecsam a lleoedd eraill.


MW: Mr Gadeirydd, mae'n bwynt gwych ac wedi fy ngalluogi i egluro, cefnogi cynigion Ceidwadwyr Cymru sy'n newid ychydig y cymunedau sy'n ymddangos, efallai, eu bod yn llifo'n fwy naturiol i Wrecsam. Credaf ein bod wedi cynnig cyfres gref o gynigion sy'n cadw'r cysylltiadau gyda'i gilydd, ond credaf fod y cymunedau rydych yn eu disgrifio, fel y Waun, fel Llangollen a'r trefi cymdogol hynny, yn enwedig tref farchnad Croesoswallt, yn cyd-fynd yn gyfforddus iawn â Llanrhaeadr, maen nhw'n cyd-fynd yn gyfforddus iawn â Llansanffraid a'r llyf naturiol i Sir Drefaldwyn a'r rhan o Dde Clwyd y credaf eich bod yn ei disgrifio.

SP: Defnyddiol, diolch yn fawr. Os nad oes unrhyw bwyntiau eraill ga'i ddiolch i chi unwaith eto ac, ydy Mr Charlie Evans yma? Ydy, gwych.

CE: Diolch. A chyn pryd hefyd, da iawn. [chwerthin]

SP: Ni allaf gymryd y clod am hynny.

CE: [chwerthin] Felly, fe gymera i 'e yn ôl.



[00:25:16]

SP: Yn wir. Chi piau'r llawr.


CE: Felly, fy enw i yw Charlie Evans, rwy'n gynghorydd Cymuned ar Gyngor Cymuned Llangynor yn ne Caerfyrddin ac rwyf hefyd yn gadeirydd Ceidwadwyr Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, i enwi rhai pethau. Felly, mae gennyf nifer o wahanol gyfrifoldebau, ac rwy'n mynd i geisio eu gwahanu gymaint â phosibl. Felly, yn gyntaf, hoffwn sôn am fater Llangynor, ac rwy'n dweud de Caerfyrddin yn fwriadol oherwydd bod hynny'n ffurfio fy marn i a barn y Cyngor Cymuned hefyd o ran ble y dylai fod. Nawr, yn amlwg, o dan y cynnig presennol, bydd Llangynor yn dod o fewn etholaeth Llanelli. Nawr, mae'n rhaid i mi gyfaddef, o ran y ffiniau presennol â Gorllewin Caerfyrddin, De Sir Benfro a Dwyrain Sir Gaerfyrddin a Dinefwr, roedd wastad yn teimlo'n rhyfedd iawn fel y saif ar hyn o bryd beth bynnag, bod Llangynor yn cael ei rhannu gan ein cymdogion yng Nghaerfyrddin, yng nghanol tref Caerfyrddin ei hun, a chredaf fod hwn yn gyfle i gywiro'r mater hwnnw fel y saif ar hyn o bryd, wyddoch chi, credaf ei bod yn gwaethygu'r broblem yn hytrach na'i datrys.

Ac i mi, mae'n gwestiwn o hunaniaeth, a chredaf fod hynny'n bwysig wrth ystyried y materion hyn. Os gofynnwch chi i unrhyw un sy'n byw yn Llangynor, Nantycaws neu Langynor ei hun, Pibwrlwyd neu Bensarn, os gofynnwch chi iddyn nhw o ble maen nhw'n dod, byddan nhw'n dweud eu bod yn dod o Gaerfyrddin, ni fyddant yn dweud yn benodol ar y dechrau eu bod yn dod o Langynor. Os gofynnwch iddynt am leoliad mwy penodol, yna fe allent ymhelaethu ar y ffaith eu bod, yn wir, yn byw yn Llangynor. Ond, er hynny, mae pobl yn Llangynor yn uniaethu â Chaerfyrddin ac rwyf i fy hun wedi byw yno am ddeng mlynedd neu fwy bellach ac yn ystyried fy hun yn fachan Caerfyrddin yn hytrach na bachan Llangynor.

Ac fe wnaethon ni hefyd ychydig o waith ymgysylltu ehangach ar gyfryngau cymdeithasol trwy'r Cyngor Cymuned, ac fe gododd ychydig o aeliau yn seiliedig ar y cynigion presennol. I ychwanegu ambell bwynt arall at hyn, mae gorsaf heddlu Caerfyrddin yn ward Llangynor, ac mae gorsaf drenau Caerfyrddin yn ward Llangynor. O ran yr orsaf drenau, dyna'r cysylltiad rhwng Sir Benfro a de Cymru ehangach, gan gynnwys Llanelli, felly o ran hynny mae'n teimlo braidd yn rhyfedd y byddai gorsaf drenau Caerfyrddin yn cael ei chynnwys yn etholaeth Llanelli.

Hefyd, er mwyn ychwanegu, mae Bro Myrddin, yr unig ysgol uwchradd Gymraeg yng Nghaerfyrddin, yn Llangynor hefyd ac, o dan y cynigion hyn, byddai'n dod o fewn etholaeth newydd Llanelli. At hynny, mae Cyngor Cymuned Llangynor, yn ei gynnig ysgrifenedig, wedi cefnogi cynnwys Llangynor yng Nghaerfyrddin ac, yn fathemategol, byddai cynnwys Llangynor yn golygu 72,683 o etholwyr, sydd ymhell o fewn yr amrediad o 69,726 a 77,062. Yr amrediad hwnnw o fewn cwmpas gwaith y Comisiwn. Felly, ar y sail honno, wyddoch chi, fel cynghorydd cymuned fy hun, ond dyma farn y Cyngor Cymuned yn gorfforaethol hefyd, byddem yn herio'r cynnig cychwynnol a fyddai'n gweld Llangynor yn cael ei rhoi yn etholaeth Caerfyrddin, a fyddai'n cyd-fynd yn berffaith â pharamedrau cynnig y Comisiwn hefyd.

[00:20:47]



Yn olaf, o ran y pwynt hwn, a chan siarad fel cynghorydd cymuned, mae'n rhaid i mi feddwl am St Ishmael gyndogol hefyd. Oherwydd bod St Ishmael yn cynnwys ardal fel Cwmffrwd a Glanyfferi. Cwmffrwd unwaith eto, byddai'r hyn rydw i newydd ei ddweud am hunaniaeth, wyddoch chi, yn berthnasol i Gwmffrwd hefyd o ran uniaethu â Chaerfyrddin ac o ran sut gallai'r fathemateg weithio ar gyfer yr un honno, a allai fodloni pobl yn gyffredinol petaech chi'n cynnwys Llangynor a St Ishmael yn etholaeth Caerfyrddin, ac yna'n symud Penygroes a Saron i Lanelli, byddai hynny'n bodloni'r cwmpas a'r paramedrau yng nghynigion y Comisiwn hefyd.

Felly, dyna'r rhan am Langynor, felly, ie, byddem yn gobeithio o ran, rwy'n credu hynny i gyd hefyd, mewn gwirionedd. Rwy'n credu y bu llawer o gytundeb trawsbleidiol ar y mater hwn am Langynor hefyd, er bod amryw wahanol fformiwlâu, wyddoch chi, ond mae Llangynor wedi bod yn ffactor sy'n uno, yn fy marn i, ar draws y rhan fwyaf o'r pleidiau gwleidyddol hefyd.

A hoffwn ddweud yn awr, o safbwynt Cadeirydd Cymdeithas Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, rwyf wedi cyflwyno cynrychiolaeth ysgrifenedig hefyd. Hoffwn ddweud ein bod yn gefnogol iawn, iawn, ac roedd Craig Williams, AS, yn iawn i'ch llongyfarch chi i gyd ar y dechrau ar dasg anodd ac, mewn gwirionedd, credaf fod etholaeth Canolbarth a De Sir Benfro sydd wedi cael ei chreu yn cywiro llawer o'r materion ynglŷn â Chaerfyrddin a Sir Benfro a fu gennym yn y gorffennol o ran ble mae pobl wedi'u lleoli. Felly, dim ond i ddweud, wyddoch chi, i gydnabod yr anhawster sydd gennych wrth wneud eich gwaith a bod y cynnig rydych wedi'i wneud ar gyfer Canolbarth a De Sir Benfro yn gynnig yr ydym ni fel cymdeithas, mae gennym 240 o aelodau, yn cytuno ag ef a'i gefnogi'n llwyr a byddem yn annog ei fod yn aros fel y mae.


Yn olaf, felly, mae rhai o'r gwrthgynigion sydd wedi cael eu cyflwyno gan eraill yn ymdrin â ble mae wardiau fel Llansteffan, Talacharn, Township a Sanclêr wedi'u lleoli ac rydym yn ymwybodol o'r cynnig a fyddai'n gweld y wardiau penodol hynny, wyddoch chi, yn cael eu cynnwys yn Llanelli o ran canolfan ddaearyddol fwyaf yr etholaeth honno. Rydyn ni fel cymdeithas yn gwbl yn erbyn hynny, wyddoch chi, mae'n iawn bod y wardiau hynny, unwaith eto ar sail hunaniaeth, rwyf newydd sôn amdani a chan eithrio tref Caerfyrddin o'r wardiau hynny, unwaith eto, wyddoch chi, byddent yn uniaethu â bod o Gaerfyrddin, wyddoch chi, a byddai'n anffodus yn fy marn i ac yn sicr, cyn y terfyn amser heno, rwy'n gwybod am ambell aelod sy'n mynd i gyflwyno cynrychiolaeth ysgrifenedig hefyd i fynegi eu pryder y gallai'r wardiau penodol hynny ddiweddu yn ward newydd Llanelli. Er hynny, credaf fod enw gwahanol wedi cael ei briodoli iddi.

Felly, ie, dyna'r cyfan sydd gennyf i'w ddweud, mewn gwirionedd. Yn gymharol fyr, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am bopeth rydych wedi'i wneud o ran y gwaith ac rwy'n barod i ateb unrhyw gwestiynau, dybiwn i.

SP: Diolch yn fawr. Unrhyw gwestiynau o'r llawr? Na. Cydweithwyr?


[00:32:20]

Un pwynt eglurhad. Rwy'n credu fy mod yn iawn, ond cywirwch fi os wyf yn anghywir. Fe grybwyllloch orsaf drenau Caerfyrddin, ond mae ward etholiadol



Llangynor, wrth gwrs, yn mynd yr holl ffordd o'r pentref o amgylch Pencadlys Heddlu Dyfed Powys trwy gylchfan Pensarn ac i fyny i'r afon gyferbyn â Neuadd y Sir, ydy hynny'n iawn?

- MW: Ie, felly, yn sicr, felly yr afon yw'r, yw'r...
- SP: Llinell ffin.
- MW: Ie, dyna'r llinell ffin, ac mae ward Llangynor yn cynnwys pentrefi Nantycaws, ac ati hefyd, felly...
- SP: Ie.
- MW: Felly, dyna ble mae'r llinell.
- SP: Defnyddiol. Ac fe ddylwn i egluro na allwn ni dderbyn unrhyw glod am y cynigion cychwynnol. Nid oedd y pedwar ohonom ni yn gysylltiedig â nhw o gwbl.
- MW: Iawn.
- SP: Mae ein rôl ni wedi'i chyfyngu i dderbyn y feirniadaeth am unrhyw newidiadau.
- MW: Dylech gadw hynny'n dawel, [chwerthin] dylech fwynhau'r ganmoliaeth tra bydd yn para.
- SP: Ie, ond ni allwn dderbyn y clod amdano, gwaetha'r modd. Diolch yn fawr.
- MW: Diolch. Diolch.
- SP: Iawn. Mr Dennis Roberts? Ie, chi piau'r llawr, syr.
- DR: Gadeirydd, fe ofynnais i am ychydig o amser ychwanegol.
- SP: Iawn.
- DR: Am ddeuddeng munud a hanner.
- SP: Iawn.
- DR: Felly hoffwn..., diolch yn fawr. A fyddai ots gennyh petawn i'n cael llymaid o ddŵr? Rydw i wedi teithio i lawr yma o Fangor heddiw, roeddwn i fod i ddod i siarad â chi bryd hynny, ond fe ges i Covid, felly meddyliais well i mi beidio.
- SP: O, rwy'n falch o weld eich bod wedi gwella.
- DR: Mae gennyf ddetholiad o sleidiau hefyd ac rydw i wedi ceisio eu gwneud nhw'n ddwyieithog, ond dydw i ddim yn gwybod a ydych eisiau gweld y sleidiau neu beidio, ond...?
- SP: Ie, hapus i weld y sleidiau.



[00:34:24]

DR: Felly, i roi amser i chi i....


lawn, fy enw i yw Dennis Roberts, ac rydw i'n byw yn y Felinheli, fel pum milltir o Fangor. Rwyf yma fel unigolyn â diddordeb mewn materion megis ffiniau. Mae fy nghyflwyniad cynhwysfawr wedi ei yrru i'r Comisiwn yr wythnos ddiwethaf. Rwyf yn gyn brif swyddog llywodraeth leol a chefais y ffrainc a'r pleser o wasanaethu ar Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru am ddau dymor. Rwyf am gyflwyno i chi y wybodaeth am bum etholaeth newydd a newidiadau i ddwy arall.

Rwyf yn gryf o'r farn bod yna dair ardal wahanol yng Ngogledd Cymru. Yn gynta', yr arfordir, gyda chanran uchel o bobl wedi ymddeol, yn yr ardal o Gaernarfon i Brestatyn, mae yna ganolfannau iechyd, addysg a gweinyddol pwysig. Twristiaeth yw prif ddiwydiant yr ardal, ond mae yma groestoriad o ddiwydiannau eraill. Yr ail ardal, ardal ddiwydiannol. Glannau Dyfrdwy a Wrecsam yw ardal ddiwydiannol draddodiadol Gogledd Cymru. Er bod y diwydiannau trwm a fu yn gefn i'r ardal am genedlaethau wedi crebachu, erbyn hyn mae diwydiannau modern wedi dod i gymryd eu lle. A'r drydedd ardal, cefn gwlad. Mae gweddill Gogledd Cymru yn gasgliad o drefi marchnad gyda stadau diwydiannol yn y rhan fwyaf ohonynt ac mae'r wlad o'u hamgylch yn ddibynnol ar amaethyddiaeth a thwristiaeth. Wrth gychwyn ar y gwaith, daeth i'm cof fod y patrwm yn debyg i gynigion terfynol y Comisiwn yn 2018. Dyma'r map yn dangos eu cynigion. Roedd hyn yn ysbrydoliaeth i mi fynd ymlaen gyda'm hymchwil gan fy mod o'r farn bod gennyf gysail i beth oeddwn yn gobeithio ei gyflawni.

Rwy'n cychwyn gyda golwg ar etholaethau Clwyd Delyn ac Alyn a Glannau Dyfrdwy. Felly, fy nhasg gyntaf oedd gweld os oedd yn ymarferol creu tair etholaeth yma o fewn canllawiau'r Comisiwn. Wedi didoli'r wardiau i'r tri chategori, dyma oedd y canfyddiad. Mae'r ffigurau yna yn y tabl ar y chwith yn cyd-fynd ag anghenion y Comisiwn, bod nifer yr etholwyr o fewn yr ystod angenrheidiol. Felly, dyma fy argymhelliad cyntaf i'r Comisiwn. I dderbyn etholaeth yr arfordir o Fae Colwyn y tu hwnt i Brestatyn, gyda 76,863 o etholwyr. Yn yr un modd, rwy'n argymhell i'r Comisiwn dderbyn yr etholaeth ddiwydiannol ar Lannau Dyfrdwy o Fostyn i Frychdyn, gyda 75,692 o etholwyr. Ar ôl, mae cefn gwlad. Yng nghynigion y Comisiwn, roeddwn yn anfodlon bod Rhuthun a wardiau cyfagos yn Nyffryn Clwyd yn etholaeth Delyn. Mae, ond mae cefn gwlad yn dod dros y broblem honno. Mae yna broblemau eraill, megis, megis wardiau Brymbo a Mwynglawdd a ddylai fod yn rhan o etholaeth Wrecsam. Rwyf hefyd yn anhapus i weld etholaethau Llandrillo, Corwen a Llangollen, bro fy mebyd, yn etholaeth Maldwyn a Glyndŵr. Nid yw hyn yn gwneud synnwyr yn ddaearyddol, gan fod mynyddoedd y Berwyn rhwng Maldwyn a Dyffryn y Ddyfrdwy. Hefyd, mae'r etholaethau hyn yn Sir Ddinbych. Yn olaf, a fuasai'n fuddiol i drosglwyddo Llansannan a Betws yn Rhos, wardiau yn Sir Conwy, i etholaeth Aberconwy?

[00:39:28]

Ymlaen felly i Wrecsam, a throsglwyddo etholaethau Brymbo a Mwynglawdd o gefn gwlad i'r etholaeth ac fel y gwelwch, nid yw, nid yw o fewn y canllawiau ar hyn o bryd. Mae'r Comisiwn yn barod wedi derbyn bod angen cynnwys rhan o Sir



Wrecsam yn etholaeth Maldwyn a Glyndŵr. Mae ardal Llangollen ar fap yr etholaeth yn dangos hynny. Felly, a oes modd trosglwyddo wardiau eraill o'r ardal yma fel bod nifer yr etholwyr yn Wrecsam o fewn y canllawiau? Dyma fap etholiadau yr Arolwg Ordnans o'r ardal. Yng Nghyngor Wrecsam mae dwy etholaeth ar y ffin, sef Pant a Johnstown mewn lleoliad y gellir eu cynnwys yn etholaeth Maldwyn a Glyndŵr. Dyma oedd fy nghynnig i'r Comisiwn ym mis Tachwedd, ac rwyf hefyd yn awgrymu y buasai'n bosibl cynnwys ward Ponciau hefyd ym Maldwyn a Glyndŵr. Gyda golwg manwl yma o'r map sydd o'm blaen, dwi'n gweld nad yw fy nghynnig gwreiddiol ond yn cynnwys hanner pentre' Rhosllannerchrugog. Mae'n angenrheidiol felly, trosglwyddo ward Ponciau hefyd o Wrecsam i Faldwyn a Glyndŵr a gwelir y tair ward wedi eu hamlinellu yn y co..., yng nghoch ar y map. Rwy'n cynnig, felly bod, ar gyfer Wrecsam, trosglwyddo Mwynglawdd a Brymbo o gefn gwlad a throsglwyddo Pant, Ponciau a Johnstown i etholaeth Maldwyn a Glyndŵr. Ac felly, dyma fy argymhelliad i Wrecsam gyda 72,977 o etholwyr. O gof, dyma hefyd oedd cynnig yr Aelod Seneddol Lleol yn y gwrandawriad yn Wrecsam.


Ymlaen felly i gefn gwlad. Dwi'n ychwanegu Pant, Ponciau a Johnstown i'r etholaeth a throsglwyddo Llandrillo, Corwen a Llangollen i gefn gwlad. Mae hyn yn creu etholaeth o 73,841 o etholwyr. Dyma fy argymhelliad felly ar gyfer rhan ogleddol Maldwyn a Glyndŵr.

Ymlaen i gefn gwlad, a throsglwyddo Mwynglawdd a Brymbo i Wrecsam, gan ychwanegu Llandrillo, Corwen a Llangollen o Faldwyn a Glyndŵr yn creu etholaeth o 75,184. Mae un mater arall yn codi, sef sefyllfa Llansannan a Betws yn Rhos. Mae'r ddwy ward yn Sir Conwy ac rwy'n argymhell ar hyn o bryd eu trosglwyddo i etholaeth Aberconwy. Felly, dyma, ar gyfer etholaeth Cefn Gwlad orllewinol, ogledd-ddwyrain, sori, dyma fy argymhelliad gyda 72,066 o etholwyr.

Ymlaen felly i ogledd-orllewin Cymru. Fe gychwynnwn gydag Aberconwy, yn y golofn ar y chwith, gwelir bod trosglwyddo Llansannan a Betws yn Rhos yn creu etholaeth o 73,027. Mae hyn yn dod a chyfanswm yr etholwyr yn agos at y cwota etholiadol o 73,393. Ond, ond cyn cynnig hynny, awn ymlaen i weld os oedd modd creu etholaethau hefo'r bilor a chefn gwlad yn yr ardal hon. O sori, mae'r golofn ar y dde y, yn dangos nifer yr etholwyr sydd gennym ni ar, ar gyfer hynny. Wedi didoli'r wardiau..., o sori. Ia, wedi didoli'r wardiau i'r ddau gategori, fy argymhelliad cyntaf yw etholaeth yr, yr arfordir yn ymestyn o Gaernarfon i Landudno, gyda 74,256 o etholwyr. Yn yr un modd, rwy'n argymhell etholaeth cefn gwlad orllewinol o 70,733 o etholwyr a dyna fy argymhelliad olaf.

Mae'r pleidiau gwleidyddol, yn y gwrandawriad blaenorol, a bore heddiw, wedi pwysleisio pwysigrwydd bod aelod seneddol yn cynrychioli'r nifer lleiaf posibl o siroedd. Mae fy [aneglur 00:44:24] i yn gwella'r sefyllfa o gynigion y Comisiwn a dim ond dau sydd â thair sir a phedwar gyda dwy sir. Dyma dabl yn dangos bod nifer yr etholwyr yn fy nghynigion i yn cyd-fynd â'r ffigur yng nghynigion y Comisiwn. Rwyf o'r farn bod y cynigion rwyf wedi eu cyflwyno i chwi heddiw yn batrwm y gall y Comisiwn rhoi ystyriaeth fanwl iddo cyn dod i'w penderfyniad terfynol. A gwelir yn y sleid olaf bod y patrwm o etholaethau yn fy nghynigion yn canlyn patrwm adroddiad terfynol y Comisiwn yn 2018.

[00:46:22]



Diolch am y cyfle i gyflwyno fy syniadau ger eich bron, a hefyd am y cyfle i ddod yma heddiw gan fy mod wedi methu dod i'r gwrandawriad ym Mangor gan fy mod wedi cael Covid. A diolch hefyd i'r Cadeirydd am ganiatáu i mi gael amser ychwanegol.

SP: Diolch yn fawr. Cwestiynau o'r llawr? Na. Unrhyw beth gan gydwethwyr? Os na, diolch yn fawr unwaith eto. Diolch yn fawr iawn.

SW: Diolch yn fawr. Mae hi wedi gofyn i Roger ddarllen datgan ar ran...

SP: Sori?

SW: Nid yw Faye Jones yn gallu bod yma. Mae hi wedi gofyn i Roger ddarllen datganiad ar ei rhan.

SP: Popeth yn iawn. Deallaf nad yw Faye Jones, AS, yn gallu dod yn ddiweddarach, ond mae ganddi ddatganiad.

RP: Oes, dydw i ddim yn credu ei fod gennyf eto, ond byddaf yn...

SP: Iawn, wel. Nid ydym yn disgwyl ein siaradwr nesaf tan 5.30, felly fe ohiriwn tan chwarter wedi pump, ond os daw'r datganiad gan Faye Jones, rhowch wybod i ni ac fe ddeuwn o hyd i ffordd o ailymgynnull ychydig yn gynt neu rywbeth.

RP: Ie.


SP: Iawn, diolch yn fawr. Mae'r cyfarfod yn torri.

AC: Os gallem aildechrau'r gwrandawriadau heddiw. Mae gennym ychydig am hanner awr wedi saith, ond nid ydynt yn gallu dod. Faye Jones, AS Brycheiniog a Sir Faesyfed, ond mae hi wedi anfon cyflwyniad ysgrifenedig at Mr Pratt, sef llefarydd y Ceidwadwyr yma heddiw? Os hoffai Mr Pratt ddarllen hwnnw ar ran yr AS, felly, Mr Pratt, os gwnewch chi ddychwelyd i'r ddarllenfa i wneud hynny i ni, diolch.

RP: Diolch, diolch yn fawr. Fy enw i yw Roger Pratt ac rwy'n cynrychioli'r Blaid Geidwadol. Roedd Faye Jones yn awyddus iawn i annerch un o'r gwrandawriadau ac mae hi wedi cael ei rhwystro ar bob cam. Yn anffodus, bu farw ei mam ychydig cyn y gwrandawriad yn Abertawe yr oedd wedi trefnu cymryd rhan ynddo ac felly ni allai ei fynychu. Roedd hi wedi neilltuo slot yn ddiweddarach heddiw, ond yn anffodus mae busnes seneddol wedi ei hatal rhag bod yma, felly mae hi wedi gofyn i mi ddarllen datganiad ar ei rhan. Felly, dyma ddatganiad gan Faye Jones, yr Aelod Seneddol dros Frycheiniog a Sir Faesyfed.

[00:48:19]

Ysgrifennaf i fynegi fy nghefnogaeth i'r newidiadau a gynigiwyd i etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed. Rwy'n cefnogi ychwanegu naw ward o Gwm Nedd Uchaf. Wrth ymestyn yr etholaeth y tu hwnt i Ystradgynlais, mae'r Comisiwn Ffiniau wedi bodloni amcan y ddeddfwriaeth o gynyddu nifer yr etholwyr heb gysylltu cymunedau ar wahân. Mae cysylltiadau clir â'r wardiau newydd arfaethedig. Credaf yn gryf fod y naw ward ychwanegol yn ychwanegiad synhwyrol a fyddai'n




helpu'r wardiau dan sylw a'r etholaeth yn ei chyfanrwydd. Mae'r ardaloedd hyn yn rhannu treftadaeth gref a màs critigol o bobl. Mae unigolion yn cymudo rhwng yr ardaloedd hyn yn naturiol. Mae'n fuddiol, felly, eu bod yn cael eu cyfuno. Byddai hyn yn symleiddio eu cynrychiolaeth wleidyddol gan eu bod yn rhannu credoau a materion gwleidyddol tebyg yn naturiol. Rwyf wedi rhannu'r buddion yn dri chategori amlwg, sef addysg, yr economi a diwylliant.

Sut mae B ac R, Ystradgynlais yn cysylltu â'r wardiau newydd? Yn gyntaf, addysg. Ar hyn o bryd, mae cysylltiadau cymunedol yn datblygu ar draws ffin yr etholaeth o ganlyniad i ofynion addysg. Er enghraifft, mae nifer sylweddol o blant yn ardal Pontsenni, o fewn Brycheiniog a Sir Faesyfed, eisoes yn mynd i Ysgol Uwchradd Ystalyfera, sef ysgol uwchradd Gymraeg ar draws ffin yr etholaeth. Dyma'r ysgol uwchradd Gymraeg ymdrwythol agosaf i fyfyrwyr sy'n byw yn ne Brycheiniog a Sir Faesyfed. Mae cynrychiolwyr yr etholaeth hon ar lefel leol a chenedlaethol yn falch o siarad o blaid darpariaeth Gymraeg ychwanegol, a byddai cael ysgol uwchradd Gymraeg yn yr etholaeth yn beth da i rieni'r myfyrwyr hyn. Gallai aelod etholedig o'r etholaeth hon gynrychioli plant a rhieni'r rhai sy'n mynd i'r ysgol hon ac ymfalchïo yn ei statws fel yr ysgol gwbl Gymraeg gyntaf ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed. Byddai hyn yn ffynhonnell gyffredin o falchder a phwysigrwydd ar draws yr etholaeth.

Yn ail, yr economi. Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd, sef menter drawslywodraethol sy'n gwasanaethu er budd economaidd Ystradgynlais a'r ardal ehangach, yn ffinio â'r etholaeth hon yng Nghwm Nedd Uchaf gyfagos. Mae llywodraeth Cymru, llywodraeth y Deyrnas Unedig trwy'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, Cyngor Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Sir Powys wedi bod yn allweddol wrth sicrhau bod y prosiect hwn yn cael ei wireddu'n llwyddiannus. Bydd y Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Rheilffyrdd yn gyfrifol am ddenu a chyflawni cynlluniau uchelgeisiol i greu amgylchedd profi ac arloesi unigryw ar gyfer rheilffyrdd ym mro ddiwydiannol de Cymru. Fe allai drawsffurfio'r diwydiant rheilffyrdd yn y Deyrnas Unedig, a chyfrannu at agenda ailgydbwysio llywodraeth y Deyrnas Unedig trwy ysgogi gallu ymchwil, datblygu ac arloesi'r Deyrnas Unedig. Yn hollbwysig, bydd yn cael effaith economaidd-gymdeithasol enfawr yn y gymuned leol ac ehangach ac yng Nghymru yn fwy cyffredinol. Mae buddion economaidd amlwg yn gysylltiedig â chael safle profi rheilffyrdd o'r radd flaenaf yn ffinio â'r etholaeth hon. Mae'n denu unigolion dawnus, yn ymgysylltu â'r gymuned leol ac yn cefnogi a gwella twf economaidd lleol yn gyffredinol. Mae'r diffyg seilwaith rheilffyrdd yn yr ardal yn achos pryder i'r rhai sy'n byw yn yr etholaeth. Credaf y byddai cael y ganolfan yn yr etholaeth yn cryfhau unrhyw waith eirioli y gallai aelod etholedig ddymuno ei wneud dros welliannau i drafndiaeth leol sy'n gwasanaethu anghenion economaidd ei etholwyr.

[00:52:04]

Yn drydydd, diwylliant a chymuned. Byddai'r cynigion hefyd yn ychwanegu nifer o ardaloedd Cymraeg eu hiaith at yr etholaeth, sy'n adeiladu ar y gymuned Gymraeg ei hiaith yn Ystradgynlais. Fel y crybwyllwyd eisoes, byddai cynnwys addysg Gymraeg yn ein helpu yn hyn o beth. Rwyf i, fel cynrychiolydd Ystradgynlais, yn cynnal cymorthfeydd yn y llyfrgell yno yn aml. Rwyf yn ymwybodol bod cyfran sylweddol o'm gwaith achos sy'n dod o'r gornel hon o'm hetholaeth, sydd nesaf at yr ardal newydd arfaethedig, yn troi o amgylch materion y cyngor. Credaf y




byddai'n symlach petai'r wardiau cyffiniol hyn yn cael eu huno â Brycheiniog a Sir Faesyfed. Mae'n fuddiol ei bod yn glir pwy yw eu cynrychiolydd lleol a byddai'n annog y cynrychiolydd lleol i siarad ar ran y gymuned gyfan, yn hytrach na rhan ohoni. Felly, credaf ei bod yn rhesymegol i'r wardiau hyn gael eu hychwanegu at etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed. Byddai cymryd Ystradgynlais, ynghyd â'r wardiau arfaethedig yng Nghastell-nedd, yn cynnwys traean o nifer etholwyr yr etholaeth newydd. O ganlyniad i'w harwyddocâd o ran maint a gwaith achos presennol, byddai aelod etholedig yn synhwyrol ac yn iawn i gynnal nifer o gymorthfeydd yn yr ardal hon yn ogystal â sefydlu swyddfa etholaeth. Byddai hyn yn cydnabod pwysigrwydd yr ardal a'i gwerth fel ychwanegiad diweddar at yr etholaeth. Mae er budd ehangach yr etholaeth hon i gysylltu â'r wardiau hyn. Bydd yn cryfhau a gwella cymesuredd sydd eisoes yn bodoli. Bu newid demograffig sylweddol ac mae bellach yn cyd-fynd â'r wardiau sydd eisoes yn fy etholaeth, felly mae amgáu'r cynigion hefyd yn bodloni'r meini prawf a osodir yn y Bil i gyfyngu ar nifer yr awdurdodau lleol a rychwantir gan bob etholaeth seneddol, mae ychwanegu wardiau o Gastell-nedd Port Talbot yn gwneud synnwyr clir, yn enwedig o ystyried y cydweithredu presennol rhwng Cyngor Sir Powys ac awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot ar brosiectau fel y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd.

Rwyf hefyd yn cefnogi newid enw'r etholaeth i barchu cynnwys y wardiau ychwanegol. Er enghraifft, Brycheiniog Maesyfed a Chwmtawe, neu Frycheiniog Maesyfed a Chwm Tawe Uchaf.

Dyna ei datganiad.

- AC: Diolch, Mr Pratt. Rwy'n amharod i ofyn am sylwadau o'r llawr oherwydd nid eich datganiad chi rydych chi'n ei ddarllen, er tegwch, felly... Ond a oes unrhyw bwyntiau eglurhad? Mr Pratt, diolch am ddarllen datganiad yr AS i ni.
- RP: Diolch yn fawr iawn.
- AC: Ychydig cyn pryd, rwy'n credu bod Mr Hayfield yn bresennol. Ydych chi'n barod i fynd?
- HH: Ydw wir.
- AC: Rwy'n credu, Mr Hayfield, fod gennych slot 20 munud.
- HH: Bobol bach! [chwerthin]
- AC: Oherwydd eich bod wedi ceisio mynychu rhai eraill ac wedi methu, rwy'n credu.
- HH: Os rhowch chi ugain munud i mi, fe geisiaf..., fe geisiaf wneud y mwyaf ohono sut bynnag.
- AC: Y cyfan a ddywedaf yw, ar y diwedd bydd, fe gewch chi..., byddwch..., bydd cwestiynau a phwyntiau eglurhad yn cael eu caniatáu.
- HH: O, gwych!



AC: Ohonoch. A bydd fy nghydweithiwr sy'n eistedd y tu ôl i Mr Pratt yno yn dal arwydd sy'n dangos bod gennych ddwy funud ar ôl os byddwch yn cyrraedd y pwynt hwnnw.


[00:55:18]

HH: Wel, diolch yn fawr, Mr Gadeirydd. Prynhawn da, fy enw i yw Harry Hayfield ac mae Plaid Werdd Cymru wedi gofyn i mi gyflwyno ein cynigion a gwneud sylwadau ar y cynigion cychwynnol fel y'u hamlinellwyd gan y Comisiwn.

Rwyf wedi sylwi mewn nifer fawr o'r cyfarfodydd hyn, nid dim ond yma yng Nghymru, ond hefyd yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, bod sawl unigolyn yn dod i'r ddarllenfa hon a datgan bod hwn yn arolwg ffiniau ffug, gan gau'r drws fel y'u hamlinellwyd gan Ddeddf Etholaethau Seneddol 2022 yn glep, ac rwyf, fel rwyf yn ei dybio yma, ymgais diegwyddor am bŵer gan y Llywodraeth Geidwadol. Er ei bod yn wir ein bod ni yn y Blaid Werdd yn gwrthwynebu'r ddeddf a basiwyd, nid yw'r ffaith bod y ddeddf wedi cael ei phasio a'ch bod chi yma'n gweithredu ar y ddeddf honno yma nac acw. Wedi dweud hynny, hoffwn gofnodi'n ffurfiol ein bod yn cytuno â'r bobl hynny nad oedd angen y ddeddf hon erioed yn y lle cyntaf. O dan y ddeddf fel y'i pasiwyd, mae'n rhaid i'r 2.3 miliwn o etholwyr yng Nghymru gael eu gosod mewn 32 etholaeth yn hytrach na'r 40 presennol. Yr unig etholaeth yng Nghymru nad yw'r newidiadau hyn yn effeithio arni yw Ynys Môn, wrth gwrs. Credaf y gall yr aelod anrhydeddus dros Sir Drefaldwyn a oedd yma yn gynharach heddiw awgrymu'r rheswm dros hyn, yn ôl pob tebyg. Felly, mae'n rhaid i'r tua 2.2 filiwn o etholwyr sy'n weddill gael eu gosod mewn 31 etholaeth newydd, gan gadw at y ddeddf o hyd, sy'n datgan na all unrhyw etholaeth gynnwys nifer etholwyr sy'n fwy nag $1/645^{\text{fed}}$ o nifer etholwyr y Deyrnas Unedig, o fewn 5% yn fwy neu'n llai. Ac yn fy nghyflwyniad ffurfiol, Mr Gadeirydd, rwy'n falch o ddweud bod yr holl etholaethau arfaethedig yn dod o fewn yr amrediad hwnnw. Y lleiaf yw Arfordir Sir Benfro, sef 95.17% o gwota etholiadol y Deyrnas Unedig, a'r mwyaf yw Sir Fynwy, sef 104.48% o gwota etholiadol y Deyrnas Unedig.

Gan ein bod ni yn Aberystwyth heddiw, byddaf yn canolbwyntio'n unig ar yr etholaethau hynny yn siroedd seremonïol Powys a Dyfed, sy'n cynnwys 396,334 o etholwyr rhyngddynt ac sy'n gallu cael, o dan y rheolau fel y'u hamlinellir, tua phum etholaeth, un yn llai nag ar hyn o bryd. Felly, byddaf yn crynhoi fy nghynigion o'r gogledd i'r de.

Gan ddechrau gyda Sir Drefaldwyn, sy'n cynnwys 49,100 o etholwyr ar hyn o bryd. Tra bod y Comisiwn wedi penderfynu rhoi Sir Drefaldwyn mewn un etholaeth, sef Sir Drefaldwyn a Glyndŵr, credaf y dylai gael ei rhannu rhwng dwy etholaeth. Eryri a Gogledd Sir Drefaldwyn, gan adlewyrchu cysylltiadau gogledd Sir Drefaldwyn â throedfrynau Eryri, a Bannau Brycheiniog a De Sir Drefaldwyn, sy'n adlewyrchu cysylltiadau trefi fel y Drenewydd â Bannau Brycheiniog. Mae gan Eryri a Gogledd Sir Drefaldwyn 73,240 o etholwyr, sef 99.79% o gwota etholiadol y Deyrnas Unedig, ac mae gan Fannau Brycheiniog a De Sir Drefaldwyn 75,830 o etholwyr, sef 103.32% o gwota etholiadol y Deyrnas Unedig. Ac ydw, rwyf yn ymwybodol fy mod wedi defnyddio'r enw Saesneg, ond nid wyf yn gwrthwynebu o gwbl petai'r Comisiwn eisiau defnyddio'r enw Cymraeg Eryri, a chredaf yn bersonol y byddai hwnnw'n enw gwell.



[00:58:26]


Brycheiniog a Sir Faesyfed, 54,854 o etholwyr. O ganlyniad i'r rheolau y mae'r Comisiwn yn gweithio oddi tanynt, rwyf wedi ceisio fy ngorau glas i beidio â chroesi siroedd seremonïol. Yn anffodus, ni fu hyn yn bosibl bob tro a dangoswyd hyn gan gynnig y Comisiynydd sydd wedi gweld enw'r etholaeth yn aros heb ei newid, ond wedi cymryd rhan o Gastell-nedd. Yn yr un modd, rwyf wedi ceisio gwneud yr un peth gyda rhai o wardiau Cyngor Sir Fynwy yn dod i mewn. Gwrthbwydwyd hyn gan rai wardiau'n mynd allan o'r etholaeth i greu etholaeth newydd Aman, Castell-nedd a Chwm Tawe.

Ceredigion, 56,151 o etholwyr. O ran Ceredigion, mae'r rheolau fel y'u gosodwyd gan y llywodraeth wedi golygu, am y tro cyntaf, am yr eildro ers i'r etholaeth hon gael ei chreu'n ffurfiol ym 1885, fod Ceredigion yn mynd i orfod bod yn Geredigion a rhywbeth. Rhwng 1983 a 1997, roedd yn Ogledd Penfro ac o'r etholiad nesaf ymlaen, bydd yn rhaid iddi fod yn a'r Preseli. Nid bai Ceredigion yw hyn. Mae'r rheolau fel y'u gosodwyd yn dweud bod Ceredigion chwarter yn rhy fach i oroesi ar ei phen ei hun fel etholaeth ac, yn anffodus, hyd yn oed petai cynnydd mawr mewn genedigaethau eleni, ni fyddai'n cael effaith tan 2040 ar y cynharaf. Felly, yr unig awgrym rhesymol yw cymryd rhannau mawr o Breseli Sir Benfro mewn modd tebyg i'r Comisiwn. Yn wir, Mr Gadeirydd, er ein bod yn meddwl mewn ffordd debyg, yr unig wahaniaeth rhyngof i a chi yw Trefdraeth; rydych chi'n credu y dylai fod yng Nghanolbarth a De Sir Benfro ond byddwn i'n ei rhoi yng Ngheredigion a Phreseli. O ran Preseli Sir Benfro, sy'n cynnwys 50,030 o etholwyr, ar ôl cymryd rhan fawr allan o'r etholaeth, mae'r gweddill, heblaw am wardiau Clydau a Chrymych a fyddai'n mynd i etholaeth arfaethedig Sir Gaerfyrddin, yn dod yn sylfaen ar gyfer etholaeth newydd Arfordir Sir Benfro. Mae hyn hefyd yn cynnwys Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, sef 59,633 o etholwyr, sydd yn ei thro yn cael ei his-rannu'n etholaeth Sir Gaerfyrddin, y mae'r mwyafrif helaeth ohoni'n cynnwys etholaeth bresennol Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, sef 57,700 o etholwyr, gydag ambell ward yn unig, sef Llangynor, Penderyn, Penygroes, Saron a St Ishmael, yn cael eu cyfuno ag etholaeth bresennol Llanelli, sy'n cynnwys 60,766 o etholwyr ar hyn o bryd. Er mwyn creu, os maddeuwch gyfeiriad at fideo ar y rhyngwrdd, mae Llanelli yn gwneud Llanelli newydd sbon, a bydd yn ddiddorol gweld a yw'r unigolyn nesaf i siarad ar fy ôl i, sef yr aelod anrhydeddus ar gyfer yr etholaeth honno yr wyf newydd sylwi arni'n dod i mewn, yn rhannu fy marn y bydd Llanelli wastad yn Llanelli. Fodd bynnag, hoffwn ymddiheuro o flaen llaw i'r aelod anrhydeddus na fyddwn yn gallu canu Sosban Fach, oherwydd bod fy Nghymraeg yn warthus, a bod yn onest, er fy mod wedi byw yma am 40 mlynedd, ond y rheswm am hynny yw oherwydd nid ieithydd ydw i.

Gyda hynny, hoffwn ddiolch i'r Comisiwn am ganiatáu i mi wrando ar sylwadau cynharach y prynhawn 'ma ac oes nad oes unrhyw wrthwynebiadau, hoffwn aros i glywed meddyliau'r aelod anrhydeddus dros Lanelli a chan dybio nad oes unrhyw wrthwynebiadau, cael ateb i unrhyw gwestiynau y dymunwn eu bod yn cael eu gofyn. Diolch yn fawr iawn.

AC: Diolch yn fawr. A oes unrhyw bwyntiau eglurhad? Mr Pratt?

RP: Diolch, diolch yn fawr. Roger Pratt o'r Blaidd Geidwadol. Sylweddolaf eich bod wedi canolbwyntio ar yr ardaloedd yn y cyffiniau hyn oherwydd dyma'r gwrandawriad,



ond fe grybwyllloch Sir Fynwy ar un adeg, oherwydd rwy'n credu eich bod wedi cysylltu rhan o Sir Fynwy â rhan o Frycheiniog a Maesyfed. Tybed a allech chi esbonio beth yn union sy'n digwydd i Sir Fynwy o dan gynnig y Blaid Werdd?

[01:02:18]

HH: O dan y cynnig, fe ddylwn i ddweud na ddes i â'm hadnoddau gyda mi oherwydd roeddwn yn sôn yn benodol am yr ardal hon yn unig, ond rwyf wedi'i gyflwyno i'r Comisiwn a phan fyddwch yn cyhoeddi eich, y cyflwyniadau a'r holl bethau eraill rydych wedi'u cael, fe fydd yn eu plith. Ond credaf mai'r rheswm pam y des i i'r casgliad oedd bod Sir Fynwy ar ei phen ei hun o'r maint iawn ar gyfer etholaeth, ac felly'r cyfan rwyf wedi'i wneud yw cymryd wardiau mwyaf gogleddol cyngor Sir Fynwy a'u rhoi ym Mrycheiniog a Maesyfed newydd, Brycheiniog a Sir Faesyfed a De Sir Feirionnydd newydd, fel bod modd i Sir Fynwy aros fel etholaeth heb orfod ychwanegu unrhyw rannau o Gasnewydd ati. Ond, fel y dywedais, pan gyhoeddir cyflwyniadau ffurfiol ar ddiwedd y weithdrefn hon, fe allwch weld yr hyn rwyf wedi'i roi yn ffurfiol.

RP: Felly, rydych yn cymryd, rwy'n credu fy mod yn iawn i ddweud, rydych yn cymryd rhannau allan, fel lle'r wyf i'n byw yn Llanelly Hill, a rhannau eraill, ond nid y Fenni ei hun, ond holl ardaloedd amgylchynol y Fenni. Ond mae hynny'n golygu bod rhaid i chi ychwanegu rhywbeth arall at Sir Fynwy, nid yw'n gweithio.

HH: Gallaf eich sicrhau, fel y dywedaf, fod yr holl etholaethau yr wyf wedi'u cynnig yn cyd-fynd â'r rheolau fel y'u gosodwyd gan Ddeddf Etholaethau Seneddol 2000 a byddwn yn hapus i anfon copi atoch os dymunwch.

RP: O, o, iawn. Mae hynny'n iawn, ond rwy'n ceisio dyfalu beth rydych chi'n ei ychwanegu? Rwy'n ceisio cael eglurhad ynglŷn â beth rydych chi'n ei ychwanegu at Sir Fynwy i wneud iawn am yr ardaloedd o Sir Fynwy rydych wedi'u cynnwys gyda Brycheiniog a Maesyfed?

HH: Ni allaf eu cofio ar y funud, ond byddaf yn sicr yn anfon copi atoch.

RP: Iawn, diolch yn fawr.

AC: Unrhyw bwyntiau eraill o'r llawr? Rwy'n cymryd nad oes unrhyw bwyntiau eglurhad eraill i chi. Diolch yn fawr.


HH: Diolch yn fawr, Mr Gadeirydd.

AC: Mae croeso i chi aros i glywed Nia Griffith AS sydd wedi cyrraedd ymhell cyn pryd. Ydych chi eisiau siarad nawr?

NG: Wel, os nad oes neb arall yma o'm blaen yn y ciw.

SP: Chi yw'r ciw, mae arna' i ofn. Chi yw'r ciw. [chwerthin]

AC: Fe wnaif i ddim sylw ar hynny, ond mae gennych ddeng munud i'n hannerch o'r podiwm. Fel rydych newydd ei weld, gall y llawr ofyn cwestiynau i chi, er eglurhad, nid croesholi, ac felly hefyd y panel. Os dywedwch chi bwy ydych a phwy yw'r




sefydliad rydych yn perthyn iddo a'r ardal gyffredinol o ble rydych yn dod. Bydd y gŵr y tu ôl yn y rhes gefn yn dweud wrthy ch pan fydd gennych ddwy funud ar ôl. Diolch.

[01:04:50]

NG: Iawn. Wel, diolch yn fawr iawn, Gadeirydd. Felly, Nia Griffith ydw i, yr Aelod Seneddol dros Lanelli, yn siarad ar gynnig i symud ward Llangynor o etholaeth newydd Llanelli i etholaeth newydd Caerfyrddin; gan adlewyrchu'r cyflwyniad gan Gyngor Cymuned Llangynor a chan Rob James, arweinydd grŵp Llafur ar Gyngor Sir Caerfyrddin.

I ddechrau, hoffwn ddiolch yn ffurfiol i'r Comisiwn Ffiniau am eu gwaith wrth fynd i'r afael â'r dasg heriol iawn hon o lunio ffiniau i fodloni'r meini prawf nifer etholwyr ledled Cymru wledig. A chan gyfeirio'n benodol at fy etholaeth i, sef Llanelli, hoffwn ddweud fy mod yn falch iawn o weld bod dau hanner pentref Pont-iets wedi cael eu rhoi gyda'i gilydd, sy'n ymddangos yn gynnig synhwyrol iawn, bod Caraway a Ffoslas wedi'u cynnwys bellach ochr yn ochr â Brynsaron yn etholaeth Llanelli oherwydd, unwaith eto, roedd wastad yn ymddangos braidd yn anghyson nad oedd Caraway a Ffoslas yn rhan o'r etholaeth. A bod St Ishmael a Glanyfferi wedi cael eu cynnwys gyda Chydweli. Ac mae'r rhain i gyd yn ymddangos yn newidiadau synhwyrol iawn.

Nawr, cyn y newidiadau i ffiniau yn y 1990au, roedd ardal drefol gyfan Caerfyrddin yn rhan o etholaeth Caerfyrddin, hynny yw ardal Cyngor Tref Caerfyrddin ac ardal Cyngor Cymuned Llangynor. Yna, yn y 1990au, yn rhan o newidiadau i ffiniau a ddaeth i rym yn etholiad 1997, cafodd tref Caerfyrddin ei chynnwys yn etholaeth Gorllewin Caerfyrddin, tra bod ward Llangynor wedi cael ei chynnwys yn etholaeth Dwyrain Caerfyrddin. Ac ar y pryd, roedd hyn yn teimlo fel petai'r gymuned yn cael ei rhwygo'n ddarnau. Ar bapur, gall Afon Tywi edrych fel ffin amlwg, ond o ran cymuned, mae'r gymuned wedi tyfu ar ddwy ochr yr afon, gyda'r orsaf drenau ac ardal fanwerthu a masnachol sy'n ehangu ar ochr Llangynor o'r afon. A byddai'r arolwg hwn yn gyfle i aduno'r gymuned. Ond, yn bwysicaf, wrth gwrs, mae pobl Llangynor eu hunain, fel y mynegwyd yn y cyflwyniad gan Gyngor Cymuned Llangynor, hefyd yn ystyried bod eu cymuned yn rhan fwy naturiol o Gaerfyrddin na Llanelli. Caerfyrddin yw'r dref maen nhw'n mynd iddi'n naturiol ar gyfer gwasanaethau, hamdden, clybiau, cymdeithasau, yn ogystal â siopa a gwaith. Mae'r dref wedi'i gwasanaethu'n dda gan bontydd ac mae preswylwyr Llangynor i mewn ac allan o Gaerfyrddin drwy'r amser. Mae rhan o Langynor o natur drefol iawn, ac er y byddai'n naturiol cael ffiniau trwy ardal drefol mewn prifddinas fawr oherwydd bod arnoch angen mwy nag un etholaeth, byddai'n ymddangos yn rhyfedd iawn i ardal drefol o faint Caerfyrddin gael ei rhannu'n fwy nag un etholaeth. Mae pobl Llangynor, felly, fel y dywedaf, yn edrych tuag at Gaerfyrddin yn bendant ar gyfer eu bywyd. I'r gwrthwyneb, mae ganddynt dipyn llai o gysylltiad â'r gefnwlad wledig a byddai'n rhyfedd iawn iddynt fod yn rhan o etholaeth Llanelli. Yn sgil y newid hwn, byddai etholaethau newydd Llanelli a Chaerfyrddin yn parhau i fod o fewn y terfynau a ganiateir, sef dim llai na 69,724 o etholwyr seneddol a dim mwy na 77,062. Maint ward newydd Llangynor yw 2,077, felly gyda'r ychwanegiad hwnnw, byddai nifer yr etholwyr yn ward newydd Caerfyrddin yn cynyddu o 70,606 i 72,683. Byddai nifer yr etholwyr yn etholaeth newydd Llanelli yn lleihau o 71,972 i 69,895. Yn bersonol, petawn i'n cael y fraint o gynrychioli pobl Llangynor, byddwn



yn falch iawn o wneud hynny, a minnau wedi addysgu llawer ohonynt a'u hadnabod ers blynyddoedd maith. Ond rwy'n parchu eu safbwyntiau ac yn cefnogi'r syniad o gynnwys Llangynor yn etholaeth newydd Caerfyrddin. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd.

[01:08:58]

AC: A oes unrhyw bwyntiau eglurhad o'r llawr? Na, na? Oes gennych chi bwynt, Mr Hayfield, ie?

HH: Diolch yn fawr, Harry Hayfield, Plaid Werdd Cymru. Os bydd yr hyn y gofynnwch amdano'n digwydd, a chan eich bod wedi mesur bod maint y ddwy etholaeth yn briodol o hyd, onid ydych chi'n poeni, yn sgil y newidiadau, y byddai eich etholaeth lai yn gyfreithiol o fewn trwch blewyn yn unig ac felly y gallai unrhyw newidiadau i nifer y bobl yn y ward honno wneud eich etholaeth, fel yr ydych chi'n ei chynnig, yn anghyfreithlon yn sydyn?

NG: Mmm. Wel, os caf i ddweud, Gadeirydd, rwy'n deall ers y torbwynt yn 2020, wrth gwrs y bu cynnydd yn nifer y tai mewn llawer o etholaethau, ond mae'n rhaid i mi ddweud bod y gyfradd dwf yn Llanelli yn ymddangos yn uwch o lawer na chyfartaledd Cymru gan ein bod wedi cael llawer iawn o dai ar hyd yr arfordir a chredaf ein bod dipyn yn uwch na hynny, y marc penodol hwnw, eisoes a byddwn yn parhau i dyfu, o'r caniatadau cynllunio rydw i'n eu gweld yn dod trwodd.


AC: Wrth gwrs, mae llinell yn cael ei thynnu at y dibenion hyn, mae ciplun yn cael ei gymryd, os dymunwch, o'r boblogaeth fel yr oedd. Er y deallwn eich pwynt, byddai am byth, byddem yn parhau i arolygu am byth os byddem yn symud yn ôl newidiadau i'r boblogaeth, ond rydym yn..., diolch am eich cyfraniad a diolch.

Oes gennych chi unrhyw gwestiynau?

SW: Na, does neb arall nawr, felly gallwn gael egwyl a saib.

AC: Diolch, Mrs Griffiths. Nid oes siaradwr arall wedi'i restru ar hyn o bryd. Byddwn yn gohirio ac yn aros ar gael, os gallaf ei fynegi fel yna, rhag ofn y bydd partïon eraill yn cyrraedd. Ond ar hyn o bryd, mae'r gwrandawriad wedi'i ohirio. Diolch.

[Diwedd y Trawsgrifiad 01:10:48]





**Comisiwn Ffiniau
i Gymru**

**Boundary Commission
for Wales**

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.
Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif Ffon: +44 (0)29 20464819
Rhif Ffon: +44 (0)29 21055521
E-bost: bcw@ffiniau.cymru